# Cynnwys


Rhaglen
4. Cofnodion y cyfarfod diwethaf 6
6 - Monitro a Gorfodaeth Safleoedd Carfanau 12
7 - Dyfodol Cludiant Cyhoeddus yng Ngwynedd 17
    Atodiad 1 22
    Atodiad 2a 23
    Atodiad 2b 24
8 - Pont Briwet 25
9 - Ymchwiliad Craffu Cludiant Ôl 16 i Addysg Bellach 31
    Atodiad 1 - Cymariaethau Lefel Cyllideb 2013-14 79
    Atodiad 2 - 2012-13 Ceisiadau am Lwfansau Cynhaliaeth Addysg 81
    Atodiad 3 - Amser teithio i Ysgol Uwchradd 85
    Atodiad 4 - Dadansoddiad holiadur myfyrwyr 86
    Atodiad 5 - Dadansoddiad holiadur i deuluoedd 93
    Atodiad 6 - Asesiad o'r Opsiynau 100
10 - Rhaglen Waith Craffu 2014-2015 113

**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU**

**COMMUNITIES SCRUTINY COMMITTEE**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**10:00am, DYDD MAWRTH, RHAGFYR 2il, 2014**

**10.00am, TUESDAY, 2nd of DECEMBER, 2014**

Lleoliad / Location

**SIAMBR HYWEL DDA**

**SWYDDFEYDD Y CYNGOR / COUNCIL OFFICES**

**CAERNARFON**

**LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**Lowri Haf Evans (01286 679 878)**

lowrihafevans@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd / Distributed 26.11.2014

**Aelodaeth/Membership (18)**

**<u>Plaid Cymru (8)</u>**

Y Cynghorwyr/Councillors

| | | |
|---|---|---|
| Craig ap Iago | Annwen Hughes | Dilwyn Morgan |
| Linda Morgan | Tudor Owen | Caerwyn Roberts |
| Mandy Williams-Davies | Eurig Wyn | |

**<u>Annibynnol/Independent (4)</u>**

Y Cynghorwyr / Councillors

| | | | |
|---|---|---|---|
| Eric M. Jones | Nigel Pickavance | Angela Russell | Mike Stevens |

**<u>Llais Gwynedd (3)</u>**

Y Cynghorwyr/Councillors

| | | |
|---|---|---|
| Llywarch Bowen Jones | Gruffydd Williams | Robert J. Wright |

**<u>Llafur/Labour (1)</u>**

Y Cynghorydd/Councillor

Gwynfor Edwards

**<u>Democratiaid Rhyddfrydol / Liberal Democrats (1)</u>**

Y Cynghorydd/Councillor

Stephen Churchman

**<u>Aelod Unigol / Individual Member (1)</u>**

Louise Hughes

**Aelodau Ex-officio / Ex-officio Members**

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor
Chairman and Vice-Chairman of the Council

## RHAGLEN

### 1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

### 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

### 4. COFNODION

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid arwyddo cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar 1 Hydref, 2014, fel rhai cywir

(copi yma – papur **gwyn**)

### 5. CYNLLUN GWARCHOD YR ARFORDIR (Gorllewin Cymru)
**Aelod Cabinet: Cynghorydd Gareth Roberts**

Trafodaeth gyda Mr Greg Guthrie (Cwmni Royal Haskoning) Awdur Cynllun Traethlin Gorllewin Cymru.

### 6. MONITRO GORFODAETH MEYSYDD CARAFANAU
**Aelod Cabinet: Cynghorydd John Wyn Williams**

Ystyried Adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio

(copi yma papur **melyn**)

### 7. ADRODDIAD BLAENORIAETHU DARPARIAETH CLUDIANT CYHOEDDUS
**Aelod Cabinet: Cynghorydd Gareth Roberts**

Ystyried Adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio

(copi yma papur **gwyn**)

### 8. DIWEDDARIAD AR GYNLLUN PONT BRIWET
**Aelod Cabinet: Cynghorydd Gareth Roberts**

Ystyried adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio

(copi yma – papur **pinc**)

**9. CYFLWYNO ARGYMHELLION YMCHWILIAD CRAFFU CLUDIANT ADDYSG OL-16**
**Aelod Cabinet: Cynghorydd Gareth Thomas**

Ystyried Adroddiad y Grŵp Ymchwiliad Craffu

(copi yma – papur **gwyn**)

**10. BLAEN RAGLEN WAITH DRAFFT CRAFFU 2014 – 2015**

Cyflwyno'r fersiwn ddiweddaraf o'r rhaglen waith

(copi yma – papur **gwyrdd**)

**CINIO**

**2:00pm**

**YMWELIAD SAFLE Y MAES, CAERNARFON**

Ymweliad dan arweiniad Colin Jones (Rheolwr Parcio a Diogelwch y Ffyrdd) a Dylan Wynn Jones (Rheolwr Tim Gwelliannau Traffig a Rheolaet Datblygu)

# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 1.10.2014

**YN BRESENNOL** - Y Cynghorydd Angela Russell (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies, (Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr:- Stephen Churchman, Annwen Hughes, Eric M. Jones, Llywarch Bowen Jones, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Caerwyn Roberts, Gruffydd Williams, Robert J. Wright ac Eurig Wyn

**SWYDDOGION:** Arwel Ellis Jones (Uwch Rheolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol), Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**HEFYD YN BRESENNOL:**

i) Mewn perthynas ag eitem 5 ar y rhaglen -- Mr Ffrancon Williams (Prif Weithredwr Cartrefi Cymunedol Gwynedd) a Mr Gethin Armstrong (Rheolwr Gwasanaethau Cwsmer CCG), Mr Arwel Owen (Uwch Reolwr Tai Cyngor Gwynedd) a Mr Gareth Parri (Arweinydd Tîm Opsiynau Tai)

ii) Mewn perthynas ag eitem 7 ar y rhaglen - Mrs Kate Thompson (Asiantaeth Safonau Bwyd), Mr Rob Wilkins (Asiantaeth Safonau Bwyd), Y Cynghorydd John Wyn Williams – Aelod Cabinet Cynllunio, Mr Aled Davies (Pennaeth Rheoleiddio) a Mr John Reynolds (Uwch Reolwr Gwarchod y Cyhoedd

iii) Mewn perthynas ag eitem 8 ar y rhaglen - Cynghorydd Gareth Roberts – Aelod Cabinet Amgylchedd, Mr Aled Davies (Pennaeth Rheoleiddio), Mr Andrew Gregson (Swyddog Monitro Cyllid a Chynnydd – Gwasanaeth Trafnidiaeth)

iv) Mewn perthynas ag eitem 9 ar y rhaglen – Cynghorydd Gareth Roberts – Aelod Cabinet Amgylchedd Mr Gwyn Morris Jones (Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol) a Mr Aled Davies (Pennaeth Rheoleiddio)

## 1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU:

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd Angela Russell. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Nigel Pickavance, Gruffydd Williams, Louise Hughes, Mike Stevens a Craig ab Iago.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cynghorwyr Angela Russell a Llywarch Bowen Jones parthed eitem 5 ar y rhaglen.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf 2014 fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

## 5. CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD

(a) Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) 2013 - 2014. Nodwyd yn y Cytundeb Trosglwyddo 'Eich Cartref, Eich Dewis', bod yn ofynnol i CCG nodi sut maent yn gwireddu addewidion a wnaed i denantiaid yn y Ddogfen Gynnig a sut maent yn gweithredu goblygiadau dan y Cytundeb Trosglwyddo.

(b) Yn y drafodaeth ystyriwyd y materion canlynol, oedd wedi eu codi gan aelodau.

i. Nodwyd bod Protocol Aelodau Etholedig yn sicrhau llif gwybodaeth i un cyfeiriad gyda phob ymholiad ac ymateb yn cael ei gofnodi yn briodol. Dywedwyd bod sefydlu un pwynt cyswllt yn rhoi agwedd broffesiynol i'r drefn ac nad oedd unrhyw fwriad i newid y drefn. Adroddwyd bod dros 300 o gwynion wedi eu derbyn gan Gynghorwyr yn y flwyddyn ddiwethaf ond fel mae'r gwaith gwella yn dirwyn i ben ymddengys bod nifer y cwynion yn lleihau. O ran rhannu gwybodaeth ynglŷn a gwaith wedi ei cwblhau, cytunwyd bod modd gwella a chau'r cylch ymholiad yn llawn.

ii. Rhoddwyd manylion am y gwaith oedd wedi ei gyflawni a derbyniwyd bod y nifer stoc oedd yn cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru yn ôl yr elfen ar 31.3.14 yn ganmoladwy iawn.

iii. Mewn ymateb i'r ymdrech gadarnhaol a wneir i recriwtio yn lleol, ymddengys pryder ynglŷn â threfniadau Lovell i is-gontractio. Nodwyd mai un o brif amcanion CCG oedd recriwtio yn lleol ac eu bod yn craffu'r ystadegau yn fisol.

iv. Esboniwyd nad oedd unrhyw gynlluniau gan CCG i uwchraddio a rhoi trydan yn siediau'r tenantiaid gan fod cynlluniau y ceginau yn safonol ar gyfer Safon Ansawdd Tai Cymru.

v. Wrth benderfynu lefel rhent, nodwyd gan CCG eu bod yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru. Addaswyd y polisi rent yn Ebrill 2014 gyda disgwyliad i bawb gydymffurfio erbyn Mawrth 2015. Llunnir matrics ar gyfer pob mudiad tai ynghyd ag ystyried elfennau megis cyflogau a phrisiau tai lleol. Penderfyniad polisi CCG yw rhoi un math o rent ar gyfer un math o dy boed yn wledig neu yn drefol.

vi. Wrth ymateb 'i'r galw yn lleol', manylwyd bod hyn yn cael ei wneud drwy gydweithio gydag Uned Strategol Tai y Cyngor, yr Uned Cynllunio a'r Uned Ymchwil.
Mewn ymateb i'r cynnig o gynnal trafodaethau a chydweithio ymhellach gyda Chynghorau Tref a Chymuned, nodwyd mai diweddar iawn oedd cynlluniau CCG ar ddatblygu, ac felly heb ystyried hyn. Ategodd Uwch Reolwr Tai Cyngor Gwynedd bod modd i'r Cynghorau Tref a Chymuned gysylltu gyda'r Hwylusydd Tai Gwledig a bod modd iddo hwyluso hyn a pharatoi gwybodaeth i'r cyfarfod paratoi nesaf.

vii Gwnaed cais i CCG ymateb i'r farn eu bod yn araf yn gwaredu tai gwag sydd, dros amser yn creu effaith ar dai cyfagos a'r gymuned. Derbyniwyd bod y drefn yn araf ac eglurwyd bod y prosesau, ar gyfer tenantiaid, wedi gwella. Mewn sefyllfa lle ceir tŷ gwag, nad oes bwriad ei rentu ond ei werthu ar y farchnad agored, eglurwyd bod y drefn yn un araf oherwydd y broses o gytundebau a phenderfyniadau sydd angen eu gweithredu cyn gwerthu'r eiddo.
Cytunwyd y buasai CCG, ynghyd â Chymdeithasau Tai eraill, yn ystyried hysbysu'r eiddo yn lleol o fewn yr amserlen benderfynu.

viii Mewn ymateb i gwestiwn a ddylai caeau chwarae gael eu paratoi fel rhan annatod o ddatblygiad tai yn hytrach na thrwy gais grant nodwyd nad cyfrifoldeb CCG yw meysydd chwarae gyda llithren a siglen er enghraifft, oherwydd goblygiadau eang amlwg. Gall CCG hwyluso meysydd chwarae megis caeau pêl droed gan nad oes goblygiadau mor eang ond nid ydynt yn hybu hyn. Ni roddir ystyriaeth i feysydd chwarae o dan y gyllideb tai ond gall fod yn rhan o'r Gronfa Gymunedol.

ix I ymateb i'r drefn opsiynau a system pwyntiau tai, croesawyd Mr Arwel Owen a Mr Gareth Parri o Wasanaethau Tai Cyngor Gwynedd.

Mae'r Polisi Gosod Tai yn rhoi blaenoriaeth i bum amod gyda phwyslais ar yr angen

am dŷ yn hytrach na thŷ yn lleol. Yng nghyd destun 'tai yn lleol', eglurwyd bod Cyngor Gwynedd wedi canfod cyngor bar cyfreithiol a bellach mae'r elfen 'lleol' wedi ei uchafu mor uchel ag y gallai yng Ngwynedd. Ategwyd bod y *Localism Act* yn Lloegr yn gryf, ond nid felly yng Nghymru. O ran rhoi blaenoriaeth i'r elfen 'iaith' nodwyd bod cais wedi ei wneud drwy'r Pwyllgor Iaith i ymchwilio i mewn i hyn.

x. O'r unigolion sy'n cael eu cartrefu, roedd gan 98% gysylltiad lleol â Gwynedd ac roedd 74% efo cysylltiad â'r gymuned (ward) lle roeddynt yn derbyn eiddo gyda 12% yn ychwanegol gyda chysylltiad â chymuned ward gyfagos.

Derbyniwyd y sylw bod diffyg stoc briodol ar gyfer tenantiaid ond cadarnhawyd bod pob opsiwn posib yn cael ei rannu gyda'r tenant gan ymdrechu i ymateb i bob sefyllfa yn agored a realistig.

Mewn ymateb i gynllun 'House Swap' adroddwyd bod hawl cyfreithiol i denant wneud hyn a bod CCG, fel Cymdeithas Tai yn hybu'r cynllun o ran diwygio lles.

Canmolwyd y gwaith ymgysylltu a wneir gyda thenantiaid ac awgrymwyd y dylai 'Syrjeri Symudol' CCG gynnwys trafodaethau gydag Aelodau Cyngor Cymunedau a Thref, Aelodau Lleol, yr Heddlu a chymdogion fel bod cyfle, drwy gydweithio i ymateb a datrys materion lleol. Derbyniwyd y sylw.

Anogwyd yr Aelodau i gyfleu unrhyw gwynion sydd yn achosi pryder iddynt i'r Cyfarfodydd Chwarterol. Enwebwyd y Cynghorydd Annwen Hughes fel dirprwy i'r Cynghorydd Stephen Churchman, pe na byddai'n medru eu mynychu ar ran y pwyllgor.

Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad i'r drafodaeth ac i gynrychiolwyr Cartrefi Cymunedol Gwynedd am fynychu'r cyfarfod. Derbyniwyd yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan bwysleisio'r materion a ganlyn;**

**a) pwysigrwydd casglu gwybodaeth am angen lleol fyddai wedyn yn arwain at gynlluniau datblygu tai i gyfarch yr angen (cytunwyd ceisio gwybodaeth am hynny i'r cyfarfod paratoi nesaf).**

**b) y dylid gwella trefniadau holl gymdeithasau tai i hysbysebu eiddo gwag yn lleol.**

**c) ceisio gwybodaeth gymharol o siroedd eraill ar y nifer o osodiadau i bobl leol er mwyn tawelu neu gadarnhau pryderon aelodau am y nifer o bobl o'r tu allan i ardaloedd sy'n derbyn eiddo o dan y system bwyntiau.**

## 6. BRIFF YMCHWILIAD CRAFFU DIGARTREFEDD

a) Cyflwynwyd briff ymchwiliad craffu digartrefedd ac fe ymhelaethwyd ar gefndir y bwriad i gynnal ymchwiliad craffu i'r mater.

b) Esboniwyd y byddai'r ymchwiliad yn cychwyn ym mis Rhagfyr 2014 gydag adroddiad yn cael ei chyflwyno oddi wrth graffu at y Weithrediaeth ym mis Gorffennaf 2015.

**PENDERFYNWYD ethol yr aelodau canlynol yn aelodau o brif grŵp yr ymchwiliad craffu: - Y Cynghorwyr Stephen Churchman, Caerwyn Roberts, Angela Russell, Eric Jones ac Eurig Wyn**

## 7. ARCHWILIAD MANWL YR ASIANTAETH SAFONAU BWYD AR DREFNIADAU CYNGOR GWYNEDD AR GYFER GORFODI DEDDF DIOGELWCH BWYD 1990: 6 A 7 MAWRTH 2014

a) Cyflwynwyd adroddiad gan Pennaeth yr Adran Rheoleiddio yn rhoi diweddariad ar y cynnydd a wnaed gan Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd wrth ymdrin â chanfyddiadau Archwiliad Manwl yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

b) Ategodd yr Aelod Cabinet bod Cynllun Gweithredu wedi ei baratoi i fynd i afael ar y methiannau ac amlinellu y gwelliannau sydd wedi eu cynllunio i ymdrin â'r diffygion. Sefydlwyd Grŵp Tasg a Gorffen a rhoddwyd tasgau iddynt ymdrin â hwy mewn amserlen gyfyng iawn. Derbyniwyd ymateb gadarnhaol gan aelodau'r Grŵp Tasg a llongyfarchwyd hwy am gwblhau'r tasgau a roddwyd iddynt.

c) Mewn ymateb i gwestiwn os yw Cyngor Gwynedd wedi ymateb yn ddigonol i'r diffygion, nododd Kate Thompson o'r Asiantaeth Safonau Bwyd gefndir a chyd-destun Adroddiad Pennington (Mawrth 2009) drwy egluro mai prif ffocws yr ymchwiliad oedd tystiolaethu bod argymhellion Adroddiad Pennington wedi eu gweithredu. Tystiolaethwyd bod 4 allan o 12 argymhelliad wedi ei gweithredu yn llawn; 3 wedi eu gweithredu gydag ambell i eithriad a 5 heb dystiolaeth o unrhyw weithrediad. Cydnabuwyd bod ymateb y Gwasanaeth i'r diffygion wedi bod yn gyflym ac fe groesawyd hyn.

   Ategwyd bod cydweithio effeithiol gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd ers i'r Grŵp Tasg gael ei sefydlu a bod parodrwydd i hyn barhau. Diolchwyd i'r Asiantaeth Safonau Bwyd am eu cefnogaeth gyda datrysiad positif iawn.

d) Penderfynwyd anfon neges yn diolch i'r staff am ymateb i'r diffygion a chadarnhad i'r cyhoedd nad oes diffygion pellach yn y gwasanaeth. Y sefyllfa wedi ei hadfer ac angen sicrhau bod hyn yn parhau gyda eglurder i bawb o'r hyn sydd yn ddisgwyliedig.

   **Penderfynwyd derbyn adroddiad cynnydd pellach ymhen chwe mis ( i'w gyflwyno i gyfarfod paratoi Pwyllgor Craffu Cymunedau) er mwyn gwirio os oedd y gweithredu wedi dod a'r gwasanaeth yn ôl i lle ddylai fod.**

## 8. Y GYFUNDREFN PARCIO YNG NGWYNEDD

a) Cyflwynwyd adroddiad gan Pennaeth Adran Rheoleiddio yn gwahodd sylwadau gan y Pwyllgor ar yr opsiynau arfaethedig ac i wneud cynigion ynghyd ac awgrymiadau ar gyfer cynlluniau amgen i reoli parcio yng Ngwynedd. Amlygwyd nad oedd polisïau a gweithdrefnau parcio Cyngor Gwynedd wedi newid ers 2007. Nodwyd bellach bod angen eu hadolygu gan asesu os yw'r trefniadau rheoli cyfredol yn cwrdd ag anghenion y Cyngor a'r Cymunedau. Rhannwyd hefyd, er gwybodaeth cymhariaeth costau awdurdodau cyfagos (2014).

b) Croesawyd y cynnig y gallai Gynghorau Cymuned a Thref neu fusnesau lleol reoli rhai mannau parcio, ond pwysleisiwyd bod rhaid edrych yn fanwl ar berchnogaeth y tir ac agweddau eraill cyn cytuno i hyn. Derbyniwyd y sylw gan ategu bod modd cydweithio gyda chymunedau i drafod cyfraniadau gan roi ystyriaeth i godi ffioedd uwch mewn ardaloedd mewn cytundeb gyda Cynghorau Cymuned a Thref gyda unrhyw incwm ychwanegol yn cael ei roi i'r gymuned leol.

c) Mewn ymateb i'r nifer o feysydd parcio am ddim, cytunwyd y byddai angen craffu rhestr y lleoliadau yn fanylach. Ceir rhai sefyllfaoedd lle nad oes cyfiawnhad dros beidio codi ffi, tra mewn rhai mannau parcio buasai y gost o gosod peiriant yn fwy na'r incwm ellir ei godi. Derbyniwyd y posibilrwydd i Gyngor Cymuned a Thref neu fusnesau lleol reoli'r

mannau parcio hyn gyda phwyslais ar gynnal trafodaethau lleol i sicrhau bod y gymuned yn barod i dderbyn y cyfrifoldeb.

ch) Mewn ymateb i opsiwn ar gyfer deiliad Bathodyn Glas cefnogwyd yr awgrym y dylid mabwysiadu system o dalu am docynnau blynyddol gydag unrhyw refeniw a gynhyrchir yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwella cyfleusterau mynediad yn gyffredinol ar strydoedd o fewn meysydd parcio

Awgrymwyd opsiynau ychwanegol megis bathodynnau parcio i drigolion lleol i'r ardal, mabwysiadu trefn i staff Cyngor Gwynedd i dalu am safleoedd parcio, edrych ar y posibilrwydd o wneud gwelliannau ac codi ffi am barcio ar ochr y ffordd yn Abersoch; a sut mae mynd ati i orfodi 24 awr. Gwnaed cais hefyd i'r Cabinet roi ystyriaeth i'r gymhariaeth gyda ffioedd parcio ardaloedd cyfagos cyn dod i benderfyniad ar strwythur ffioedd priodol ar gyfer Gwynedd.

d) Mynegodd yr Aelod Cabinet ei fod yn croesawu bod y Pwyllgor Craffu yn fodlon gyda'r egwyddorion ac argymhellion a gyflwynwyd yn y papur ac ei fod yn hapus bod hyn yn sail i symud ymlaen i gyflwyno y mater i'r Cabinet. Diolchodd i'r Aelodau am eu mewnbwn.

**PENDERFYNWYD datgan bodlonrwydd gyda chynigion yr adolygiad yn amodol ar y pwyntiau canlynol;**

**i) Bod angen annog cydweithio gweithredol gyda chymunedau lleol ar reolaeth meysydd parcio**
**ii) Y dylid craffu nifer o feysydd parcio am ddim yn lleol wedi trafod y mater gydag aelodau lleol.**
**iii) Croesawu'r syniad o godi tal am barcio mewn' llecynnau bathodynnau glas' ond bod yn rhaid sicrhau bod unrhyw incwm yn cael ei ddefnyddio i wella'r cyfleusterau i ddefnyddwyr.**
**Y dylai'r Cabinet, pan yn ystyried y cynigion yn ffurfiol dderbyn gwybodaeth gymharol**
**yn arbennig o gynghorau cyfagos.**

## 9. YMCHWILIAD CRAFFU BALCHDER BANGOR

a) Derbyniwyd adroddiad cynnydd ar argymhellion yr Ymchwiliad Craffu. Cydnabuwyd nad oedd chwe mis yn gyfnod digonol ar gyfer gwireddu cynnydd o safbwynt rhai argymhellion ac fe gytunwyd bod angen cynnal trafodaethau pellach gyda Chyngor Dinas Bangor i sefydlu beth oedd eu bwriad gyda Balchder Bangor.

b) Adroddwyd bod gwaith cyffrous gan Undeb y Myfyrwyr wedi bod yn ddatblygiad gobeithiol o ran rhoi blaenoriaeth i Balchder Bangor gan weithredu o dan ymgyrch Caru Bangor.

c) Ategodd Cadeirydd yr Ymchwiliad bod angen sicrhau bod dyhead sylfaenol unrhyw gymuned yn hanfodol greiddiol i unrhyw weithrediad.

ch) Tra yn cydnabod bod tai aml ddeiliadaeth yn fater sydd angen parhau i gadw golwg arno ym Mangor, mynegwyd bodlonrwydd gan y Pwyllgor bod cryn ymdrech wedi ei wneud gan wasanaethau'r Cyngor i gydweithio gyda aelodau lleol a chynrychiolwyr o'r gymuned i hybu dealltwriaeth a chodi ymwybyddiaeth o bwerau'r Cyngor o ran rheoli tai o'r fath.

**Penderfynwyd gwneud cais am adroddiad cynnydd gan ganiatáu amser i gynnal trafodaethau gyda'r gymuned a rhoi cyfle i'r sefyllfa aeddfedu.**

## 10. BLAEN RAGLEN WAITH DRAFFT CRAFFU 2014 - 2015

a) Cyflwynwyd blaen raglen waith diwygiedig ac atgoffwyd yr aelodau y byddai cyfarfod paratoi yn cael ei gynnal ar y 6ed o Dachwedd.

**Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00am a daeth i ben am 1:10pm

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **CYMUNEDAU** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **2 Rhagfyr 2014** |
| **TEITL** | **Monitro a Gorfodaeth Safleoedd Carfanau** |
| **AWDUR** | **Aled Davies, Pennaeth Adran Rheoleiddio** |
| **AELOD CABINET** | **Cyng. John Wyn Williams** |
| | |
| **PWRPAS** | **I ddarparu'r cyd-destun ar gyfer y gwaith o fonitro a gorfodaeth ar safleoedd carafanau.** |

**1. CEFNDIR**

1.1 Cynhaliwyd cyfarfod paratoi'r Pwyllgor Craffu Cymuned ar y 6 Tachwedd 2014 ac ar gyfer y cyfarfod hwnnw, cyflwynwyd gwybod gefndirol i'r aelodau ar y gwaith o fonitro safleoedd carafanau o safbwynt y Gwasanaeth Cynllunio ac Amgylchedd yn bennaf.

1.2 Mae'r cwestiwn o sut mae'r Gwasanaeth Cynllunio'n monitro safleoedd carafanau wedi cael gryn dipyn o sylw dros y ddwy flynedd diwethaf, yn bennaf oherwydd ceisiadau cynllunio ar gyfer ymestyn y tymor gwyliau ar safleoedd carafanau sefydlog o 10 mis a hanner i 12 mis. Rhaid pwysleisio mae ceisiadau ar gyfer ymestyn y tymor gwyliau ar gyfer defnydd gwyliau'n unig oedd y ceisiadau yma, sef yn y bôn ceisiadau am 6 wythnos y flwyddyn yn ychwanegol ar gyfer defnydd gwyliau. Roedd unrhyw ganiatâd cynllunio ar gyfer y ceisiadau yma yn cynnwys amodau cynllunio oedd yn cyfyngu defnydd y carafanau i ddefnydd gwyliau'n unig, a'r angen i weithredwr / perchennog y safle gadw cofrestr o ddefnyddwyr y carafanau.

1.3 Er yr uchod, y pryder gan Aelodau oedd bod caniatáu'r ceisiadau yma yn mynd i arwain at bobl yn byw yn barhaol mewn carafanau, fydd o ganlyniad yn cael effaith negyddol ar gymunedau. Er bod amodau cynllunio'n rheoli defnydd y carafanau, roedd pryder ynglŷn â sut oedd y Gwasanaeth am fonitro a sicrhau bod yr amodau cynllunio'n cael eu gorfodi, pan fod angen gwneud hynny.

1.4 Yn sgil cyfarfod paratoi ar gyfer y Pwyllgor hwn ymddengys bod y prif faterion sydd yn cael eu codi gan Aelodau'n cadarnhau'r pryderon sydd eisoes wedi ei crybwyll. Mae'r rhain yn cynnwys pryderon ynglŷn â sut y bydd y Gwasanaeth, gan ystyried yr adnoddau prin o ran staff, yn sicrhau bod safleoedd yn cydymffurfio gyda'r caniatâd cynllunio a'r amodau perthnasol. Holir hefyd ynglŷn a sut y bydd y Gwasanaeth yn gorfodi mewn achosion perthnasol, a chodir cwestiynau ynglŷn â'r gwaith monitro safleoedd carafanau sydd yn cael ei wneud gan y Gwasanaeth Cynllunio ac Amgylchedd.

## 2. MONITRO A GORFODAETH AR SAFLEOEDD CARAFANAU

2.1 Gydag oddeutu 400 o safleoedd carafanau yng Ngwynedd yn cynnwys ardal y Parc, sydd gyda dros 14 mil (tua 11 mil yn ardal awdurdod cynllunio Gwynedd) o garafanau sefydlog a dros 5 mil o garafanau teithiol, rhaid cydnabod bod monitro a gorfodaeth ar safleoedd carafanau'n dasg enfawr.

2.2 Mae'r Aelodau'n hollol iawn i godi pryderon ynglŷn â'r diffyg adnoddau staff sydd o fewn y Gwasanaeth Cynllunio i fonitro pob un safle carafannau yn ardal awdurdod cynllunio Gwynedd. Y gwirionedd yw nad oes erioed adnoddau digonol wedi bodoli ar gyfer gwneud y dasg hon, gan gofio hefyd mae un elfen yn unig o waith yr Uned Gorfodaeth yw materion gorfodaeth sydd yn gysylltiedig â safleoedd carafanau.

2.3 Gan ystyried yr uchod mae'n rhaid cydnabod bod yna ddau fath o waith gorfodaeth sydd yn cynnwys gwaith gorfodaeth adweithiol a gwaith gorfodaeth rhagweithiol.

2.4 Mae gan y Gwasanaeth ddyletswydd i archwilio cwynion a dderbynnir sydd yn honni bod yna achos o dorri rheolau cynllunio. Felly, mewn achosion yn ymwneud a safleoedd carafannau, bydd y Gwasanaeth yn archwilio cwynion yn unol â'r trefniadau safonol a gofynion Polisi Gorfodaeth Cynllunio'r Cyngor. Os oes gan Aelodau neu'r cyhoedd bryderon am safle penodol, dylid cysylltu gyda'r Gwasanaeth Cynllunio.

2.5 O safbwynt gwaith gorfodaeth cynllunio rhagweithiol, nid oes unrhyw ddyletswydd ar y Gwasanaeth i ymgymryd â'r math yma o waith. Er hyn, ystyrir bod gwaith o'r fath yn ymarfer da ac felly fel Gwasanaeth, rydym dros y blynyddoedd wedi bod yn ymgymryd â gwaith monitro rhagweithiol. Mae manteision gyda gwaith rhagweithiol o'i gymharu gyda gwaith adweithiol gan ei fod yn cyfrannu at wireddu blaenoriaethau'r Cyngor ac yn hwyluso trefniadau gwaith yn gyffredinol. O safbwynt safleoedd carafanau, gall monitro rhagweithiol sefydlu perthynas waith gadarnhaol gyda pherchnogion / gweithredwyr safle, fydd yn ymwybodol fod monitro yn digwydd yn rheolaidd ac felly'n deall yr angen i gydymffurfio gyda rheolau cynllunio.

2.6 Ers cychwyn 2014 mae'r Cyngor wedi cymeradwyo Strategaeth Gorfodaeth sydd wedi sefydlu fframwaith ar gyfer gwaith rhagweithiol ac adweithiol Uned Gorfodaeth y Gwasanaeth. Drwy hyn, mae gennym nawr fframwaith ffurfiol ar gyfer gweithredu'r gwaith rhagweithiol, gydag un o'r tasgau sydd wedi ei adnabod yn cynnwys cynnal gwaith monitro ar 20 o safleoedd carafanau yn flynyddol.

2.7 Yn sgil y pryderon gwreiddiol gan Aelodau sydd wedi ei gadarnhau yng nghyfarfod paratoi ar gyfer y Pwyllgor hwn, mae'r gwaith monitro safleoedd carafanau ar gyfer eleni wedi canolbwyntio'n bennaf ar fonitro safleoedd carafanau sydd wedi cael caniatâd cynllunio i weithredu tymor gwyliau o 12 mis.

2.8 Rhaid pwysleisio mae amcan y gwaith monitro yw monitro cydymffurfiaeth gyda'r caniatâd cynllunio a'r holl amodau cynllunio perthnasol. Felly, nid yw'r gwaith yma wedi ei gyfyngu'n unig i fonitro cydymffurfiaeth gyda'r amod sydd yn cyfyngu defnydd y carafannau i ddefnydd gwyliau a'r angen i gadw cofrestr.

2.9 Rhaid pwysleisio mae pwerau i'w defnyddio gyda disgresiwn yw pwerau gorfodaeth cynllunio'r Cyngor. Yn y lle cyntaf cyn ystyried unrhyw fath o gamau gorfodaeth ffurfiol, mae'n rhaid cael tystiolaeth gadarn fod yna dorri rheolaeth cynllunio wedi digwydd. Mae yna ddiffiniad cyfreithiol o beth yw carafán ac mae yna hefyd hawliau i ddefnyddio tir fel maes carafanau, neu i osod carafán, heb fod angen cyflwyno cais am ganiatâd cynllunio. Ar adegau, mae hawliau o'r fath a'r ffaith mae defnydd o dir sydd gennym, yn gallu ei gwneud hi'n anodd cael tystiolaeth gadarn i brofi bod yna dorri rheolaeth neu beidio. Mewn achosion o'r fath gall hyn olygu'r angen i ail ymweld â safleoedd a'r defnydd o rybuddion ffurfiol er mwyn hel tystiolaeth.

2.10 Os oes tystiolaeth o dorri rheolaeth cynllunio, mae'r penderfyniad i gymryd camau gorfodaeth neu beidio yn cael ei wneud yng nghyd-destun gofynion Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd, Polisi Gorfodaeth Cynllunio Gwynedd a Pholisïau a Chanllawiau Cynllunio cenedlaethol, i ystyried os yw camau gorfodaeth er budd y cyhoedd.

2.11 Yn hanesyddol rhaid nodi bod achosion gorfodaeth sydd yn ymwneud a rhywun yn byw mewn carafán, wedi bod mewn perthynas â charafanau unigol yn cael eu gosod ar dir, yn hytrach na charafanau sydd o fewn safleoedd carafannau.

**3. Y GWAITH MONITRO RHAGWEITHIOL 2014/15**

3.1 Hyd at 1 Hydref 2014, mae 13 safle wedi cael caniatâd cynllunio ar gyfer defnydd gwyliau 12 mis. Mae 4 o'r safleoedd hyn wedi eu lleoli o fewn ardal Arfon, â'r gweddill o fewn ardal Dwyfor. Mae rhan fwyaf o'r safleoedd wedi derbyn caniatâd cynllunio ar gyfer defnydd gwyliau 12 mis o fewn y ddwy flynedd diwethaf. Er bod 13 safle wedi derbyn caniatâd cynllunio ar gyfer defnydd 12 mis, ond 5 safle sydd wedi gweithredu'r caniatâd hwnnw hyd yn hyn.

3.2 Roedd y rhesymau a roddwyd gan weithredwyr rhai'r o'r safleoedd am beidio gweithredu'r defnydd gwyliau 12 mis yn cynnwys:-

- *Bod mwyafrif o'r safleoedd angen cau am gyfnod dros y Gaeaf er galluogi ymgymryd â gwaith cynnal a chadw;*

- *Nad oedd perchnogion y safleoedd carafanau mawr yn bwriadu gweithredu'r caniatâd cynllunio ar hyn o bryd, ond bod opsiwn yn bodoli iddynt wneud hynny yn y dyfodol os dymunir.*

3.3 O safbwynt y safleoedd sydd eisoes yn gweithredu'r caniatáu 12 mis, credir bod tystiolaeth dderbyniol yn bodoli ar y cyfan i ddangos eu bod yn cydymffurfio gyda gofynion yr amodau cynllunio. Bwriedir ymweld â'r safleoedd yma eto yn ystod Ionawr / Chwefror 2015 sef y cyfnod 6 wythnos y buasent wedi bod ar gau cyn derbyn caniatâd am dymor 12 mis.

3.4 Yn ddarostyngedig i argaeledd adnoddau staff priodol, y bwriad yw parhau i flaenoriaethu'r safleoedd hyn yn ystod y blynyddoedd nesaf oherwydd manteision ehangach y gwaith rhagweithiol yma. Rhaid pwysleisio y bydd parhau'r gwaith monitro rhagweithiol i'r dyfodol yn gwbl ddibynnol ar adnoddau staff digonol.

## 4. SEFYDLU GWAELODLIN

4.1 Mae'r Gwasanaeth Cynllunio ac Amgylchedd wedi bod yn cydweithio'n agos gyda Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor ac mae trafodaethau hefyd wedi bod gyda Swyddogion Cynllunio'r Parc. Mae'r trafodaethau wedi yn bennaf wedi bod ynglŷn â gwaith o sefydlu gwaelodlin ar gyfer adnabod y sefyllfa gynllunio a thrwyddedu cyfredol ar safleoedd carafannau Gwynedd.

4.2 Mae'r dyletswyddau cynllunio ar gyfer Cyngor Gwynedd wrth gwrs wedi ei rhannu, gyda'r Parc Cenedlaethol gyda'r dyletswyddau cynllunio'n ardal y Parc. O safbwynt dyletswyddau trwyddedu mae Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd gyda'r cyfrifoldeb ar gyfer Gwynedd gyfan.

4.3 Credir fod angen i unrhyw waith o sefydlu gwaelodlin fod yn ymarferol ac yn addas i'r pwrpas gan ystyried yr adnoddau staff prin sydd gennym ar gyfer cyflawni'r gwaith yma. Gan ystyried hyn, y bwriad yw y bydd y Gwasanaeth Cynllunio ac Amgylchedd yn gwneud gwaith "desk-top" er mwyn dod a'r holl wybodaeth o ran safleoedd carafannau yn ardal awdurdod cynllunio Gwynedd at ei gilydd, er mwyn hwyluso'r broses o ymateb i gwynion gorfodaeth a gwaith monitro rhagweithiol. Mae'r Parc eisoes yn gwneud gwaith tebyg ar y safleoedd yn y Parc yn dilyn trafodaethau diweddar. Bydd hyn wedyn yn waelodlin nid yn unig ar gyfer cynllunio ond hefyd ar gyfer trwyddedu, gan y bydd yn hwyluso'r broses o wirio trwyddedau yn erbyn y caniatâd cynllunio perthnasol. Yn y pen draw, ystyrir y bydd y gwaith os sefydlu'r waelodlin yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at gynllunio a blaenoriaethu y gwaith monitro rhagweithiol i'r dyfodol. Ar gyfer ardal awdurdod cynllunio Gwynedd, bwriedir gwneud y gwaith yma o safbwynt cynllunio o fewn 18 mis, yn ddibynnol ar adnoddau staff.

## 5. GWAITH PELLACH

5.1 Mae'n fwriad gan y Gwasanaeth Cynllunio ac Amgylchedd a'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd sefydlu trefniadau mwy ffurfiol ar gyfer delio gyda materion ar safleoedd carafanau gan weithredu ar y cyd pan yn briodol.

5.2 Ymhellach i hyn mae'r Gwasanaeth Cynllunio ac Amgylchedd hefyd wedi bod mewn trafodaethau gydag Adran Gyllid y Cyngor o safbwynt gwybodaeth am garafanau sydd wedi ei trethu fel llety byw parhaol. Bwriad y Gwasanaeth fydd archwilio'r wybodaeth yma dros y misoedd nesaf er mwyn gweld os oes yna achosion o dorri rheolaeth cynllunio. Rhaid cofio bod achosion lle mae caniatâd i reolwr / warden fyw mewn carafán ar safle yn ogystal ag achosion lle mae yna dystysgrif defnydd cyfreithiol ar gyfer defnydd preswyl. Felly, nid yw'r ffaith fod carafán wedi ei drethu ar gyfer defnydd preswyl yn angenrheidiol yn golygu fod yna achos o dorri rheolau cynllunio.

## 6. CASGLIADAU

6.1 Gyda'r gwaith gorfodaeth adweithiol, y gwaith monitro rhagweithiol sydd yn cynnwys monitro safleoedd gyda thymor gwyliau 12 mis, y gwaith sefydlu gwaelodlin a'r gwaith pellach, credir bod hyn yn briodol a chymesur i'r hyn sydd yn angenrheidiol ar gyfer y gwaith yn y maes penodol yma. Rhaid cadw mewn cof hefyd y toriadau sydd

ar y gweill ac felly mae posibilrwydd na fydd modd gwarantu cynnal y gwaith monitro rhagweithiol i'r dyfodol.

| ENW’R PWYLLGOR CRAFFU | CYMUNEDAU |
|---|---|
| DYDDIAD Y CYFARFOD | 2 Rhagfyr, 2014 |
| TEITL | Dyfodol Cludiant Cyhoeddus yng Ngwynedd |
| AWDUR | Aled Davies, Pennaeth Adran Rheoleiddio |
| AELOD CABINET | Cyng. W Gareth Roberts |
| | |
| PWRPAS | Craffu a mynegi barn am effaith posib ar drigolion Gwynedd o weithredu'r newidiadau ar sail canlyniadau'r matrics |

**CEFNDIR**

1. Mae'r Uned Cludiant Integredig yn delio gyda holl faterion yn ymwneud a chludo pobl yng Ngwynedd, boed hynny yn Gludiant Cyhoeddus, Addysg (Statudol) bysus a thacsis, Cludiant Cymunedol a Cludiant ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol.

2. Mae'r Uned wedi galluogi unioni trefniadau pwrcasu, a phecynnu tendrau i sicrhau gwerth am arian o’r gwasanaethau sydd yn cael eu prynu. O ganlyniad, mae dyblygu gwaith o fewn y Cyngor wedi ac yn lleihau ynghyd a’r ymdrech sydd raid ei fuddsoddi gan wahanol Adrannau.

3. Dros y blynyddoedd diwethaf mae rhaglen heriol o ail dendro holl wasanaethau Cludiant Cyhoeddus ac Addysg wedi eu cwblhau fel a ganlyn:

   - Meirionnydd- Hydref 2012- Arbediad o £186,000 Cyhoeddus ac arbediad o £229,000 Addysg
   - Dwyfor- Ebrill 2013- Arbediad o £48,000 Cyhoeddus a £361,000 Addysg
   - Arfon- Ionawr 2014- Cynnydd £194,000 Cyhoeddus, ac arbediad o £306,000 Addysg

4. O ganlyniad i’r broses ail-dendro ynghyd a man newidiadau eraill, mae'r darlun o ran y cyllid ar gael a gwariant ar drafnidiaeth fel a ganlyn:

**Cyllideb:**

| **Blwyddyn Ariannol** | **Cludiant Cyhoeddus** | **Cludiant Addysg** | **Tacsis Ysgolion** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| **2008-09** | **£2,202,930** | **£2,527,640** | **£1,986,500** | **£6,717,070** |
| **2009-10** | **£2,271,260** | **£2,859,700** | **£2,159,560** | **£7,290,520** |
| **2010-11** | **£2,137,330** | **£2,817,610** | **£1,749,760** | **£6,704,700** |
| **2011-12** | **£2,165,770** | **£3,001,000** | **£1,630,743** | **£6,797,513** |
| **2012-13** | **£1,896,950** | **£2,908,660** | **£1,673,410** | **£6,479,020** |
| **2013-14** | **£1,945,410** | **£2,798,950** | **£1,866,960** | **£6,611,320** |
| **2014-15** | **£1,921,110** | **£2,590,240** | **£1,781,880** | **£6,293,230** |

**Gwariant:**

| **Blwyddyn Ariannol** | **Cludiant Cyhoeddus** | **Cludiant Addysg** | **Tacsis Ysgolion** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| **2008-09** | **£2,358,489** | **£2,672,707** | **£1,951,944** | **£6,983,140** |
| **2009-10** | **£2,168,220** | **£2,715,485** | **£1,838,142** | **£6,721,847** |
| **2010-11** | **£2,119,057** | **£2,855,373** | **£1,762,210** | **£6,736,640** |
| **2011-12** | **£2,061,461** | **£3,035,708** | **£1,671,606** | **£6,768,775** |
| **2012-13** | **£1,642,405** | **£2,980,059** | **£1,709,094** | **£6,331,558** |
| **2013-14** | **£2,059,572** | **£2,769,058** | **£1,743,521** | **£6,572,151** |
| **2014-15** | **£2,475,476** | **£2,611,214** | **£1,809,880** | **£6,896,570** |

**cynnydd cyllideb a chostau Traws Cymru*

5. Gellir gweld o'r tablau uchod bod arbedion sylweddol wedi eu canfod, ond yn ogystal mae gostyngiad hefyd wedi bod yn y cyllidebau ar gael. Mae dau brif reswm mewn gostyngiad cyllidebau sef:

   - Arian yn mynd tuag at Arbedion Cyngor Gwynedd
   - Toriad mewn grantiau gan y Llywodraeth

6. Yn ogystal yn ystod mis Mawrth eleni bu raid i gwmni bws lleol, Bws Padarn, orfod cau am resymau ariannol. Yr oedd Bws Padarn yn cyflawni nifer o gontractau ar ran y Cyngor yn ogystal â darparu gwasanaethau masnachol ar ddim cost o gwbl ee Caernarfon i Lanberis a Bangor i Lanberis.

7. Roedd y gost ychwanegol o baratoi gwasanaethau yn sgil sefyllfa Bws Padarn oddeutu £430,000 y flwyddyn. Mae gwaith a ymgymerwyd gan yr Adran erbyn hyn wedi galluogi'r Cyngor i sicrhau gostyngiad yn y ffigwr yma lawr i £120,570.

**<u>Y Bwlch Ariannol</u>**

8. Mae'r bwlch ariannol yn y gyllideb cludiant eleni yn sylweddol. Mae yn cynnwys:

   £224k o effaith lleihad BSSG [Bus Services Support Grant]
   £194k o gynnydd yn deillio o gostau ail dendro
   £121k o gostau ychwanegol yn sgil sefyllfa Bws Padran (gan gynnwys Addysg)
   (£39k) – arbedion mewn amrywiol deithiau eraill

   Cyfanswm o £500k o ddiffyg o ran cyllideb cludiant cyhoeddus. Nid oes arian parhaol wedi ei glustnodi i lenwi'r bwlch ond mae adnoddau wedi eu neilltuo i bonito y bwlch yn rhannol hyd nes y bydd penderfyniad ar ddyfodol darpariaeth cludiant wedi ei gymeryd.

9. Mae yn glir o'r tablau yn rhan 4 bod y bwlch yn y cyllidebau ar gyfer cludiant yn ehangach yn uwch na hyn ac yn cyrraedd cyfanswm o £604k. Y rhesymau am hyn yw bod Cludiant Addysg gyda bwlch o £76k a Thacsis Ysgolion gyda bwlch o £28k.

**Risgiau Pellach**

10. Mae yn debygol y bydd gostyngiad blynyddol yn y grant gan y Llywodraeth ar gyfer cefnogi gwasanaethau cludiant, ac ynghyd a hyn, mae yn debygol y bydd y taliadau mae cwmnïau bysus yn eu cael am gludo'r sawl gyda thocynnau teithio yn cael ei ostwng gan y Llywodraeth. Yn ogystal, mae'r cymhorthdal ar gyfer gweinyddu tocynnau teithio rhad hefyd yn debygol o gael ei leihau.

11. Mae risgiau o gwmnïau eraill yn cau eu busnesau a gall hynny gynyddu costau darparu gwasanaethau.

12. Mae yn rhesymol disgwyl i bris tanwydd gynyddu yn ystod y blynyddoedd nesaf, ynghyd a chostau cyflog.

13. O ni bai fod ffynhonnell gyllidol arall yn amlygu ei hun gallai cyfuniad o'r materion uchod arwain at rywfaint o'r gwasanaethau masnachol sydd yn cael eu rhedeg yn y Sir yn bresenoli beidio â bod yn hyfyw. Hefyd, gallai arwain at gwmnïau bysus yn dod a'u cytundebau gyda'r Cyngor i ben gan fod y sybsidi yn annigonol i gynnal y gwasanaeth. Gallwn ddisgwyl felly i gostau fod yn cynyddu yn raddol dros y blynyddoedd nesaf ond cyllid i gynnal gwasanaethau yn gostwng.

**Rhesymoli'r Gwasanaethau**

14. Mae Cludiant Addysg yn gludiant statudol, ac felly, mae yn rhaid i'r Cyngor eu darparu.

15. O ran Cludiant Cyhoeddus, nid yw rhain yn statudol, felly dewis y Cyngor ydi eu darparu neu pheidio. Gyda gorwariant yn y gyllideb Cludiant Cyhoeddus oddeutu £604k y flwyddyn a gwerth £50 miliwn o doriadau i'w canfod, mae dewisiadau anodd i'w gwneud gan y Cyngor.

16. Rhaid edrych ar holl wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor wrth wneud y dewisiadau anodd yma ac nid yw Cludiant yn cael ei eithrio o'r broses o asesu opsiynau.

17. Mae yn rhaid felly edrych ar ffyrdd o resymoli gwasanaethau cludiant cyhoeddus i gwrdd a'r bwlch ariannol. Mae'r matrics cludiant wedi ei drafod eisoes gan y Pwyllgor Paratoi a Craffu pan lle benderfynwyd bod y matrics gyda man addasiadau yn arf priodol i'w ddefnyddio i flaenoriaethu darpariaeth gwasanaeth.

18. Trafodwyd y matrics ymhellach gyda Gweithgor o Gabinet y Cyngor. Barn y Gweithgor oedd na ddylai agweddau costau y pen gael yr un pwysau ac agweddau eraill wrth ystyried blaenoriaethu siwrnaeau ond yn hytrach y dylid canolbwyntio ar y gwasanaeth sydd yn cael ei ddarparu ac ar beth fyddai yn effaith o'i dorri ar drigolion Gwynedd.

19. Barn y Gweithgor yw y dylid bod yn blaenoriaethau darparu cludiant cyhoeddus yn y mannau lle mae yna angen )hynny yw, nid oes ganddynt gludiant fel arall) er mwyn medru cael mynediad i'r canlynol:

- Canolfannau Gwasanaethau Cyhoeddus
    - Addysg
    - Iechyd
    - Llyfrgelloedd
- Canolfannau Gwaith
- Canolfannau Cymdeithasol
- Cysylltiadau a Phrif Wythiennau Trafnidiaeth
- Canolfannau Siopa

20. Fe ail ddyluniwyd y matrics yn sgil hyn ac mae bellach yn canolbwyntio ar yr elfennau canlynol yn unig sef:

    - Ardal yn cael ei wasanaethu (ee tref i pentref ayyb)
    - Nifer o deithwyr
    - Oes dewis arall? (ee Bws llai aml, cludiant cymunedol ayyb)
    - Math o wasanaeth (ee teithiau i waith, gyda'r nos, Ddydd Sul ayyb)
    - Cyfleusterau ar y llwybr (ee Meddygfa, Ysgol ayyb)

21. Mae manylder sy'n gorwedd y tu ol i'r elfennau uchod wedi ei gynnwys fel Atodiad 1.

22. Mae'r matrics newydd, yn cynnwys manylion sgôr am pob agwedd wedi ei amgáu fel Atodiad 2

23. Mae pob siwrne sydd yn cael cefnogaeth/sybsidi ariannol gan y Cyngor wedi ei asesu a'i sgorio yng nghyd-destun y matrics. Fel rhan o'r broses yma rhoddwyd sylw manwl i effaith dileu llwybrau neu leihau amlder siwrneai ar gymunedau'r Sir. Roedd hyn yn cynnwys effaith y siwrneai unigol ac effaith gyfunol newid y siwrneiau mewn ardal benodol.

**<u>Ystyried Canlyniadau'r Matrics</u>**

24. Cyflwynir canlyniadau'r matrics ar sail y wybodaeth gyfredol am bob llwybr a siwrnai unigol. Ond, dylid nodi bod y matrics yn ddogfen fyw ac y bydd unrhyw wybodaeth newydd a dderbynnir yn cael ei fwydo i'r matrics ac fe roi'r sylw i unrhyw ddylanwad y caiff hyn ar y canlyniadau.

25. Law yn llaw gyda hyn, mae'r Uned Cludiant yn ymwybodol bod gwybodaeth am rhai siwrneai yn fwy cadarn nag am lwybrau/siwrneai eraill. Mae hyn rhan amlaf yn ymwneud a siwrneai lle mae amgylchiadau wedi newid yn ddiweddar e.e. ail dendro neu newid o fod yn siwrne/llwybr masnachol i siwrne/llwybr sydd yn derbyn sybsidi. Mae gwybodaeth am y rhai sydd wedi bod yn sefydlog am dyweder dros 12 mis, yn fwy cadarn na siwrneai sydd wedi newid o fewn y 6 mis diwethaf. Mae'r Uned yn gwneud pob ymdrech i lenwi'r ychydig fylchau gwybodaeth sydd yn bodoli a bydd hyn yn cael ei fwydo i mewn i'r matrics cyn y bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud.

26. Yn ogystal, ar gais y Cabinet, mae gwaith pellach yn cael ei ymgymeryd i ganfod barn teithwyr ar siwrneai sydd o dan fygythiad ac i gael gwybodaeth ynglŷn â pham maent yn defnyddio gwasanaethau cludiant. Ymgymerwyd â gwaith tebyg tua 2 flynedd yn ôl a'r bwriad yw ategu'r wybodaeth hwnnw ar sail sampl. Eto, bydd y wybodaeth berthnasol sy'n codi o'r gwaith yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'r cyd-destun ar gyfer gwneud penderfyniad terfynol ar ddyfodol gwasanaethau cludiant.

27. Cyflwynir yr adroddiad hwn sydd yn gosod y cyd-destun ac yn cyflwyno canlyniadau'r matrics i'r Pwyllgor Craffu er gwybodaeth ac i ganfod barn ynglŷn a'r canlyniadau yn eu cyfanrwydd. Er bod y Pwyllgor wedi craffu a chefnogi cynnwys a defnydd o'r matrics yn y gorffennol, gofynnir i'r Pwyllgor edrych eto ar yr egwyddorion a blaenoriaethau sylfaenol a ddefnyddir.

28. Yn fwy na dim, gofynnir i'r Pwyllgor graffu a mynegi barn am yr effaith posib ar drigolion Gwynedd o weithredu newidiadau ar sail canlyniadau'r matrics.

29. Bydd barn y Pwyllgor yn cael ei gyflwyno fel rhan o'r adroddiad i Gabinet y Cyngor ar gyfer gwneud penderfyniad terfynol.

# Tabl Pwyslais

| 1 | | | |
|---|---|---|---|
| Ardal | | Pwyslais | Sgôr |
| 1 | Canolfan Rhanbarthol i Ganolfan Rhanbarthol | 60% | 9.00 |
| 2 | Canolfan Rhanbarthol i Ganolfan drefol | 55% | 8.25 |
| 3 | Canolfan Rhanbarthol i Bentref | 50% | 7.50 |
| 4 | Canolfan Trefol i Ganolfan Drefol | 50% | 7.50 |
| 5 | Canolfan Trefol i Bentref | 45% | 6.75 |
| 6 | Pentref i Bentref | 40% | 6.00 |
| 1a | Taith Strategol | 10% | 1.50 |
| 2a | Ardal Ddifreintiedig | 20% | 3.00 |
| 3a | Llwybr Ymelwyr | 10% | 1.50 |
| | | | 15 |

| 2 | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfaint | - nifer o deithwyr | Pwyslais | Sgôr |
| 1 | Mwy na 40 | 100.00% | 15.00 |
| 2 | 30 i 40 | 75.00% | 11.25 |
| 3 | 20 i 30 | 55.00% | 8.25 |
| 4 | 10 i 20 | 40.00% | 6.00 |
| 5 | 5 i 10 | 25.00% | 3.75 |
| 6 | 2 i 5 | 15.00% | 2.25 |
| 7 | Llai Na 2 | 10.00% | 1.50 |
| | | | 15 |

| 3 | | | |
|---|---|---|---|
| Dewis arall? | | Pwyslais | Sgôr |
| 1 | dim | 100.00% | 15.00 |
| 2 | Diwrnodol | 50.00% | 7.50 |
| 3 | Y Dydd | 40.00% | 6.00 |
| 4 | Dwywaith y Diwrnod | 30.00% | 4.50 |
| 5 | Bob 2 Awr | 20.00% | 3.00 |
| 6 | Bob Awr | 10.00% | 1.50 |
| | | | 15 |
| | | | |

| 4 | | | |
|---|---|---|---|
| Math o wasanaeth | | Pwyslais | Sgôr |
| 1 | Llun i Gwe Amser Brîg | 30.00% | 4.50 |
| 2 | Llun i Gwe Amser Tawel yn Ystod y Dydd | 20.00% | 3.00 |
| 3 | Yn Ystod Dydd Sadwrn | 20.00% | 3.00 |
| 4 | Gwasanaeth Nosweithiau Llun i Sad | 15.00% | 2.25 |
| 5 | Gwasanaeth Dydd Sul | 15.00% | 2.25 |
| | | | 15 |
| | | | |

| 5 | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfleusterau | | Pwyslais | Sgôr |
| 1 | Canolfan Meddygol | 20.00% | 3.00 |
| 2 | Ysbyty | 30.00% | 4.50 |
| 3 | Canolfan Hamdden | 5.00% | 0.75 |
| 4 | Ysgol gynradd | 10.00% | 1.50 |
| 5 | Ysgol Uwchradd | 10.00% | 1.50 |
| 6 | Coleg | 25.00% | 3.75 |
| | | | 15 |

# Sgôr

**C1** **Arbedion i gyfarch £224k neu £488k****

| Ranking | Rhif Gwasanaeth (0) | Trywydd y gwasanaeth | Cost Blynyddol | Cwmni | Ardal (1) | Nifer o Deithwyr (2) | Dewis Arall (3) | Math o wasanaeth (4) | Cyfleusterau (5) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 83S | Caernarfon - Deiniolen (Suliau a Gwyliau Cyhoeddus) | 19,000.00 | Express Motors | 6.75 | 2.25 | 1.50 | 2.25 | 0.75 |
| 2 | 82 | Caernarfon - Bethel (Dydd Llun i Dydd Sadwrn) | 15,000.00 | Express Motors | 6.75 | 1.50 | 1.50 | 6.00 | 0.75 |
| 3 | 85S | Bangor - Deiniolen - Llanberis (Suliau a Gwyliau Cyhoeddus) | 19,000.00 | Arriva | 9.00 | 3.75 | 1.50 | 2.25 | 0.00 |
| 4 | 99A | Croesor i Porthmadog (gwasanaeth ar alw - Mawrth a Gwener yn unig) | 3,000.00 | Cen ap Tomos | 6.75 | 1.50 | 3.00 | 3.00 | 3.00 |
| 5 | 99B | Rhyd i Porthmadog (Gwasanaeth ar alw - Llun a Iau yn unig) | 300.00 | Cen ap Tomos | 6.75 | 1.50 | 3.00 | 3.00 | 3.00 |
| 6 | 2S | Barmouth - Bangor (Suliau a Gwyliau Cyhoeddus) | 31,000.00 | Express Motors | 8.25 | 3.75 | 3.00 | 2.25 | 0.00 |
| 7 | 1FE | Caernarfon - Rhosgadfan - Fron - Penygroes (Gyda'r nos - 1820, 1840, 2125 a 2150) | 29,000.00 | Express Motors | 6.75 | 2.25 | 6.00 | 2.25 | 0.00 |
| 8 | 1NE | Caernarfon - Talysarn - Nantlle (Gyda'r nos - 1915, 1945, 2015, 2035, 2215 a 2235) | 34,000.00 | Express Motors | 6.75 | 2.25 | 6.00 | 2.25 | 0.00 |
| 9 | 3E | Porthmadog - Pwllheli (Siwrneiau Pwllheli: 1745, 1825, 1945, 2040, 2135 a 2220) | 39,000.00 | Arriva Buses Wales | 10.50 | 3.75 | 1.50 | 2.25 | 0.75 |
| 10 | 92 | Clipa Caernarfon (Doc Fictoria / Cae Gwyn) (Dydd Llun i Ddydd Sadwrn) | 20,000.00 | Express Motors | 7.50 | 1.50 | 1.50 | 6.00 | 3.00 |
| 11 | 14 | Clynnog - Trefor - Pencaenewydd - Pwllheli (Dydd Llun i Dydd Gwener) | 44,000.00 | Berwyn Coaches | 6.75 | 1.50 | 1.50 | 4.50 | 6.00 |
| 12 | 72/72A | Bangor - Felinheli - Bethel (Dydd Llun i Dydd Sadwrn) | 59,000.00 | Express Motors | 7.50 | 3.75 | 1.50 | 6.00 | 1.50 |
| 13 | 5E | Caernarfon - Bangor( Gyda'r nos - 11 siwrne rhwng 1910 a 2315) | 26,000.00 | Arriva Buses | 9.75 | 2.25 | 6.00 | 2.25 | 0.00 |
| 14 | T2E | Garndolbenmaen - Dolgellau (Gyda'r nos - 1815 yn unig) | 26,000.00 | Express Motors | 8.25 | 2.25 | 7.50 | 2.25 | 0.75 |
| 15 | 12E | Caernarfon - Trefor - Pwllheli (Llun - Sadwrn - siwrneiau rhwng 1800 a 2300) (Dydd Llun i Dydd Sadwrn) | 45,000.00 | Berwyn Coaches | 10.50 | 2.25 | 6.00 | 2.25 | 0.75 |
| 16 | 1E | Caernarfon - Porthmadog (Gyda'r nos - 1940, 2036 a 2230) | 28,000.00 | Express Motors | 9.00 | 2.25 | 7.50 | 2.25 | 0.75 |
| 17 | 78 | Bangor - Maesgierchen (Gyda'r nos - 5 siwrne rhwng 1855 a 2315) | 9,000.00 | Arriva Buses | 11.25 | 2.25 | 6.00 | 2.25 | 0.75 |
| 18 | 67E | Bangor - Tregarth - Bethesda - Gerlan (Gyda'r nos - 2035, 2105, 2200, 2230, 2245 a 2325) (Dydd Llun i Dydd Sadwrn) | 36,000.00 | Arriva Buses | 12.75 | 3.75 | 6.00 | 2.25 | 0.00 |
| 19 | 3S | Porthmadog - Pwllheli (Suliau a Gwyliau Cyhoeddus) | 19,000.00 | Arriva Buses Wales | 10.50 | 6.00 | 6.00 | 2.25 | 0.00 |
| 20 | 1NS | Caernarfon - Talysarn - Nantlle (Suliau a Gwyliau Cyhoeddus) | 19,000.00 | Express Motors | 6.75 | 2.25 | 15.00 | 2.25 | 0.00 |
| 21 | 8ABS | Dinas - Rhydyclafdy - Pwllheli (Dydd Sadwrn yn unig) | 7,000.00 | Nefyn Coaches | 6.75 | 1.50 | 15.00 | 3.00 | 0.75 |
| 22 | S97S | Porthmadog - Beddgelert - Pen y Pass (Suliau a Gwyliau Cyhoeddus) | 17,000.00 | Arriva Buses Wales | 8.25 | 2.25 | 15.00 | 2.25 | 0.75 |
| 23 | 1A | Penygroes - Nasareth - Nebo - Llanllyfni (Dydd Llun i Dydd Sadwrn) | 23,000.00 | Express Motors | 6.00 | 1.50 | 15.00 | 6.00 | 0.00 |
| 24 | 75 | Maesgeirchen - Bangor (Llun i Gwener) | 5,000.00 | Arriva | 11.25 | 6.00 | 1.50 | 4.50 | 6.00 |
| 25 | 34 | Aberllefenni - Machynlleth (Dydd Llun i Dydd Sadwrn) | 28,000.00 | Lloyds | 6.75 | 2.25 | 6.00 | 7.50 | 6.75 |
| 26 | 69 | Bala - Parc - Lon (ar alw - Dydd Iau yn unig - dwy siwrne - 1005 a 1220) | 1,100.00 | Global Taxis | 6.75 | 1.50 | 15.00 | 3.00 | 3.75 |
| 27 | 70 | Bala - Llidiardau - Rhyduchaf (Ar Alw - Dydd Llun a Dydd Iau yn unig - 3 siwrne 0900, 1235 (Llun yn unig) a 1440) | 3,300.00 | Global Taxis | 6.75 | 1.50 | 15.00 | 3.00 | 3.75 |
| 28 | 8S / 18S | Nefyn - Tudweiliog / Abersoch - Pwllheli (Suliau a Gwyliau Cyhoeddus) | 13,000.00 | Nefyn Coaches | 9.75 | 2.25 | 15.00 | 2.25 | 0.75 |
| 29 | 8AB | Dinas - Rhydyclafdy - Pwllheli (Dydd Llun i Dydd Gwener) | 65,000.00 | Nefyn Coaches | 6.75 | 1.50 | 15.00 | 3.00 | 5.25 |
| 30 | 1BE | Porthmadog - Blaenau Ffestiniog (Gyda'r nos - 8 siwrne rhwng 1735 a 2300) | 35,000.00 | Express Motors | 12.00 | 2.25 | 15.00 | 2.25 | 0.00 |
| 31 | 12S | Caernarfon - Pwllheli (Suliau a Gwyliau Cyhoeddus) | 14,000.00 | Berwyn Coaches | 10.50 | 3.75 | 15.00 | 2.25 | 0.75 |
| 32 | 83 | Caernarfon - Deiniolen - Dinorwig (Dydd Llun i Dydd Sadwrn) | 135,000.00 | Express Motors | 6.75 | 3.75 | 15.00 | 6.00 | 0.75 |
| 33 | 78 | Bangor - Maesgeirchen (Suliau a Gwyliau Cyhoeddus) | 9,000.00 | Arriva | 11.25 | 3.75 | 15.00 | 2.25 | 0.75 |
| 34 | 35 | Dolgellau - Bl. Ffestiniog (Dwy siwrne dwy-ffordd yn ystod y dydd - 0900, 1000, 12:0 a 1330) (Dydd Llun i Dydd Sadwrn) | 31,000.00 | Express Motors | 13.50 | 3.90 | 6.00 | 6.00 | 3.75 |
| 35 | 1S | Caernarfon - Bl. Ffestiniog (Suliau a Gwyliau Cyhoeddus) | 12,000.00 | John's | 12.00 | 3.75 | 15.00 | 2.25 | 0.75 |
| 36 | 85 | Bangor - Deiniolen - Llanberis (Llun i Sadwrn) | 130,000.00 | Express Motors | 9.00 | 6.00 | 1.50 | 7.50 | 10.50 |
| 37 | 30 | Tywyn - Minffordd - Dolgellau (Dydd Llun i Dydd Sadwrn) | 25,000.00 | Lloyds | 7.50 | 3.75 | 15.00 | 4.50 | 3.75 |
| 38 | S4 | Waunfawr - Beddgelert - Pen-y-Pass (Dydd Llun i Dydd Sadwrn) | 152,300.00 | Express Motors | 7.50 | 3.75 | 15.00 | 7.50 | 1.50 |
| 39 | 29DR | Tywyn - Llanegryn (Ar-alw / ar-gais - ymestyn y gwasanaeth ymlaen i Llanegryn ar gais i'r gyrrwr) | 4,000.00 | Lloyds | 9.00 | 1.50 | 15.00 | 2.25 | 7.50 |
| 40 | 91 | Caernarfon - Dinas Dinlle (Dydd Llun i Dydd Sadwrn) | 50,000.00 | Express Motors | 8.25 | 2.25 | 15.00 | 7.50 | 2.25 |
| 41 | 43/46/47 | Bangor - Llanfairpwll / Llangefni (Dydd Llun i Ddydd Sadwrn) | 23,107.92 | Eifion's | 10.50 | 3.75 | 1.50 | 12.75 | 8.25 |
| 42 | 67S | Bangor - Tregarth - Bethesda - Gerlan (Suliau a Gwyliau Cyhoeddus) | 6,000.00 | Arriva | 12.75 | 6.00 | 15.00 | 2.25 | 0.75 |
| 43 | 37 | Bl. Ffestiniog local service (Dydd Llun i Dydd Sadwrn) | 38,000.00 | John's | 9.75 | 2.25 | 15.00 | 7.50 | 3.00 |
| 44 | 29DL | Clipa Tywyn (Dydd Llun i Dydd Sadwrn) | 36,000.00 | Lloyds | 9.00 | 1.50 | 15.00 | 6.00 | 7.50 |
| 45 | 27 | Llithfaen - Llannor - Pwllheli (Dydd Llun i Dydd Sadwrn) | 55,000.00 | Nefyn Coaches | 6.75 | 3.75 | 15.00 | 7.50 | 6.00 |
| 46 | 28 | Tywyn - Dolgellau (Llun i Sad), Machynlleth - Tywyn (Suliau a Gwyliau Cyhoeddus) | 48,000.00 | Lloyds | 10.50 | 3.75 | 4.50 | 8.25 | 12.75 |
| 47 | 33 | Dolgellau - Aberangell (Dydd Llun i Dydd Sadwrn) | 55,000.00 | Lloyds | 6.75 | 2.25 | 15.00 | 7.50 | 9.75 |
| 48 | S97 | Porthmadog - Beddgelert - Pen y Pass (Dydd Llun i Dydd Sadwrn) | 37,000.00 | Express Motors | 8.25 | 3.75 | 15.00 | 7.50 | 6.75 |
| 49 | 23 | Clipa Pwllheli (Dydd Llun i Dydd Sadwrn) | 47,000.00 | Berwyn Coaches | 10.50 | 2.25 | 15.00 | 7.50 | 6.75 |
| 50 | 8 | Nefyn - Tudweiliog (Dydd Llun i Dydd Sadwrn) | 66,000.00 | Nefyn Coaches | 9.00 | 3.75 | 15.00 | 7.50 | 8.25 |
| 51 | 17 | Aberdaron - Pwllheli (Dydd Llun i Dydd Sadwrn) | 84,000.00 | Berwyn Coaches | 9.75 | 3.75 | 15.00 | 7.50 | 8.25 |
| 52 | 18 | Abersoch - Bwlchtocyn - Pwllheli (Dydd Llun i Dydd Sadwrn) | 76,000.00 | Berwyn Coaches | 9.75 | 3.75 | 15.00 | 7.50 | 8.25 |
| 53 | 88/88S | Llanberis - Llanrug - Caernarfon (Llun i Sadwrn a Suliau a Gwyliau Cyhoeddus) | 127,000.00 | Express Motors | 8.25 | 6.00 | 15.00 | 7.50 | 8.25 |
| 54 | S1 | Llanberis - Pen y Pass - Llanrwst | 82,000.00 | GHA Coaches | 7.50 | 11.25 | 15.00 | 8.25 | 3.00 |
| 55 | 6 | Bethesda - Mynydd Llandygai - Bangor (Dydd Llun i Dydd Sadwrn) | 71,000.00 | Arriva | 12.75 | 3.75 | 15.00 | 7.50 | 9.00 |
| **55** | | | **£ 2,131,107.92** | | | | | | |

** Ail asesiad yn dilyn cyfarfod gweithgor y cabinet 07-10-2014

| | |
|---|---|
| 312,300.00 | Arbediad 224K |
| 600,300.00 | Arbediad 488k |
| - 35,000.00 | Amcan gost addsyg ychwanegol contract 14 |
| - 50,000.00 | Amcan gost addsyg ychwanegol contract 85 (tacsi ysgol a bws coleg) |
| **227,300.00** | **Arbediad 224K** |
| **515,300.00** | **Arbediad 488k** |

**Gwasanaethau wedi eu ariannu gan Llywodraeth Cymru**

| Rhif Gwasanaeth | Trywydd y gwasanaeth | Cwmni | Cost Blynyddol | Ardal | Nifer o Deithwyr | Dewis Arall | Math o wasanaeth | Cyfleusterau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **X94 / T3S** | Siwrneiau gyda'r nos 19:15 a 21:15 Wrecsam i Bermo a Bermo i Wrecsam 1855 (Llun - Sadwrn) a (Suliau a Gwyliau Cyhoeddus) | GHA | 160,000.00 | 11.25 | 3.75 | 6.00 | 4.50 | 0.00 |
| **T2S1** | Aberystwyth - Bangor (Suliau a Gwyliau Cyhoeddus) | Lloyds | 15,000.00 | 12.00 | 8.25 | 15.00 | 2.25 | 0.50 |
| **T2** | Aberystwyth - Bangor (Dydd Llun i Dydd Sadwrn) | Lloyds | 184,000.00 | 12.00 | 8.25 | 6.00 | 6.00 | 6.50 |
| **T2** | Bangor - Aberystwyth (Dydd Llun i Dydd Sadwrn) | Express Motors | 30,000.00 | 12.00 | 8.25 | 6.00 | 6.00 | 6.50 |
| **T2S** | Bangor - Aberystwyth (Suliau a Gwyliau Cyhoeddus) | Express Motors | 14,000.00 | 12.00 | 11.25 | 15.00 | 2.25 | 0.00 |

| ALLWEDD | |
|---|---|
| (oren golau) | Gwasanaethau traws-ffîn |
| (coch) | Hen gontractau Padarn Bus Ltd. - contractau argyfwng |
| (glas golau) | Arbediad £224k |
| (glas) | Arbediad £488k |
| Arfon | x27 (49% )= £1,232,407.92 |
| Dwyfor | x16 (29%) = £586,300 |
| Meirionnydd | x12 (22%) = £312,400 |

# Sgôr

**C1** | **Arbedion drwy ddileu gyda'r nos a Suliau**

| Ranking | Rhif Gwasanaeth (0) | Trywydd y gwasanaeth | Cost Blynyddol | Cwmni | Ardal (1) | Nifer o Deithwyr (2) | Dewis Arall (3) | Math o wasanaeth (4) | Cyfleusterau (5) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 83S | Caernarfon - Deiniolen (Suliau a Gwyliau Cyhoeddus) | 19,000.00 | Express Motors | 6.75 | 2.25 | 1.50 | 2.25 | 0.75 |
| 2 | 82 | Caernarfon - Bethel (Dydd Llun i Dydd Sadwrn) | 15,000.00 | Express Motors | 6.75 | 1.50 | 1.50 | 6.00 | 0.75 |
| 3 | 85S | Bangor - Deiniolen - Llanberis (Suliau a Gwyliau Cyhoeddus) | 19,000.00 | Arriva | 9.00 | 3.75 | 1.50 | 2.25 | 0.00 |
| 4 | 99A | Croesor i Porthmadog (gwasanaeth ar alw - Mawrth a Gwener yn unig) | 3,000.00 | Cen ap Tomos | 6.75 | 1.50 | 3.00 | 3.00 | 3.00 |
| 5 | 99B | Rhyd i Porthmadog (Gwasanaeth ar alw - Llun a Iau yn unig) | 300.00 | Cen ap Tomos | 6.75 | 1.50 | 3.00 | 3.00 | 3.00 |
| 6 | 2S | Barmouth - Bangor (Suliau a Gwyliau Cyhoeddus) | 31,000.00 | Express Motors | 8.25 | 3.75 | 3.00 | 2.25 | 0.00 |
| 7 | 1FE | Caernarfon - Rhosgadfan - Fron - Penygroes (Gyda'r nos - 1820, 1840, 2125 a 2150) | 29,000.00 | Express Motors | 6.75 | 2.25 | 6.00 | 2.25 | 0.00 |
| 8 | 1NE | Caernarfon - Talysarn - Nantlle (Gyda'r nos - 1915, 1945, 2015, 2035, 2215 a 2235) | 34,000.00 | Express Motors | 6.75 | 2.25 | 6.00 | 2.25 | 0.00 |
| 9 | 3E | Porthmadog - Pwllheli (Siwrneiau Pwllheli: 1745, 1825, 1945, 2040, 2135 a 2220) | 39,000.00 | Arriva Buses Wales | 10.50 | 3.75 | 1.50 | 2.25 | 0.75 |
| 10 | 92 | Clipa Caernarfon (Doc Fictoria / Cae Gwyn) (Dydd Llun i Ddydd Sadwrn) | 20,000.00 | Express Motors | 7.50 | 1.50 | 1.50 | 6.00 | 3.00 |
| 11 | 14 | Clynnog - Trefor - Pencaenewydd - Pwllheli (Dydd Llun i Dydd Gwener) | 44,000.00 | Berwyn Coaches | 6.75 | 1.50 | 1.50 | 4.50 | 6.00 |
| 12 | 72/72A | Bangor - Felinheli - Bethel (Dydd Llun i Dydd Sadwrn) | 59,000.00 | Express Motors | 7.50 | 3.75 | 1.50 | 6.00 | 1.50 |
| 13 | 5E | Caernarfon - Bangor( Gyda'r nos - 11 siwrne rhwng 1910 a 2315) | 26,000.00 | Arriva Buses | 9.75 | 2.25 | 6.00 | 2.25 | 0.00 |
| 14 | T2E | Garndolbenmaen - Dolgellau (Gyda'r nos - 1815 yn unig) | 26,000.00 | Express Motors | 8.25 | 2.25 | 7.50 | 2.25 | 0.75 |
| 15 | 12E | Caernarfon - Trefor - Pwllheli (Llun - Sadwrn - siwrneiau rhwng 1800 a 2300) (Dydd Llun i Dydd Sadwrn) | 45,000.00 | Berwyn Coaches | 10.50 | 2.25 | 6.00 | 2.25 | 0.75 |
| 16 | 1E | Caernarfon - Porthmadog (Gyda'r nos - 1940, 2036 a 2230) | 28,000.00 | Express Motors | 9.00 | 2.25 | 7.50 | 2.25 | 0.75 |
| 17 | 78 | Bangor - Maesgierchen (Gyda'r nos - 5 siwrne rhwng 1855 a 2315) | 9,000.00 | Arriva Buses | 11.25 | 2.25 | 6.00 | 2.25 | 0.75 |
| 18 | 67E | Bangor - Tregarth - Bethesda - Gerlan (Gyda'r nos - 2035, 2105, 2200, 2230, 2245 a 2325) (Dydd Llun i Dydd Sadwrn) | 36,000.00 | Arriva Buses | 12.75 | 3.75 | 6.00 | 2.25 | 0.00 |
| 19 | 3S | Porthmadog - Pwllheli (Suliau a Gwyliau Cyhoeddus) | 19,000.00 | Arriva Buses Wales | 10.50 | 6.00 | 6.00 | 2.25 | 0.00 |
| 20 | 1NS | Caernarfon - Talysarn - Nantlle (Suliau a Gwyliau Cyhoeddus) | 19,000.00 | Express Motors | 6.75 | 2.25 | 15.00 | 2.25 | 0.00 |
| 21 | 8ABS | Dinas - Rhydyclafdy - Pwllheli (Dydd Sadwrn yn unig) | 7,000.00 | Nefyn Coaches | 6.75 | 1.50 | 15.00 | 3.00 | 0.75 |
| 22 | S97S | Porthmadog - Beddgelert - Pen y Pass (Suliau a Gwyliau Cyhoeddus) | 17,000.00 | Arriva Buses Wales | 8.25 | 2.25 | 15.00 | 2.25 | 0.75 |
| 23 | 1A | Penygroes - Nasareth - Nebo - Llanllyfni (Dydd Llun i Dydd Sadwrn) | 23,000.00 | Express Motors | 6.00 | 1.50 | 15.00 | 6.00 | 0.00 |
| 24 | 75 | Maesgeirchen - Bangor (Llun i Gwener) | 5,000.00 | Arriva | 11.25 | 6.00 | 1.50 | 4.50 | 6.00 |
| 25 | 34 | Aberllefenni - Machynlleth (Dydd Llun i Dydd Sadwrn) | 28,000.00 | Lloyds | 6.75 | 2.25 | 6.00 | 7.50 | 6.75 |
| 26 | 69 | Bala - Parc - Lon (ar alw - Dydd Iau yn unig - dwy siwrne - 1005 a 1220) | 1,100.00 | Global Taxis | 6.75 | 1.50 | 15.00 | 3.00 | 3.75 |
| 27 | 70 | Bala - Llidiardau - Rhyduchaf (Ar Alw - Dydd Llun a Dydd Iau yn unig - 3 siwrne 0900, 1235 (Llun yn unig) a 1440) | 3,300.00 | Global Taxis | 6.75 | 1.50 | 15.00 | 3.00 | 3.75 |
| 28 | 8S / 18S | Nefyn - Tudweiliog / Abersoch - Pwllheli (Suliau a Gwyliau Cyhoeddus) | 13,000.00 | Nefyn Coaches | 9.75 | 2.25 | 15.00 | 2.25 | 0.75 |
| 29 | 8AB | Dinas - Rhydyclafdy - Pwllheli (Dydd Llun i Dydd Gwener) | 65,000.00 | Nefyn Coaches | 6.75 | 1.50 | 15.00 | 3.00 | 5.25 |
| 30 | 1BE | Porthmadog - Blaenau Ffestiniog (Gyda'r nos - 8 siwrne rhwng 1735 a 2300) | 35,000.00 | Express Motors | 12.00 | 2.25 | 15.00 | 2.25 | 0.00 |
| 31 | 12S | Caernarfon - Pwllheli (Suliau a Gwyliau Cyhoeddus) | 14,000.00 | Berwyn Coaches | 10.50 | 3.75 | 15.00 | 2.25 | 0.75 |
| 32 | 83 | Caernarfon - Deiniolen - Dinorwig (Dydd Llun i Dydd Sadwrn) | 135,000.00 | Express Motors | 6.75 | 3.75 | 15.00 | 6.00 | 0.75 |
| 33 | 78 | Bangor - Maesgeirchen (Suliau a Gwyliau Cyhoeddus) | 9,000.00 | Arriva | 11.25 | 3.75 | 15.00 | 2.25 | 0.75 |
| 34 | 35 | Dolgellau - Bl. Ffestiniog (Dwy siwrne dwy-ffordd yn ystod y dydd - 0900, 1000, 12:0 a 1330) (Dydd Llun i Dydd Sadwrn) | 31,000.00 | Express Motors | 13.50 | 3.90 | 6.00 | 6.00 | 3.75 |
| 35 | 1S | Caernarfon - Bl. Ffestiniog (Suliau a Gwyliau Cyhoeddus) | 12,000.00 | John's | 12.00 | 3.75 | 15.00 | 2.25 | 0.75 |
| 36 | 85 | Bangor - Deiniolen - Llanberis (Llun i Sadwrn) | 130,000.00 | Express Motors | 9.00 | 6.00 | 1.50 | 7.50 | 10.50 |
| 37 | 30 | Tywyn - Minffordd - Dolgellau (Dydd Llun i Dydd Sadwrn) | 25,000.00 | Lloyds | 7.50 | 3.75 | 15.00 | 4.50 | 3.75 |
| 38 | S4 | Waunfawr - Beddgelert - Pen-y-Pass (Dydd Llun i Dydd Sadwrn) | 152,300.00 | Express Motors | 7.50 | 3.75 | 15.00 | 7.50 | 1.50 |
| 39 | 29DR | Tywyn - Llanegryn (Ar-alw / ar-gais - ymestyn y gwasanaeth ymlaen i Llanegryn ar gais i'r gyrrwr) | 4,000.00 | Lloyds | 9.00 | 1.50 | 15.00 | 2.25 | 7.50 |
| 40 | 91 | Caernarfon - Dinas Dinlle (Dydd Llun i Dydd Sadwrn) | 50,000.00 | Express Motors | 8.25 | 2.25 | 15.00 | 7.50 | 2.25 |
| 41 | 43/46/47 | Bangor - Llanfairpwll / Llangefni (Dydd Llun i Ddydd Sadwrn) | 23,107.92 | Eifion's | 10.50 | 3.75 | 1.50 | 12.75 | 8.25 |
| 42 | 67S | Bangor - Tregarth - Bethesda - Gerlan (Suliau a Gwyliau Cyhoeddus) | 6,000.00 | Arriva | 12.75 | 6.00 | 15.00 | 2.25 | 0.75 |
| 43 | 37 | Bl. Ffestiniog local service (Dydd Llun i Dydd Sadwrn) | 38,000.00 | John's | 9.75 | 2.25 | 15.00 | 7.50 | 3.00 |
| 44 | 29DL | Clipa Tywyn (Dydd Llun i Dydd Sadwrn) | 36,000.00 | Lloyds | 9.00 | 1.50 | 15.00 | 6.00 | 7.50 |
| 45 | 27 | Llithfaen - Llannor - Pwllheli (Dydd Llun i Dydd Sadwrn) | 55,000.00 | Nefyn Coaches | 6.75 | 3.75 | 15.00 | 7.50 | 6.00 |
| 46 | 28 | Tywyn - Dolgellau (Llun i Sad), Machynlleth - Tywyn (Suliau a Gwyliau Cyhoeddus) | 48,000.00 | Lloyds | 10.50 | 3.75 | 4.50 | 8.25 | 12.75 |
| 47 | 33 | Dolgellau - Aberangell (Dydd Llun i Dydd Sadwrn) | 55,000.00 | Lloyds | 6.75 | 2.25 | 15.00 | 7.50 | 9.75 |
| 48 | S97 | Porthmadog - Beddgelert - Pen y Pass (Dydd Llun i Dydd Sadwrn) | 37,000.00 | Express Motors | 8.25 | 3.75 | 15.00 | 7.50 | 6.75 |
| 49 | 23 | Clipa Pwllheli (Dydd Llun i Dydd Sadwrn) | 47,000.00 | Berwyn Coaches | 10.50 | 2.25 | 15.00 | 7.50 | 6.75 |
| 50 | 8 | Nefyn - Tudweiliog (Dydd Llun i Dydd Sadwrn) | 66,000.00 | Nefyn Coaches | 9.00 | 3.75 | 15.00 | 7.50 | 8.25 |
| 51 | 17 | Aberdaron - Pwllheli (Dydd Llun i Dydd Sadwrn) | 84,000.00 | Berwyn Coaches | 9.75 | 3.75 | 15.00 | 7.50 | 8.25 |
| 52 | 18 | Abersoch - Bwlchtocyn - Pwllheli (Dydd Llun i Dydd Sadwrn) | 76,000.00 | Berwyn Coaches | 9.75 | 3.75 | 15.00 | 7.50 | 8.25 |
| 53 | 88/88S | Llanberis - Llanrug - Caernarfon (Llun i Sadwrn a Suliau a Gwyliau Cyhoeddus) | 127,000.00 | Express Motors | 8.25 | 6.00 | 15.00 | 7.50 | 8.25 |
| 54 | S1 | Llanberis - Pen y Pass - Llanrwst | 82,000.00 | GHA Coaches | 7.50 | 11.25 | 15.00 | 8.25 | 3.00 |
| 55 | 6 | Bethesda - Mynydd Llandygai - Bangor (Dydd Llun i Dydd Sadwrn) | 71,000.00 | Arriva | 12.75 | 3.75 | 15.00 | 7.50 | 9.00 |
| **55** | | | **£ 2,131,107.92** | | | | | | |

** Ail asesiad yn dilyn cyfarfod gweithgor y cabinet 07-10-2014

| | |
|---|---|
| **305,000.00** | Suliau |
| **298,000.00** | Gyda'r nos |

**Gwasanaethau wedi eu ariannu gan Llywodraeth Cymru**

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **X94 / T3S** | Siwrneiau gyda'r nos 19:15 a 21:15 Wrecsam i Bermo a Bermo i Wrecsam 1855 (Llun - Sadwrn) a (Suliau a Gwyliau Cyhoeddus) | GHA | 160,000.00 | 11.25 | 3.75 | 6.00 | 4.50 | 0.00 |
| **T2S1** | Aberystwyth - Bangor (Suliau a Gwyliau Cyhoeddus) | Lloyds | 15,000.00 | 12.00 | 8.25 | 15.00 | 2.25 | 0.50 |
| **T2** | Aberystwyth - Bangor (Dydd Llun i Dydd Sadwrn) | Lloyds | 184,000.00 | 12.00 | 8.25 | 6.00 | 6.00 | 6.50 |
| **T2** | Bangor - Aberystwyth (Dydd Llun i Dydd Sadwrn) | Express Motors | 30,000.00 | 12.00 | 8.25 | 6.00 | 6.00 | 6.50 |
| **T2S** | Bangor - Aberystwyth (Suliau a Gwyliau Cyhoeddus) | Express Motors | 14,000.00 | 12.00 | 11.25 | 15.00 | 2.25 | 0.00 |

| ALLWEDD | |
|---|---|
| | Gwasanaethau traws-ffin |
| | Hen gontractau Padarn Bus Ltd. - contractau argyfwng |
| | Gwasanaethau ar y Sul |
| | Gwasanaethau gyda'r nos |
| Arfon | x27 (49% )= £1,232,407.92 |
| Dwyfor | x16 (29%) = £586,300 |
| Meirionnydd | x12 (22%) = £312,400 |

| ENW'R PWYLLGOR CRAFFU | CYMUNEDAU |
|---|---|
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **2 Rhagfyr 2014** |
| **TEITL** | **PONT BRIWET** |
| **AWDUR** | **Aled Davies, Pennaeth Adran Rheoleiddio** |
| **AELOD CABINET** | **Cyng. W Gareth Roberts** |
| | |
| **PWRPAS** | I ddarparu gwybodaeth a chyd-destun ac adrodd ar gynnydd prosiect Pont Briwet. |

**1. CEFNDIR**

1.1 Mae Pont Briwet yn croesi Afon Ddwyryd rhwng Penrhyndeudraeth a Llandecwyn yn ardal Meirionnydd o Wynedd.

1.2 O ran cludiant, nid oedd y bont bren wreiddiol, sy'n dyddio'n ôl i'r 1860au, yn gyswllt digon da ar gyfer trafnidiaeth fodern. Roedd cyfyngiad cyflymder o 20 milltir yr awr ar y bont reilffordd a'i chyffiniau, a oedd yn cario lein bwysig Arfordir y Cambrian. Roedd yna gyfyngiad o 20 milltir yr awr ar y dollbont gerbydau hefyd a byddai'r goleuadau rheoli traffig a oedd arni'n creu tagfeydd mawr ar adegau prysur. Oherwydd y cyfyngiad pwysau o ddwy dunnell a bod y ffordd mor gul, dim ond cerbydau ysgafn oedd yn gallu croesi'r bont a doedd yna ddim lle diogel arni i gerddwyr na beicwyr.

1.3 Roedd y trafferthion yr oedd hyn yn ei achosi, a bod yn rhaid gwella'r bont, yn wybyddus ers blynyddoedd. Erbyn 2007, roedd Network Rail o'r farn bod angen gwario £5 miliwn yn y tymor byr ar drwsio'r bont ac y byddai'n rhaid gwario tua'r un swm yn rheolaidd ar drwsio yn y dyfodol. Arweiniodd gweithdai yn 2008 at ymrwymiad i adeiladu pont newydd ac i chwilio am arian ar gyfer hynny. Cyflwynwyd cynllun busnes ffurfiol i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a chafodd ei gymeradwyo fis Gorffennaf 2010. Cyfanswm cost y prosiect yw £20.5 miliwn a bydd yn cael ei ariannu gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, sy'n cael ei gweinyddu gan Lywodraeth Cymru a TraCC (Consortiwm Cludiant Canolbarth Cymru) Network Rail a Chyngor Gwynedd.

1.4 Yn wreiddiol, y bwriad oedd mai Network Rail a fyddai'n arwain y prosiect, ond, er mwyn sicrhau y byddai pob un o'r meini prawf caeth yn cael eu cyfarfod, penderfynwyd y byddai Cyngor Gwynedd yn arwain a Network Rail yn chwarae rhan dechnegol ac yn cymeradwyo. Er mwyn sicrhau na fyddai unrhyw arbenigedd yn cael ei golli, mae perthynas waith agos a llwyddiannus wedi'i sefydlu rhwng Cyngor Gwynedd a Network Rail.

## 2. Y BONT NEWYDD

2.1 Roedd yn rhaid ystyried nifer o bethau wrth ddylunio’r bont newydd, gan gynnwys y cyfyngiad y byddai'n rhaid i'r rheilffordd newydd redeg ar yr un llwybr â'r hen un, ond hefyd, yn benodol, natur sensitif y safle sydd â Dynodiad Ewropeaidd o Ardal Cadwraeth Arbennig a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Bu Comisiwn Dylunio Cymru’n adolygu'r dyluniad rhagarweiniol a chafodd ei newid ychydig yn ystod haf 2011 i gynnwys eu sylwadau.

2.2 Bydd y bont newydd yn adeiladwaith modern, diogel a chynaliadwy a fydd yn cynnwys rheilffordd, priffordd ddwy lôn, llwybr beicio / cerdded, arhosfan reilffordd well yn Llandecwyn yn ogystal â gwelliannau i’r ffyrdd cyswllt cul.

## 3. CAFFAEL PRIF GONTRACTWYR

3.1 Y bwriad gwreiddiol oedd cau’r hen bont ffordd er mwyn adeiladu’r bont newydd ond roedd cymaint o bryderon yn cael eu mynegi mewn ymgynghoriadau cyhoeddus nes y newidiwyd y dyluniadau i gynnwys pont ffordd a sarn dros dro ger y bont bresennol.

3.2 Dechreuodd y broses o gaffael prif gontractwyr fis Ionawr 2012 gyda'r bwriad o benodi erbyn yr hydref 2012. Ond, gan nad oedd Cyngor Gwynedd yn gallu cymryd y risg o benodi prif gontractwyr nes y byddai'r gorchymyn cynllunio a phrynu tir wedi'i gwblhau, roedd yn fis Chwefror 2013 cyn y gellid penodi'r prif gontractwyr.

3.3 Cafodd pum contractwr, pob un gyda Thrwydded Prif Gontractwr Network Rail, wahoddiad i dendro. Roedd tri o’r contractwyr hynny wedi cynnwys pont a sarn dros dro yn y cynlluniau. Roedd y ddau arall, gan gynnwys Hochtief, wedi paratoi pecyn adeiladu gwahanol. Roedd hyn yn cynnwys cadw’r hen bont nes y byddai’r bont reilffordd newydd wedi’i gorffen ac yna codi dec ffordd dros dro wrth ei hymyl. Roedd hyn yn cael ei ystyried yn ateb fforddiadwy, derbyniol a fyddai’n galluogi cymunedau’r ardal i ddal i groesi’r afon yn ystod y prosiect. Dylid nodi fod y bidiau a oedd yn cynnwys Pont Bailey tua £3 - £7 miliwn yn ddrutach na’r bidiau mwy dychmygus ac yn mynd dros drothwy’r gyllideb oedd ar gael.

3.4 Hyd yn oed gyda’r amod y byddai’n rhaid cadw’r ffordd ar agor gymaint â phosibl, roedd yn anorfod y byddai'n rhaid cau’r bont ffordd ar wahanol adegau yn ystod y cyfnod adeiladu a lledaenwyd y neges hon ymysg y cyhoedd. Fodd bynnag, pan gaewyd y ffordd er mwyn dargyfeirio cebl Scottish Power o’r aber cyn dechrau ar y gwaith adeiladu, daeth yn amlwg fod rhai pobl yn yr ardal yn ystyried bod unrhyw beth a fyddai'n amharu ar y bont ffordd yn annerbyniol.

## 4. PROBLEMAU AR Y SAFLE

4.1 Y broblem fawr gyntaf a ddaeth i ran y prosiect oedd pan gyhoeddodd National Grid fis Hydref 2013 fod yna broblem gyda pheilon gerllaw. Bu'n rhaid cau'r bont ffordd a rheilffordd am resymau diogelwch. Roedd hynny'n golygu rhoi'r gorau i beilio ar gyfer y bont reilffordd newydd tra'r oedd National Grid yn codi peilon newydd ar frys. Unwaith eto, cafwyd llawer o gwynion gan y cyhoedd, a oedd o dan y camargraff mai'r prosiect oedd wedi peri niwed i'r peilon. Doedd hynny ddim yn wir, roedd yn wybyddus ers peth amser bod y peilon yn ddiffygiol.

4.2 Fis Tachwedd 2013, bu'n rhaid cau'r rheilffordd oherwydd bod y gwaith ar y bont newydd yn peri i'r tir o dan hen bont setlo. Darparwyd bysiau i gario teithwyr a, gyda chytundeb Network Rail, ceisiodd Cyngor Gwynedd gadw'r bont ffordd ar agor. Erbyn mis Ionawr 2014 roedd wyneb ac adeiladwaith yr hen bont, a'r ffaith nad oedd canllawiau arni, yn golygu nad oedd bellach yn ddiogel i gerbydau ei chroesi a phenderfynwyd ei chau i gerbydau ffordd.

4.3 Ar ôl cau'r ffordd, roedd yn rhaid dargyfeirio pob traffig ar hyd yr A496 drwy Faentwrog. Roedd tywydd garw ddechrau'r flwyddyn (a achosodd oedi ar y cynllun hefyd) wedi malu rhannau eraill o reilffordd y Cambrian ar yr arfordir ac wedi malu amddiffynfeydd rhag y môr hefyd. Ar ben y loriau trwm a oedd yn teithio'n rheolaidd ar y ffordd hon, roedd ychwaneg o loriau'n teithio i drwsio'r difrod ymhellach i lawr yr arfordir. Mynegodd cynghorwyr sirol bryderon sawl gwaith ynghylch diogelwch ar y ffordd gul hon a bod tagfeydd yn datblygu pan fyddai loriau'n methu mynd heibio'i gilydd. Oherwydd natur y ffordd, ychydig iawn ellid ei wneud i'w gwella. Awgrymodd cynghorwyr cymuned y gellid sefydlu system gonfoi ar y darn culaf o ffordd, 1.4 cilometr o hyd.

4.4 Fodd bynnag, gan nad oedd costau system gonfoi wedi'u cynnwys yng nghyllideb wreiddiol y cynllun, yr unig ffordd o dalu am y system gonfoi heb ychwanegu at y costau oedd chwilio am arbedion yn rhywle arall o fewn y cynllun. Gan nad oedd dichon hepgor agweddau o'r gwaith parhaol, yr unig arbediad y gellid ei gael oedd hepgor y bont ffordd dros dro. Byddai hynny'n golygu nid yn unig y byddai'n fwy diogel i yrru ar yr A46 ond y byddai'n niwtral o ran costau i gyllideb y prosiect yn gyffredinol. Yr adeg hynny, roedd y Contractwyr o'r farn y byddai hepgor y bont ffordd dros dro yn golygu y gellid gorffen y bont ffordd barhaol yn gynt na'r disgwyl fis Rhagfyr 2014. Cafodd yr wybodaeth yma ei rhannu'n gyhoeddus ac roedd cynrychiolwyr y Cyngor a'r Contractwyr yn bresennol mewn cyfarfod cyhoeddus ym Mhenrhyndeudraeth fis Mawrth.

4.5 Roedd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a Network Rail yn cefnogi'r penderfyniad i hepgor y decin dros dro ac o'r farn y byddai'r posibilrwydd y gellid gorffen y gwaith ar y bont ffordd ynghynt o help i leihau'r perygl na fyddai'r gwaith ar y prosiect yn cael ei orffen mewn pryd.

4.6 Ail agorodd y bont reilffordd ar 1 Medi 2014. Ond ni ellir dymchwel yr hen bont nes y bydd gwasanaethau wedi eu trosglwyddo o'r hen bont i'r bont reilffordd newydd. Ac ni ellir cychwyn ar y gwaith peilio nes y bydd yr hen bont wedi'i dymchwel. Mae gwaith o ddymchwel y Bont bresennol yn cael ei gwblhau ar 21 Dachwedd.

4.7 Er y bu trafodaethau gyda'r Gwasanaethau Statudol ers dechrau'r contract, cafwyd problemau gyda Dŵr Cymru a gyda BT ynghylch rhaglennu'r trosglwyddiad a faint o amser a gymerai hynny. Ddechrau Hydref, cyflwynodd y contractwyr raglen wedi'i diweddaru a oedd yn dangos fod y gwaith hwn wedi effeithio ar y dyddiad tyngedfennol ar gyfer dymchwel yr hen bont ac na ragwelid y byddai'r bont newydd yn cael ei gorffen tan fis Mehefin 2015, bedwar mis yn ddiweddarach na diwedd gwreiddiol y contract o fis Chwefror 2015.

**5. RISGIAU**

5.1 Mae'r gwaith wedi ei raglennu i'w gwblhau yn ystod mis Mehefin 2015. Mae amser wedi ei neilltuo yn y rhaglen ddiweddaraf ar gyfer materion annisgwyl, felly mae cryn hyder gan swyddogion y prosiect bod y dyddiad cwblhau yn gyraeddadwy. Mae'r prif risgiau i fethu'r dyddiad agor yn ymwneud gyda thywydd gwael fyddai yn rhwystro gwaith rhag mynd yn ei flaen, materion annisgwyl yn cael eu darganfod dan ddaear, neu fater arall annisgwyl fyddai yn cau'r safle a nadu gwaith gael ei gwblhau (ee damwain difrifol, peilon National Grid).

5.2 Mae amodau ar gyllidebau WEFO sydd yn golygu bod rhaid eu hawlio cyn diwedd mis Mehefin, gyda'r cyfrif terfynol yn cael ei gyflwyno yn ystod mis Medi 2015. Mae risg yma bod y cynllun heb wario digon i hawlio holl gyllideb WEFO (£9.5 miliwn) gan fod arian WEFO yn cael ei dalu ar ganran o holl wariant y cynllun (48%). Ar hyn o bryd, nid oes modd ymestyn y dyddiad am yr hawliad terfynol. Mae'r tîm prosiect yn ymwybodol o'r risg yma ac yn gwneud popeth posib i sicrhau bod holl gyllidebau WEFO yn cael eu hawlio cyn diwedd Mehefin 2015.

5.3 Does dim cyfrinach bod yn ymddangos bod y contractwr (Hochtief) wedi prisio'r gwaith yn isel. Mae'r contractwr yn ceisio adennill costau drwy adeiladu achosion yn hawlio fwy o arian. Mae'r hawliadau yma hyd ganol Tachwedd 2014 yn oddeutu 40 o hawliadau gyda chyfanswm o oddeutu £6 miliwn.

5.4 Mae'r tîm prosiect wedi sicrhau bod y contract wedi ei sefydlu mewn modd sydd yn trosglwyddo rhan helaeth o risgiau i'r contractwr. Fe adroddwyd hyn i'r Cabinet cyn gwobrwyo'r contract. Mae'r tîm prosiect yn gadarn o'r farn nad oes sail i'r rhan helaeth o'r hawliadau. Mae barn arbenigol annibynnol cyfreithiol wedi ei gomisiynu i asesu'r prif hawliadau, ac mae'r cyngor sydd yn cael ei dderbyn yn cytuno gyda safiad y swyddogion, sef dim sail i'r hawliadau.

5.5 Mae agwedd arall ddylid ystyried yn ogystal sef y swm sydd wedi ei gyrraedd ar bob hawliad. Mae'r tîm prosiect yn gadarn o'r farn bod y ffigyrau yn afresymol o uchel, felly hyd yn oed pe byddai'r hawliad yn sefyll mewn egwyddor, nid ydi'r swm yn gyfystyr a realiti.

## 6. CYFATHREBIAD

6.1 Pan wnaed y cyhoeddiad y byddai oedi cyn agor y bont, roedd pobl yr ardal yn gyffredinol yn hynod o siomedig. Mynegwyd sawl barn, gan gynnwys ceisiadau am ail osod dec ffordd dros dro neu ddarparu pont dros dro.

6.2 Byddai'n rhaid bod wedi gosod y dec ffordd dros dro ar ran o ddec y rheilffordd a'r ffordd a gosod rhan o'r adeiladwaith parhaol yn ddiweddarach. Pan benderfynwyd peidio â gwneud hynny, newidiodd y contractwyr ddyluniad a rhaglen y gwaith parhaol a olygai na ellid, felly, yn ymarferol, osod dec dros dro. Roedd ymateb y contractwyr i'r syniad o osod pont 'bailey' dros dro ar yr adeg yma yn cyfeirio at, ymysg y problemau eraill a fyddai'n codi, y byddai'n cymryd yn hynod i hir i gael pob caniatâd y byddai ei angen, y byddai gorfod gwneud gwaith dros dro yn effeithio ar ddyddiad cwblhau'r bont barhaol ac y byddai'r gwaith mor ddrud nes y byddai angen cryn dipyn o arian ychwanegol ar ei gyfer.

6.3 Derbyniwyd sylwadau hefyd ynghylch diffyg cyfathrebu ar ran tîm y prosiect. Ers dechrau'r prosiect, cynhaliwyd dwy arddangosfa gyhoeddus, rhannwyd gwybodaeth newydd drwy fasdata o gyfeiriadau e-byst a thrwy ddatganiadau i'r cyfryngau lleol, cynhaliodd y contractwyr nosweithiau agored, mae yna dudalen ar wefan y Cyngor, sefydlwyd tudalen gweplyfr sy'n cynnwys sylwadau ar gynnydd y prosiect, lluniau a dolen i luniau camera cyfnodol a sefydlwyd Grŵp Cyswllt yn cynnwys cynghorwyr lleol Gwynedd a Chymunedol.

## 7. ARCHWILIO PARHAUS Y PROSIECT

7.1 Mae gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru feini prawf caeth iawn ynghylch talu allan ac, yn enwedig, ynghylch caffael. Cafodd y prif gontractwr ei wahodd i dendro yn unol â rheoliadau Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd ac ar ôl cyflwyno adroddiad manwl ar y broses dendro i'r Swyddfa Gyllid fis Chwefror 2013 sylw'r Swyddfa Gyllid oedd - *Ar ôl adolygu'n fanwl y dogfennau a gyflwynwyd ynghylch y contract am y prif waith, mae'n amlwg y cynhaliwyd ymarfer tendro cystadleuol. Fel bob amser yn y materion hyn, mae'n rhaid i'r Prif Noddwyr fod yn fodlon fod y caffael yn cydymffurfio â'u Rheolau Sefydlog Contractio nhw eu hunain, Ond gan y gwnaed y caffael drwy Gyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd, nid oes gennyf unrhyw bryder penodol.*

7.2 Cyflwynir ceisiadau am arian bob chwarter i'r Swyddfa Gyllid ac i Lywodraeth Cymru ac mae'r Swyddfa Gyllid yn dilysu'r gwariant cyn trosglwyddo unrhyw arian.

7.3 Mae Swyddfa Archwilio Cymru'n cynnal archwiliad blynyddol o bob gwariant ar y prosiect fis Chwefror bob blwyddyn. Bydd hefyd yn cynnal yr archwiliad terfynol pan ddaw'r prosiect i ben. Mae'n derbyn gwybodaeth gefndir fanwl er mwyn gallu asesu a yw pob elfen o wariant yn gymwys i dderbyn arian grant y Swyddfa Gyllid. O'r £13 miliwn o wariant hyd yma, dim ond symiau cymharol bitw, ychydig gannoedd o bunnau, sydd wedi'u dyfarnu'n anghymwys (ac mae'r symiau hyn yn cael eu talu o arian cyfatebol Network Rail).

7.4 Mae tîm archwilio mewnol Gwynedd hefyd yn cael gwybodaeth fanwl.

7.5 Mae cynrychiolwyr Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, Llywodraeth Cymru a Network Rail yn aelodau o'r Bwrdd Prosiect sy'n cyfarfod bob chwarter. Bydd y cynrychiolwyr yn trafod pob problem ariannol ac ynghylch y rhaglen yn fanwl.

7.6 Fel rhan o feini prawf ariannu'r Swyddfa Gyllid, mae ymgynghorwyr annibynnol yn gwerthuso'r prosiect. Er y bydd hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar fuddion economaidd y buddsoddiad yn y bont newydd, bydd hefyd yn ystyried sut y cafodd y prosiect ei gynnal a pha wersi a ddysgwyd.

**8. DYSGU GWERSI**

8.1 Mae'r tîm prosiect eisoes wedi nodi y gellid dysgu gwersi ynghylch cyfathrebu â'r cyhoedd wrth gynnal prosiectau mawr fel Pont Briwet yn y dyfodol - disgwyliadau'r cyhoedd a ffyrdd effeithiol o gyfathrebu â'r cyhoedd a sut y gellir rheoli cyfathrebu'n gyffredinol. Un awgrym yw y gellid cynnwys swydd Swyddog Cyswllt Cymunedol lawn / rhan amser mewn ceisiadau ariannu er mwyn sicrhau bod digon o adnoddau ar gael ar gyfer hynny.

8.2 Efallai y dylid rhoi ystyriaeth i dendrau ar gyfer prosiectau isadeiledd mawr yn y dyfodol. Gosodwyd tendr Pont Briwet ar sail rhaniad 40% Ansawdd a 60% Masnachol. Er bod Hochtief wedi sgorio'n uchel ar yr ochr ansawdd hefyd, eu pris wnaeth ddylanwadu ar ddyfarnu'r tendr mewn gwirionedd. Efallai y dylid rhoi mwy o ystyriaeth i faterion ansawdd, ond gallai hynny olygu y byddai'n rhaid cynyddu cyllidebau os na fydd y pris isaf yn cael ei dderbyn felly.

8.3 Fe wnaeth yr holl brosesau statudol y bu'n rhaid eu gwneud yng nghyswllt Pont Briwet gymryd yn sylweddol hirach na'r disgwyl – 14 mis ar gynllunio, 18 mis ar bryniant gorfodol y tir – a gafodd effaith uniongyrchol ar agweddau eraill y prosiect yn cynnwys caffael y prif gontractwyr. Dylid rhoi ystyriaeth i ychwanegu amser wrth gefn ychwanegol at yr holl brosiectau yn y dyfodol, er mwyn sicrhau nad yw unrhyw oedi sydd y tu hwnt i'n rheolaeth ni yn cael ei weld gan y cyhoedd fel ein bod ni wedi methu.

# Adroddiad Ymchwiliad Craffu

## Cludiant Ôl-16 i Addysg Bellach

**Aelodau'r Ymchwiliad**
Cynghorydd Stephen Churchman (Cadeirydd)
Cynghorydd Caerwyn Roberts
Cynghorydd Angela Russell
Cynghorydd Gethin Glyn Williams
Cynghorydd Gruffydd Williams
Cynghorydd Eurig Wyn

**Swyddogion**
Debbie Anne Williams Jones (Swyddog Arweiniol)
Ann Roberts (Swyddog Cefnogol)
Lowri Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

Cyngor Gwynedd
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Cyhoeddwyd: 21 Tachwedd 2014

# Yr Adroddiad


| | Tudalen |
|---|---|
| Crynodeb Gweithredol | 5 - 9 |
| Pwrpas yr Ymchwiliad | 10 - 12 |
| Cyd-destun Cenedlaethol | 13 - 15 |
| Cyd-destun Lleol | 16 - 20 |
| Cymariaethau gydag Awdurdodau Cymru | 21 |
| Gweinyddiaeth | 21 - 22 |
| Effaith Gweithredu'r Polisi Cludiant Ôl-16 ar Ddarparwyr Addysg – Ysgolion Uwchradd | 23 |
| Effaith Gweithredu'r Polisi Cludiant Ôl-16 ar Ddarparwyr Addysg - Grŵp Colegau Llandrillo Menai | 24 - 25 |
| Effaith Gweithredu'r Polisi Cludiant Ôl-16 ar Ddarparwyr Addysg – Gyrfa Cymru | 26 - 28 |
| Effaith Gweithredu'r Polisi Cludiant Ôl-16 ar Ddysgwyr a'u Teuluoedd | 29 - 35 |
| Cofnod Cwynion / Sylwadau | 36 - 38 |
| Cyfathrebu a Chydweithio | 39 - 40 |
| Dealltwriaeth o effaith unrhyw newid i'r Polisi Cludiant Addysg Ôl-16 | 41 - 42 |
| Ymestyn y Briff | 43 - 45 |
| Materion eraill er ystyriaeth yr Aelod Cabinet | 46 |
| Adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol | 46 |
| Cydnabyddiaeth | 47 |

# Yr Atodiadau

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 | Cymhariaeth Lefel Cyllidebau 2013-14 |
| Atodiad 2 | 2012-13 Ceisiadau Cymeradwy am Lwfansau Cynhaliaeth Addysg |
| Atodiad 3 | Map Amser Teithio i Ysgolion Uwchradd |
| Atodiad 4 | Dadansoddiad Holiadur ar-lein Myfyrwyr |
| Atodiad 5 | Dadansoddiad Holiadur ar-lein Teuluoedd |
| Atodiad 6 | Asesiad o’r Opsiynau a flaenoriaethwyd |

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â
Debbie Anne Williams Jones
Cyngor Gwynedd
Stryd y Jêl,
Caernarfon,
LL55 1SH
Rhif ffôn: (01286) 679 267
E-bost: DebbieAnneWilliamsJones@gwynedd.gov.uk
[Tudalen Trosolwg a Chraffu Cyngor Gwynedd]

## RHAGAIR Y CADEIRYDD

Mae cludiant ôl16 yn fater sydd wedi ei godi sawl tro gan aelodau'r Cyngor a Grŵp Colegau Menai Llandrillo. Bu i'r aelodau godi'r mater yng ngweithdy blynyddol y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn dilyn derbyn sylwadau a phryderon y dysgwyr/myfyrwyr a'u teuluoedd. Y prif bryderon oedd yr anghysondeb yng nghost cludiant ôl16, y gallu i dalu am gostau cludiant, y pellteroedd teithio, anhyblygrwydd y gwasanaeth a'r ffaith nad yw Llywodraeth Cymru yn rhoi'r un sylw i'r difreintiedig o gymharu â Lloegr yw'r prif bryderon.

Bu i aelodau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ystyried briff ar gyfer yr ymchwiliad a phenderfynwyd cynnal ymchwiliad craffu i'r materion lle gallai ddylanwadu ar yn realistig. O ganlyniad, ymgymerwyd ag ymchwiliad i sut y gweithredir Polisi Cludiant Addysg Ôl-16 yr Awdurdod ar lawr gwlad mewn ysgolion uwchradd a cholegau addysg bellach a'r effaith ei weithredu ar ddarparwyr addysg ôl-16, y dysgwyr a'u teuluoedd. Cynhaliwyd cyfweliadau gyda phenaethiaid ysgolion uwchradd a cholegau, Gyrfa Cymru a swyddogion Adran Addysg y Cyngor. Yn ychwanegol, cynhaliwyd arolygon gyda myfyrwyr drwy holiadur ar-lein ac mewn sawl digwyddiad wyneb yn wyneb.

Yn ystod yr ymchwiliad adnabuwyd nifer o edau gyffredin a diffygion yn y ddarpariaeth cludiant ôl-16 presennol y mae argymhellion ac awgrymiadau wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

Ym mis Medi 2014, derbyniwyd cais gan yr Aelod Cabinet i ymestyn briff yr ymchwiliad craffu i ystyried opsiynau pellach i ddarganfod arbedion gan nad yw'r gwasanaeth cludiant ôl16 yn gallu parhau fel y mae ar hyn o bryd oherwydd y wasgfa ariannol. Golyga hyn yr angen i ystyried opsiynau ac argymhellion mwy creadigol er darparu'r gwasanaeth i'r dyfodol. Croesawyd y cais fel cyfle i ychwanegu gwerth i'r ymchwiliad gyda phwyslais ar roi'r cwsmer yn ganolog i'r gwasanaeth.

O ganlyniad i ymestyn briff yr ymchwiliad gwreiddiol, gosodwyd yr adroddiad mewn dau ran gydag argymhellion yr ymchwiliad ar waelod pob pennawd. Mae'r opsiynau mwy creadigol a ystyriwyd ynghyd ag argymhellion ar dudalen 43 – 45. Gweler grynodeb o'r holl argymhellion yn y Crynodeb Gweithredol.

Dymunwn ddiolch yn fawr iawn i'r dysgwyr/myfyrwyr wnaeth fynychu'r grwpiau ffocws ar safleoedd Coleg Menai Bangor, Coleg Meirion Dwyfor Pwllheli a Dolgellau ac i Clywed - llais plant, pobl ifanc, rhieni a'u teuluoedd. Dymunwn ddiolch i'r dysgwyr/myfyrwyr a'u teuluoedd wnaeth gwblhau'r holiadur.

Dymunwn ddiolch i'r Rheolwyr Gwasanaethau Dysgu Grŵp Colegau Menai Llandrillo, Penaethiaid Ysgolion Uwchradd Y Moelwyn ac Y Berwyn, Ysgol Botwnnog, ac Ysgol Brynrefail, Swyddogion Gyrfa Cymru.

Diolch am gefnogaeth yr Aelodau Cabinet y Cyngor a swyddogion y Cyngor wnaeth ein cynorthwyo gyda'r gwaith.

**Cynghorydd Stephen Churchman**
**Cadeirydd y Grŵp Ymchwiliad Craffu**

## 1. Crynodeb Gweithredol

Sefydlwyd yr Ymchwiliad Craffu gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 15 Hydref 2013 er asesu:

- Sut y gweithredir Polisi Cludiant Addysg Ôl-16 yr Awdurdod ar lawr gwlad mewn ysgolion uwchradd a cholegau addysg bellach

- Effaith gweithredu'r Polisi Cludiant Addysg Ôl-16 ar ddarparwyr addysg ôl-16, dysgwyr a'u teuluoedd

Ac yn benodol:

- manylu ar weithrediad ac effaith Polisi Cludiant Addysg Ôl-16 yr Awdurdod ar ysgolion uwchradd, colegau addysg bellach, dysgwyr a'u teuluoedd yng Ngwynedd.

- Sefydlu dealltwriaeth o effaith unrhyw newid i'r Polisi Cludiant Addysg Ôl-16 i'r Awdurdod, ysgolion uwchradd a cholegau addysg bellach, dysgwyr a darpar ddysgwyr a'u teuluoedd mewn gwahanol ardaloedd o'r sir.

Ym mis Medi 2014, derbyniwyd cais gan yr Aelod Cabinet i ymestyn briff yr ymchwiliad craffu i ystyried opsiynau pellach i ddarganfod arbedion gan nad yw'r gwasanaeth cludiant ôl16 yn gallu parhau fel y mae ar hyn o bryd oherwydd y wasgfa ariannol. Golyga hyn yr angen i ystyried opsiynau / argymhellion mwy creadigol er darparu'r gwasanaeth i'r dyfodol. Edrychwyd ar y cais fel cyfle i ychwanegu gwerth i'r ymchwiliad gyda phwyslais ar roi'r cwsmer yn ganolog i'r gwasanaeth.

O ganlyniad i ymestyn briff yr ymchwiliad, gosodwyd yr adroddiad mewn dau ran, gydag argymhellion yr ymchwiliad gwreiddiol ar waelod pob pennawd. Mae'r opsiynau mwy creadigol a ystyriwyd ynghyd ag argymhellion ar dudalennau 43 - 45. Gweler crynodeb o holl argymhellion yr ymchwiliad gwreiddiol ynghyd ag argymhellion ar yr opsiynau mwy creadigol isod.

Dylid cofio mai ciplun mewn amser sydd yn yr adroddiad hwn yn ystod cyfnod yr ymchwiliad craffu os na nodir yn wahanol.

Ystyriwyd gwybodaeth gefndirol o wahanol ffynonellau er sefydlu dealltwriaeth o'r cyd-destun cenedlaethol a lleol cyn cychwyn ar yr ymchwiliad craffu. Cyfwelwyd Aelodau Cabinet, Swyddogion perthnasol y Cyngor a Phenaethiaid tair Ysgol Uwchradd, Rheolwyr Gwasanaethau Myfyrwyr Coleg Menai Bangor a Rheolydd Ardal Gyrfa Cymru.

Ystyriwyd effaith gweithredu Polisi Cludiant Ôl-16 y Cyngor ar y dysgwyr a'u teuluoedd drwy gasglu barn dysgwyr/myfyrwyr a'u teuluoedd drwy amryw ddulliau o holi. Cynhaliwyd tri Grwp Ffocws efo dysgwyr/myfyrwyr – safle Coleg Menai Bangor, safle Coleg Meirion Dwyfor Pwllheli a safle Coleg Meirion Dolgellau. Casglwyd barn y di-waith gan ddefnyddio holiadur a chefnogaeth Swyddfa Gyrfa Porthmadog. Yn ogystal, cafwyd cefnogaeth Clywed i gasglu barn llais pobl ifanc, rhieni a'u teuluoedd. Ystyriwyd a dadansoddwyd cofnodion cwynion / sylwadau mae Galw Gwynedd yn dderbyn ar ran y Gwasanaeth.

Ystyriwyd trefn cyfathrebu'r Cyngor gyda'r sefydliadau addysg ôl-16 ac efo'r dysgwyr, myfyrwyr a'u teuluoedd ynghyd â threfniadau cyfathrebu'r sefydliadau addysg a Gyrfa Cymru gyda'r dysgwyr, myfyrwyr a'u teuluoedd.

Ystyriwyd y gwaith arall sydd yn mynd ymlaen gan y Cyngor, sef penodiad darparwr gan Swyddfa Consortiwm Addysg i gydlynu teithio dysgwyr rhwng ysgolion a cholegau ar gyfer eu cyrsiau addysg ôl-16 yn ardal Gwynedd ac Ynys Môn.  Ystyriwyd adroddiad cwmni 'EDGE public solutions' sydd wedi adolygu gweithrediadau gwasanaethau cludiant y Cyngor yn ystod mis Mai a mis Mehefin 2014.

Prif Faterion

1. Trefniadau addas a phwrpasol ar gyfer teithio yn ôl a blaen i addysg bellach sydd yn hyblyg i gyfarch anghenion newydd addysg sy'n sicrhau cyfle cyfartal i ddysgwyr.
2. Anghysondeb y Polisi -  y ddarpariaeth a'r trefniadau ar draws Gwynedd.
3. Gweinyddiaeth tocynnau cludiant a'r modd o dalu am gostau teithio a'r dulliau talu.
4. Dalgylchoedd a'r trefniadau teithio.  Yn unol â'r Canllawiau Statudol, 'Rhaid i awdurdodau lleol ystyried y ffaith na ddylai'r trefniadau teithio a wnânt, yn sgil asesiad, achosi unrhyw lefelau afresymol o straen, ac na ddylai'r daith gymryd cyfnod afresymol o amser a rhaid i'r daith honno fod yn ddiogel.'
5. Gwybodaeth berthnasol a phwrpasol gan ddefnyddio dulliau amrywiol.
6. Cyfathrebu ac ymgysylltu'n  gyffredinol.

Canfyddiadau

Canfuwyd fod nifer o anawsterau teithio i fynd yn ôl a blaen i addysg bellach.  Y prif negeseuon oedd:

1. Bod dyddiau'n hir iawn gyda rhai myfyrwyr yn dweud nad ydynt yn cyrraedd adref tan ar ôl 7pm ac eraill yn cyrraedd coleg awr a hanner cyn i'r coleg gychwyn er mwyn cyrraedd mewn pryd i'r gwersi.
2. Bod 38.2% o'r dysgwyr yn derbyn lwfans cynhaliaeth addysg.
3. Bod y tymor cyntaf yn anodd iawn i rai oherwydd nad ydynt yn derbyn y lwfans cynhaliaeth am o leiaf 6 wythnos ar ôl cychwyn ar y cyrsiau – y dystiolaeth eu bod yn mynychu cwrs addysg bellach.
4. Mae'r Colegau yn cofnodi rhesymau dros ymadawiad y myfyrwyr ond nid oes tystiolaeth gadarn bod teithio yn broblem gan fod cludiant yn debygol o gael ei gofnodi o dan bennawd 'rhesymau ariannol'.
5. Nid yw'n bosibl i'r mwyafrif o ddysgwyr/myfyrwyr gael mynediad i chwarter y cyrsiau sydd ar gael yng Ngwynedd a Môn gan nad yw'r gwasanaeth cludiant yn galluogi hynny.
6. Anhyblygrwydd y tocyn teithio. Mae'r tocyn cludiant £60 neu £100 ar gael i ddysgwyr/myfyrwyr i deithio i sefydliad addysg bellach yn y bore ac yn ôl gartref yn y prynhawn yn unig.

7. Nid yw'r tocyn yn caniatáu defnyddiwr i wneud beth mae'n ddweud ar y tocyn - teithio yn ôl a blaen i addysg bellach. Er enghraifft, mae myfyrwyr sydd yn gorffen am hanner diwrnod yn gorfod disgwyl tan ddiwedd y diwrnod os ydynt am ddefnyddio'r tocyn teithio neu yn gorfod talu i fynd adref yn gynt. Mae'r gost yma ar ben y £60 sydd eisoes wedi ei dalu am y tocyn teithio. Myfyrwyr sydd yn gorffen eu cwrs am 7pm yn methu defnyddio'r tocyn teithio.
8. Aneglurder ar ddefnydd y tocyn cludiant gan y gyrrwyr a stiward y trên, Galw Gwynedd, y myfyrwyr a'u teuluoedd.
9. Gall tocynnau gymryd amser i gyrraedd yn enwedig ar gyfer y tymor cyntaf o gymharu â myfyrwyr Sir Fôn sydd yn cael eu tocynnau ar y diwrnod maent yn talu amdano.

<u>**Crynodeb o'r argymhellion**</u>

1. **Er gwella manteision i'r dysgwyr/myfyrwyr a'u teuluoedd, lleihau prosesau ac yn ysbryd Ffordd Gwynedd, dylid cydweithio'n agosach ac i negodi efo Grŵp Colegau Llandrillo Menai i fod yn asiant i Gyngor Gwynedd**

2. **Dylid adolygu'r Polisi Cludiant Ôl-16 i sicrhau Polisi addas a phwrpasol i gyfarch gofynion y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a'r Canllaw Teithio gan Ddysgwyr – Darpariaeth Statudol a Chanllaw Gweithredol Mehefin 2014**

3. **Dylid adeiladu ar y sylfaen o weithio mewn partneriaeth gyda'r amrywiol sefydliadau i drefnu gwasanaeth pwrpasol**

4. **Dylid cael Polisi Cludiant Ôl-16 pwrpasol sydd yn ystyried modd y dysgwyr/myfyrwyr a'u teuluoedd i dalu am gostau cludiant**

5. **Mae angen cysondeb yn y ddarpariaeth a'r trefniadau ar draws Gwynedd er rhoi cyfle cyfartal a theg i bawb**

6. **Mae angen adolygu'r dalgylchoedd i leihau amseroedd a phellteroedd teithio dysgwyr/myfyrwyr yn unol â'r Canllaw Statudol Teithio gan Ddysgwyr**

7. **Mae angen i'r darparwyr addysg ôl-16 gydweithio i roi systemau yn eu lle i gasglu data er darganfod os ydi costau teithio yn arwain i fyfyrwyr ddisgyn allan o addysg bellach**

8. **Dylid gosod mesuryddion gofal cwsmer pwrpasol ar gyfer y gwasanaeth**

9. **Mae angen sicrhau cyd-ddealltwriaeth y darparwyr addysg bellach a Galw Gwynedd o Bolisi Cludiant Ôl-16 Cyngor Gwynedd**

10. **Dylid, yn ysbryd Ffordd Gwynedd, sicrhau bod cwestiynau defnyddwyr yn cael eu hateb gan eu cyswllt cyntaf**

11. **Mae angen i Gyngor Gwynedd a'r darparwyr addysg ôl-16 gydweithio'n agos i ddarparu gwybodaeth gyson, berthnasol a phwrpasol ar gyfer dysgwyr a'u teuluoedd gan ddefnyddio dulliau amrywiol ac addas sydd yn sicrhau cyfle cyfartal i bawb**

12. **<u>Argymhellion ar yr opsiynau mwy creadigol er darparu'r gwasanaeth i'r dyfodol</u>**

    a. **Bydd angen i'r drefn fod mewn lle erbyn y Pasg pe penderfynir gweithredu unrhyw newid ym mis Medi 2015. Dylid cofio mai arbedion o fis Medi 2015 - 31 Mawrth 2016 fydd arbediad y flwyddyn gyntaf i'r Cyngor.**

    b. **Ar sail y dystiolaeth a ganfuwyd yn ystod yr ymchwiliad craffu argymhellir y dylid ystyried cyfuniad o opsiynau. Opsiynau 3, 6 a 7 - newid i system tocynnau, trosglwyddo gwasanaeth cludiant i'r coleg a gweinyddiaeth tocynnau cludiant coleg i Grŵp Colegau Llandrillo Menai.**

    c. **Dylid, ar sail y dystiolaeth a ganfuwyd yn ystod yr ymchwiliad craffu, gosod un pris i bawb.**

    ch. **Dylid sicrhau bod y gwasanaeth yn cynnig cyfle cyfartal i fyfyrwyr coleg a dysgwyr ysgolion uwchradd.**

    d. **Dylid darparu benthyciadau ariannol i brynu cerbyd / beic modur yn ogystal er hwyluso mynediad at addysg bellach a hyfforddiant.**

    dd. **Dylid parhau gyda'r ymarfer da o'r ddarpariaeth athrawon / darlithwyr peripatetig ac adeiladu ar y sylfaen o weithio mewn partneriaeth a'i adolygu'n rheolaidd.**

    e. **Dylid cynnal asesiad effaith unrhyw gynnig i newid y ddarpariaeth cludiant a sicrhau bod y penderfyniad terfynol ar sail yr asesiadau hynny.**

**13. <u>Materion Eraill er Ystyriaeth yr Aelod Cabinet</u>**

Mae Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16 yn cynnwys:

- Cytundeb dwy flynedd gyda Democratiaid Rhyddfrydol Cymru er mwyn codi'r Grant Amddifadedd Ysgolion (PDG) o £918 i £1,050 yn 2015-16, ac yna'n codi eto i £1,150 yn 2016-17, ac ymestyn y PDG i blant oed meithrin yn y ddwy flynedd
- Cynllun Tocynnau Teithio Rhatach i Bobl Ifanc ar gyfer pobl ifanc 16-17 oed yn dechrau ym mis Medi 2015

Mae angen i'r Cyngor a'i bartneriaid ddeall proffiliau gwahanol y dysgwyr yn y blynyddoedd cyn y trawsnewid o'r ysgol i addysg bellach. Argymhellir bod y Cyngor,

y sefydliadau Addysg a Gyrfa Cymru yn gwella'r gefnogaeth i bobl ifanc cyn ac yn ystod y trawsnewid o'r ysgol i addysg bellach.

Mae angen i'r Cyngor, y sefydliadau addysg a Gyrfa Cymru gydweithio i osgoi dyblygu gwaith a sicrhau bod cefnogaeth i'r dysgwyr/myfyrwyr gan y sefydliad pwrpasol.

**14 Adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau**

**Mae aelodau'r ymchwiliad craffu yn gwerthfawrogi mai mater i'r Aelod Cabinet fydd gweithredu ond maent yn awyddus i'r Pwyllgor Craffu dderbyn adroddiad ar ei ymateb i'r argymhellion yn ei gyfarfod nesaf gydag adroddiad cynnydd ymhen 6 mis.**

## 2. Pwrpas yr Ymchwiliad Craffu

2.1 Ers mabwysiadu Polisi Cludiant ôl16 mae'r aelodau etholedig Cyngor Gwynedd a Chynrychiolwyr Grŵp Llandrillo Menai wedi nodi eu pryderon yng nghyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Cymuendau ar 26 Mawrth 2013. Bu i'r aelodau barhau i nodi eu pryderon mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 14 Mai 2013, ac yna mewn cyfarfodydd anffurfiol a chyfarfod paratoi ar 12 Medi 2013.

2.2 Mae'r aelodau wedi nodi'r pryderon canlynol:

- anghysondeb cost cludiant ôl-16
- gallu dysgwyr/myfyrwyr i dalu am gostau cludiant
- pellter teithio i ddysgwyr
- nad yw Llywodraeth Cymru yn rhoi'r un sylw i'r difreintiedig o gymharu â Lloegr

2.3 Yn sgil trafodaethau a gynhaliwyd ar gludiant ôl-16 yn y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 14 Mai 2013, ac wedi hynny mewn cyfarfodydd anffurfiol rhwng aelodau a swyddogion, ac yn y Cyfarfod Paratoi ar 12 Medi 2013, cymeradwywyd y bwriad o gynnal Ymchwiliad Craffu.

2.4 Cyflwynwyd briff yr ymchwiliad craffu i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 15 Hydref 2013. Eglurodd yr Aelod Cabinet nad oedd arian ychwanegol ar gael ar gyfer unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth.

2.5 Mae'r briff yn nodi'r angen i asesu:

- Sut y gweithredir Polisi Cludiant Addysg Ôl-16 yr Awdurdod ar lawr gwlad mewn ysgolion uwchradd a cholegau addysg bellach
- Effaith gweithredu'r Polisi Cludiant Addysg Ôl-16 ar ddarparwyr addysg ôl-16, dysgwyr a'u teuluoedd

Ac yn benodol:

- manylu ar weithrediad ac effaith Polisi Cludiant Addysg Ôl-16 yr Awdurdod ar ysgolion uwchradd, colegau addysg bellach, dysgwyr a'u teuluoedd yng Ngwynedd.
- Sefydlu dealltwriaeth o effaith unrhyw newid i'r Polisi Cludiant Addysg Ôl-16 i'r Awdurdod, ysgolion uwchradd a cholegau addysg bellach, dysgwyr a darpar ddysgwyr a'u teuluoedd mewn gwahanol ardaloedd o'r sir.

2.6 **Prif Weithgaredd yr Ymchwiliad**

2.7 O ran trefn y gwaith, bwriad yr Ymchwiliad oedd ceisio darlun sirol o'r modd y caiff y Polisi Cludiant Addysg Ôl-16 ei weithredu, ac effaith y polisi hwnnw ar ddarparwyr addysg ôl-16 a dysgwyr, mewn gwahanol ardaloedd o'r sir:-

a) Sefydlu dealltwriaeth o:-

- arweiniad Llywodraeth Cymru ar gludiant addysg ôl-16
- bolisi cludiant addysg ôl-16 Gwynedd a chymhariaeth rhyngddo â pholisïau cyffelyb mewn siroedd eraill yng Nghymru
- effaith gweithredu'r polisi ar ddysgwyr ymhob rhan o'r sir
- gysondeb y polisi cludiant addysg ôl-16 i ddysgwyr ymhob rhan o'r sir
- hygyrchedd y ddarpariaeth cludiant i ddysgwyr yn ystod oriau craidd a thu hwnt i oriau craidd
- fforddiadwyedd y polisi cludiant i ddysgwyr a'u teuluoedd mewn gwahanol ardaloedd o'r sir
- effaith unrhyw newid i'r polisi cludiant addysg ôl-16
- effaith negodi unrhyw gytundebau gyda darparwyr cludiant addysg ôl-16

b) Cyfweld y canlynol i adnabod y sefyllfa ar lawr gwlad:-

- Penaethiaid Ysgolion Uwchradd (1 Arfon, 1 Dwyfor, 1 Meirionnydd)
- Penaethiaid Gwasanaethau Myfyrwyr (Coleg Meirion Dwyfor safle Pwllheli a Dolgellau, Coleg Menai)
- Cynnal Grŵp Ffocws gyda dysgwyr ôl-16 mewn ysgol uwchradd a choleg addysg bellach i drafod eu defnydd o gludiant addysg ôl-16
- Cynnal Grŵp Ffocws gyda darpar ddysgwyr ôl-16 mewn ysgol uwchradd a choleg addysg bellach i drafod effaith tebygol trefniadau cyfredol cludiant addysg ôl-16 arnynt
- Cynnal Grŵp Ffocws gyda rhieni dysgwyr ôl-16 mewn 2 ardal er mwyn deall effaith gweithredu'r polisi cludiant ôl-16 ar deuluoedd.

c) Llunio argymhellion er ystyriaeth gan yr Aelod Cabinet ar gyfer gwella cysondeb, hygyrchedd a fforddiadwyedd cludiant ôl-16 i ddysgwyr ledled y sir.

2.8 Ymgynghorwyd gyda'r canlynol:

i. Eluned Williams, Uwch Swyddog Gwasanaethau Ategol (Addysg), Owen Owens, Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau (Addysg) a Rhian Wyn Williams, Cydlynydd Cludiant (Adran Rheoleiddio) ar y polisi, trefniadau a rheoliadau yn y maes cludiant ôl-16.

ii. Mr Dewi Lake, Pennaeth Ysgolion y Moelwyn ac Y Berwyn
Mr Gareth Morris Jones, Pennaeth Ysgol Botwnnog
Mr Arwyn Williams, Dirprwy Bennaeth Ysgol Brynrefail

iii. Mr Phillip Roberts, Rheolwr Gwasanaethau Dysgwyr, Grŵp Colegau Llandrillo Menai
Mr John Elfyn Gruffydd, Rheolwr Gwasanaethau Dysgwyr, Grŵp Colegau Llandrillo Menai

iv. Mrs Sharon Williams, Gyrfa Cymru - Rheolydd Ardal Gwynedd a Môn

2.9 Gwnaed ymchwil ar ymarfer awdurdodau eraill yn y maes.

2.10 Cymharwyd cyllidebau 'Cludiant rhwng cartref a choleg i rai rhwng 16 a 18 oed' a'r Nifer dysgwyr oed 16-18 oed mewn sefydliadau Addysg Bellach ar draws Gymru a'r teulu o gynghorau tebyg. **(Atodiad 1)**

2.11 Ystyriwyd gwybodaeth gefndirol o wahanol ffynonellau er enghraifft, gwybodaeth o'r Llyfr Cyllideb 2013-14 ar gludiant colegau a bysus ysgolion i Addysg Bellach; 'StatsCymru' Llywodraeth Cymru ar geisiadau am Lwfans Cynhaliaeth Addysg ar draws Gymru **(Atodiad 2)** , y Mesur amddifadedd MALIC - dangosydd ar gyfer yr amser teithio i Ysgol Uwchradd. **(Atodiad 3)**

2.12 Ystyriwyd y dalgylcheodd a'r pellteroedd mae'r dysgwyr/myfyrwyr yn teithio i addysg bellach.

2.13 Holwyd dysgwyr/myfyrwyr a'u teuluoedd drwy holiaduron a holiaduron ar lein[1] Defnyddiwyd yr holiadur yn Eisteddfod yr Urdd gan ddosbarthu cardiau i hysbysebu'r holiaduron ar lein.

2.14 Fe wnaeth 'Clywed' gynnal cyfarfod efo dau grŵp ar ein rhan, un grŵp ar gyfer dysgwyr a'r llall ar gyfer eu teuluoedd gan ddefnyddio'r holiaduron.

2.15 Cwblhawyd holiaduron gan y di-waith yn Swyddfa Gyrfa Cymru Porthmadog.

2.16 Cynhaliwyd Grwpiau ffocws ar safle Coleg Menai Bangor, Coleg Meirion Dwyfor Pwllheli a Dolgellau.

2.17 Ystyriwyd cofnodion cwynion / sylwadau gan Galw Gwynedd a'u dadansoddi.

2.18 Gwahoddwyd yr Aelod Cabinet newydd sy'n gyfrifol am y maes i gyfarfod a'r Grŵp Ymchwiliad Craffu.

[1] Mae hyn yn cynnwys holiaduron ar safle we'r Cyngor, Adran Addysg - Cludiant ôl16, gwefannau'r Gwasanaeth Ieuenctid a Gwefan Gwynedd Ni a hysbysebwyd yn y Chronicle, Herald, Bangor Mail a'r Cambrian News.

## 3. Y Cyd-destun Cenedlaethol

3.1 Daeth y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru)2008 ("y Mesur") gan y Cynulliad Cenedlaethol Cymru i rym ar 30 Medi 2008 ac fe'i cymeradwywyd gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor ar 10 Rhagfyr 2008. Mae'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) yn gosod y fframwaith cyfreithiol yn benodol mewn perthynas â darpariaethau teithio a thrafnidiaeth ar gyfer dysgwyr yn teithio o'r cartref i'r ysgol yng Nghymru.

3.2 Nid yw'r Mesur yn dynodi terfyn amser ar gyfer teithiau. Serch hynny, mae adran 2(5)(b) yn dynodi nad yw trefniadau trafnidiaeth yn addas os ydynt yn cymryd cyfnod afresymol o amser. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol asesu anghenion unigol dysgwyr wrth ystyried pa mor rhesymol yw cyfnod amser taith. Mae'r canllaw statudol newydd yn cryfhau'r pwynt yma – gweler y pwyntiau isod.

3.3 Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan awdurdodau lleol, rhieni a chyrff llywodraethu ysgolion, cyhoeddodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ymgynghoriad ar ddiwygio'r Canllawiau Gweithredol ar Deithio gan Ddysgwyr a Gwerthuso'r Cod Teithio. Rhoddodd y Gweinidog ymrwymiad hefyd y byddai'n sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfle i fynegi eu barn ar y materion sy'n effeithio arnynt wrth deithio o'r cartref i'r ysgol.

3.4 Yn dilyn yr ymgynghoriad a gynhaliwyd rhwng 13 Ionawr 2014 a 13 Ebrill 2014 cyhoeddwyd: Teithio gan Ddysgwyr – Darpariaeth Statudol a Chanllaw Gweithredol Mehefin 2014 ("y Canllaw") ym mis Mehefin 2014. Cyhoeddwyd y Canllaw gan Weinidogion Cymru dan adran 15 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.

3.5 Dan adran 15 Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, mae gan Weinidogion Cymru'r pŵer i gyflwyno canllawiau statudol. Pan fo canllawiau'n statudol, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw i'r canllawiau a byddant ond yn gallu peidio â chydymffurfio â chanllawiau o'r fath pan allant ddarparu cyfiawnhad dros wneud hynny.

3.6 Mae'r Mesur yn cyfeirio at 'Trafnidiaeth i Ddysgwyr Nad Ydynt Mewn Addysg neu Hyfforddiant Gorfodol – Dysgwyr ôl-16' ac yn nodi: 'Nid oes dyletswydd statudol ar awdurdod lleol i ddarparu trafnidiaeth rad ac am ddim i ddysgwyr ôl-16 oed sy'n parhau gyda'u hastudiaethau mewn addysg bellach neu hyfforddiant prif ffrwd.'

3.7 Mae Canllaw Cynghori'r Mesur yn nodi: 'Polisi Llywodraeth Cymru yw bod y ddarpariaeth o drafnidiaeth i ddysgwyr oed 19-25 yn fater o ddisgresiwn i awdurdodau lleol a sefydliadau Addysg Uwch a Phellach yng Nghymru.'

3.8 Mae'r Canllaw Statudol Teithio gan Ddysgwyr yn dweud

- bod rhaid i awdurdodau lleol hyrwyddo dulliau cynaliadwy o deithio wrth iddynt roi eu swyddogaethau ar waith dan y Mesur cyn belled â phosibl yn ymarferol.
- ble nad yw dysgwyr yn gymwys i gael trafnidiaeth rad ac am ddim, mae gan awdurdodau lleol y grym i ddarparu trafnidiaeth yn ôl disgresiwn eu hunain.

- rhaid i awdurdodau lleol ystyried y ffaith na ddylai'r trefniadau teithio a wnânt, yn sgil asesiad, achosi unrhyw lefelau afresymol o straen, ac na ddylai'r daith gymryd cyfnod afresymol o amser a rhaid i'r daith honno fod yn ddiogel.

3.9 Mae'r Canllawiau Statudol newydd, yn nodi'r ystyriaethau canlynol ddylai awdurdodau lleol roi sylw iddynt mewn perthynas â darpariaeth teithio i ddysgwyr ôl-16.

a. Wrth asesu pa drefniadau trafnidiaeth sydd eu hangen ar gyfer dysgwyr ôl-16 argymhellir y dylai awdurdodau lleol ystyried yr angen i sicrhau bod dysgwyr yn cael digon o gyfle i ddewis rhwng gwahanol sefydliadau lle y darperir addysg a hyfforddiant. Dylai'r dewis digonol hwn gynnwys galluogi dysgwyr i ddewis sefydliad addysg neu hyfforddiant nad yw'r agosaf i'w cartref os bydd ffactorau eraill yn bwysicach, er enghraifft addasrwydd y cwrs.

b. Argymhellir hefyd y dylai awdurdodau lleol ystyried anghenion y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

3.10 Barn Llywodraeth Cymru yw na ddylai pobl ifanc mewn ardaloedd gwledig fod dan anfantais yn ariannol gan fod angen iddynt deithio yn bellach o bosibl i gael y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant na'u cyfoedion yn yr ardaloedd trefol.

3.11 O ran yr amser a gymerir i deithio i gyrraedd a chael mynediad at sefydliad dysgu gwahanol – argymhellir y dylai pobl ifanc fedru cyrraedd eu sefydliad addysg neu hyfforddiant heb ddioddef y fath straen neu anhawster nes achosi iddynt beidio ag elwa o'r addysg a ddarperir. Er enghraifft, ni ddylai unigolyn ifanc orfod newid bws cyhoeddus nifer o weithiau (neu fath arall o drafnidiaeth) er mwyn cyrraedd sefydliad addysg neu hyfforddiant, os bydd hynny'n achosi taith afresymol o faith. Yn y cyd-destun hwn, bydd awdurdodau lleol angen ystyried pa fath o drafnidiaeth fyddai orau i sicrhau hyd taith sy'n rhesymol. **Mae'r arfer orau'n awgrymu y gellid disgwyl i blentyn o oed ysgol uwchradd deithio am 60 munud i'r ysgol, ac eto yn ôl, i gyrraedd y sefydliad addysg. Argymhellir y dylai awdurdodau lleol osod disgwyliadau tebyg i ddysgwyr ôl-16.**

3.12 Mae Arweinyddion a Phrif Weithredwyr Awdurdodau Cymru wedi derbyn llythyr gan Edwina Hart MBE CStJ AC / AM Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar 28 Gorffennaf 2014 yn nodi:

**"I expect Local Authorities proposing changes to learner travel provision to undertake the necessary impact assessments of their proposals and to ensure that their final decisions on service provision are informed by those assessments".**

3.13 Mae Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16 yn cynnwys y canlynol o dan y pennawd 'Cyrhaeddiad Addysgol':

- Gwarchod cyllid ysgolion gan 1% uwchlaw'r newidiadau cyffredinol i gyllideb Cymru, sy'n golygu y bydd ysgolion wedi cael £106m ychwanegol dros gyfnod yr Adolygiad Gwariant hwn;

- Dyrannu £12m ychwanegol i barhau â Her Ysgolion Cymru flwyddyn nesaf;
- **Cytundeb dwy flynedd gyda Democratiaid Rhyddfrydol Cymru er mwyn codi'r Grant Amddifadedd Ysgolion (PDG) o £918 i £1,050 yn 2015-16, ac yna'n codi eto i £1,150 yn 2016-17, ac ymestyn y PDG i blant oed meithrin yn y ddwy flynedd;**
- **Cynllun Tocynnau Teithio Rhatach i Bobl Ifanc ar gyfer pobl ifanc 16-17 oed yn dechrau ym mis Medi 2015.**

## 4. Y Cyd-destun Lleol

4.1 **Polisi Cludiant Ôl-16 Cyngor Gwynedd**

4.2 Yn hanesyddol yr oedd darpariaeth cludiant yn rhad ac am ddim i ddysgwyr dros 16 oed oedd yn byw dros dair milltir i ffwrdd o ysgolion uwchradd a cholegau addysg bellach.

4.3 Ers Medi 2011 mae Cyngor Gwynedd wedi mabwysiadu polisi cludiant ôl-16. Adolygwyd y cyn Polisi (a fabwysiadwyd ar 20 Gorffennaf 2004) am y rhesymau canlynol:

- newidiadau yn y patrwm darparu cyrsiau ar gyfer dysgwyr sydd dros 16 oed
- argaeledd y Lwfans Cynhaliaeth Addysg ar gyfer dysgwyr ar aelwydydd llai cefnog
- pwysau ariannol enfawr ar gyllideb y Cyngor.

4.4 Seiliwyd y polisi ar y cwtogiad yn yr arian cyhoeddus ddyrannwyd i'w awdurdodau a arweiniodd at flaenoriaethu addysg dros y ddarpariaeth cludiant am ddim. Mae'r polisi yn disgwyl i holl ddysgwyr ôl-16 dalu tuag at gost trafnidiaeth ysgol neu goleg. Disgwylir i'r dysgwyr dalu £60 y tymor neu £100 y tymor ar gyfer rhai sydd yn mynd i addysg bellach tu allan i'w dalgylch neu sydd yn hŷn na 19 mlwydd oed ar 31 Awst.

4.5 Sylfaen y Polisi yw 'rhwydwaith' o wasanaethau cludiant – boed fws gwasanaeth, bws coleg / ysgol, trên, bws bach neu dacsi, a fydd yn galluogi dysgwyr i gyrraedd safleoedd addysgol ôl-16 oed perthnasol.

4.6 Ers Medi 2011 mae pob ysgol uwchradd sy'n darparu ar gyfer Blynyddoedd 12 a 13 yn cynnig Cwricwlwm Lleol llawn sydd yn cwrdd â'r gofynion addysgu. Mewn rhai achosion mae'r ddarpariaeth sydd ar gael yn cael ei gynnig mewn lleoliadau addysgol eraill. Yn ogystal â chludiant i'r ysgol benodol ar ddechrau a therfyn pob dydd, mae cludiant ar gael i / o'r cartref ar y Rhwydwaith i / o'r lleoliadau addysgol cysylltiedig ar ddechrau a therfyn y diwrnod ysgol. Mae'r un sefyllfa yn bodoli ar gyfer Grŵp Colegau Llandrillo Menai.

4.7 **Y bobl ifanc 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant**

4.8 Mae dangosydd perfformiad DGD17 – ' % y bobl ifanc 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant yng Ngwynedd' yn dangos perfformiad gwell na chyfartaledd Cymru gyda'r tueddiad yn gwella.

4.9 Mae adroddiad Prifysgol Caer Efrog a gomisiynwyd gan y cyn Comisiwn Archwilio yn 2010 yn amcangyfrif bod cost o £56,000 trwy gydol oes unigolyn cyffredin nad ydyw mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant. Mae'r swm £56,000 yn codi trwy daliadau budd-dal lles, cyfiawnder cymdeithasol, iechyd gwael, a threth ac yswiriant gwladol heb ei dalu, gyda £104,000 y person yn ychwanegol oherwydd cyfleoedd a gollwyd a gwaith fyddai wedi ei greu.

4.10 Cyhoeddwyd 'Against the odds' ym mis Hydref 2010 gan y Comisiwn Archwilio. Briff ydyw sydd yn amlygu prif rôl mae colegau addysg bellach, colegau 6ed dosbarth, ac ysgolion gyda 6ed dosbarth yn chwarae i gynorthwyo pobl ifanc newid yn llwyddiannus o ysgol uwchradd i addysg bellach ôl-16 neu hyfforddiant, i atal pobl ifanc rhag mynd i'r categori 'pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant'.

**4.11 Adolygiad Gweithrediadau Gwasanaethau Cludiant y Cyngor**

4.12 Mae Cyngor Gwynedd wedi comisiynu cwmni 'EDGE public solutions' i adolygu gweithrediadau gwasanaethau Cludiant y Cyngor sydd yn cysylltu'n amserol iawn efo agenda 'National Assets Working Group' (NAWG) a chanfyddiadau Adroddiad Williams. Cynhaliwyd yr adolygiad rhwng mis Mai a mis Mehefin 2014. Mae adroddiad drafft cwmni 'EDGE public solutions' yn nodi:

**"Given the requirement to control the number of NEET students and the fact that transport charges are already relatively high for the region we do not recommmend any changes to this discretionary transport provision at this time."**

4.13 Argymhelliad cwmni EDGE ydi:
**"Consider at a point in the future increasing the cost of the $16^{+}$ pass to £90 or £130 per term."**

4.14 **Consortiwm Addysg Ôl-16 Gwynedd a Môn**

4.15 Mae'r Consortiwm wedi penodi darparwr ar gytundeb o flwyddyn o Awst 2014 hyd ddiwedd Hydref 2015. Briff y darparwr ydi cydlynu teithio dysgwyr **rhwng** ysgolion a cholegau ar gyfer eu cyrsiau addysg ôl-16 yn ardal Gwynedd ac Ynys Môn. Mae'r darparwr yn trefnu trafnidiaeth gyda chwmniau teithio fel bod dysgwyr yn medru teithio **rhwng** ysgolion a cholegau ar gyfer astudio cyrsiau ôl-16 cydweithredol yng Ngwynedd ac Ynys Môn **yn ystod diwrnod ysgol**. Mae'r briff i'r darparwr yn cynnwys trefnu trafnidiaeth i ddysgwyr ar fyr rybudd, sicrhau bod y trefniadau yn gost-effeithiol ac yn cynnig y gwerth gorau am arian trwy fabwysiadu proses caffael yr adrannau Addysg Cyngor Sir Ynys Môn a Gwynedd. Yr ysgolion a'r colegau sydd yn talu am y drafnidiaeth yma. Mae'r darparwr yn gweinyddu taliadau ac anfonebau rhwng y sefydliadau addysgol a chwmniau teithio.

4.16 Mae 5 Ysgol Uwchradd Ynys Môn yn anfon dysgwyr i Goleg Menai, Llangefni a Bangor ynghyd â dysgwyr yn teithio rhwng ysgol i ysgol. Mae 6 Ysgol Uwchradd Gwynedd gyda 6ed dosbarth yn anfon dysgwyr i Goleg Menai, Llangefni a Bangor ynghyd â theithio rhwng ysgol i ysgol. Mae'r niferoedd yn ddibynnol ar ddewisiadau dysgwyr ar ddechrau bob blwyddyn academaidd. Mae'r Consortiwm yn derbyn adroddiadau ar nifer y dysgwyr sydd yn teithio o bob ysgol yn unigol yn fisol, cyfanswm cost teithio misol bob ysgol, adroddiad blynyddol gydag argymhellion ar sut i leihau costau a gwella cost-effeithiolrwydd y ddarpariaeth cludiant ynghyd ac ansawdd.

4.17 Mae gwaith sylweddol wedi ei wneud ar drefnu cyrsiau cydweithio 6ed dosbarth Gwynedd a Môn a'r dosbarthiadau cyfwerth yng Ngholeg Menai drwy gytuno ar amserlen wythnosol gyffredin o flociau o amser ar gyfer colofnau dewis dysgwyr. Mae bob sefydliad yn cytuno ar gyrsiau fydd yn gyrsiau Cydweithio Swyddogol a fydd yn rhan o'r arlwy Cwricwlaidd ardal. Hefyd mae bob sefydliad yn rhannu eu colofnau dewis ôl-16 er mwyn hyrwyddo ehangu dewis dysgwyr lle mae eu dewis pynciau yn amhosib yn eu sefydliad cartref. Mae hefyd trafodaethau a chamau blynyddol ar gyfer rhesymoli cyrsiau sydd yn anhyfyw o ran niferoedd er mwyn creu arbedion i sefydliadau trwy ganoli cwrs penodol mewn un sefydliad. Mae penderfynu ar y darparwr ar sail adroddiadau ansawdd a chanlyniadau hanesyddol.

4.18 Comisiynwyd gwaith ar edrych ar leihau ychydig ar yr angen i deithio drwy fabwysiadu gweithdrefniadau dysgu digidol a gwelir o'r dadansoddiad cyntaf o'r holiaduron disgyblion bod negeseuon clir. Mae 93% yn cytuno / cytuno'n gryf y dylent gael eu paratoi at y defnydd o dechnoleg mewn addysg uwch, byddai 88% yn gwerthfawrogi cael mynediad at adnoddau dysgu digidol, byddai 89% (blwydd 12) a 81% (blwyddyn 13) yn gwerthfawrogi cael defnyddio eu dyfais ddigidol mewn gwersi, mae canrannau uchel yn berchen ar ddyfeisiau digidol amrywiol.

i. Arsylwyd y defnydd o gynnal gwersi Electroneg a Seicoleg drwy fideo gynadleddau ar safle Coleg Menai Llangefni a Choleg Meirion Dwyfor a gwelwyd addysgu arbennig o dda a myfyrwyr yn ymateb yn aeddfed ac yn amlwg wedi dysgu i weithio'n gymharol annibynnol. Mae darpariaeth leol o ansawdd dda iawn a gellir ystyried defnyddio'r canolfannau hyn fel canolfannau o ragoriaeth mewn fideo-gynadledda.

ii. Mae cefnogaeth i'r syniad o ddefnyddio adnoddau digidol o bob cyfeiriad.

4.19 Bydd y gwaith ymchwil hwn yn dod i ben cyn y Nadolig gyda'r gwaith yn arwain at baratoi tendr ffurfiol ar gyfer comisiynu gwaith hyfforddi athrawon , hyrwyddo arferion da a chreu adnoddau cyfredol yn y maes o e-ddysgu. Bydd y pecynnau yn arwain at arbedion wrth i sefydliadau eu defnyddio er mwyn cynnal darpariaeth yn y sefydliad cartref ond trwy gymysgiad o wersi traddodiadol, pecynnau e-ddysgu ar gyfer dysgu annibynnol, pecynnau fideo cynadleddau gydag athrawon teithiol yn cylchdroi o gwmpas bob sefydliad ac yn cyflwyno'r wers o bob sefydliad yn ei thro.

**4.20 Ystadegau Cryno'r Ardal Leol – Gwynedd 7 Awst, 2014**

Mae rhai o'r crynodebau lefel uchel y data yn datgan fel a ganlyn:-

***Yr Economi***

- Yn 2013, roedd cyfradd cyflogaeth yng Ngwynedd yn 70.1%. Roedd hwn y nawfed uchaf ymhlith y 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

- Roedd Gwerth Ychwanegol Crynswth (GVA) y pen yn 2012 yn £15,360 yng Ngwynedd.  Mae hyn gyfartal â chyfartaledd Cymru ac mae yr wythfed uchaf ymhlith y 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

- Yn 2012, roedd Incwm gwario aelwydydd crynswth (GDHI) yn £13,874 y pen yng Ngwynedd ac roedd hwn y chweched isaf ymhlith y 22 awdurdod lleol yng Nghymru.  Rhwng 1999 a 2012, mae GDHI y pen yng Ngwynedd wedi bod yn is na chyfartaledd Cymru.

- Yn 2013, roedd enillion wythnosol cyfartalog Gwynedd yn £491. Roedd hwn y pumed isaf ymhlith y 22 awdurdod lleol yng Nghymru.  Yn 2003, 2008 a 2013, roedd enillion yng Ngwynedd yn is na chyfartaledd Cymru.

- Yn 2012, roedd gan Wynedd y gyfradd seithfed isaf ymhlith awdurdodau lleol Cymru o blant yn byw mewn cartrefi diwaith.

***Addysg a Sgiliau***

- Mae'r canran o oedolion oed gwaith heb ddim cymwysterau wedi gostwng ers 2001. Y flwyddyn ddiwethaf roedd Gwynedd o fewn un pwynt canran o gyfartaledd Cymru a chydag un o'r 10 cyfradd isaf ymhlith yr awdurdodau lleol.

- Mae'r canran o oedolion oed gwaith â chymwysterau NQF Lefel 4+ wedi cynyddu ers 2001. Yn y flwyddyn ddiweddaraf, roedd o fewn tri phwynt canran o gyfartaledd Cymru ac wedi'i restru ymhlith y pump awdurdod lleol uchaf.

- Mae'r gyfradd presenoldeb wedi codi ers 1999. Roedd uwchben cyfartaledd Cymru yn 2013.

***Yr Amgylchedd***

- Yn 2006, roedd yr ôl-troed ecolegol yng Ngwynedd uwchben cyfartaledd Cymru.

## 4.21 Cyllid a Chymorth Ariannol

### 4.22 Cyllideb y Cyngor

4.23 Mae cyllideb cludiant ôl-16 yn agos i £1,000,000 a bwriad Cyngor Gwynedd ydi sybsideiddio 80% o gostau cludiant ôl-16 i addysg bellach a derbyn y 20% yn ôl fel ffi. Y targed incwm ydi £199,000.

4.24 Mae'r Llyfr Cyllideb 2014-15 yn dangos cyllideb cludiant i addysg bellach o dan y pennawd 'Cyllideb heb fod yn Gyllideb Unigol Ysgolion'.  Gwelir bod

- ‘Cludiant Colegau’ yn £170,740
- ‘Bysiau Ysgolion’ - Addysg Bellach yn £747,090
- 52% o cyllideb Rheillffordd Cambrian £28,160

4.25 Yr oedd y gwir incwm o’r gwerthiant tocynnau yn 2013/14 yn £174,328 gyda Chyngor Gwynedd yn sybsideiddio gweddill y gost i’r dysgwyr/myfyrwyr.

**4.26 Cymorth Ariannol**

4.27 Mae Canllaw Cynghori’r Mesur newydd Teithio gan Ddysgwyr yn cyfeirio at y cymorth ariannol canlynol sydd ar gael i dalu/gyfrannu at gostau trafnidiaeth y rhai hynny sydd mewn addysg ôl-16.

- Cyflwynwyd y Lwfans Cynhaliaeth Addysg fel cymhelliad i bobl ifanc o gartrefi ar incwm isel i aros mewn addysg neu hyfforddiant llawn amser y tu hwnt i gyfnod addysg orfodol. Mae ar gael i ddysgwyr sy’n mynychu ysgol neu goleg. Lwfans Cynhaliaeth Addysg yw lwfans wythnosol o £30 sy’n destun asesiad incwm i helpu myfyrwyr gyda chost addysg bellach. Mae’n cael ei dalu bob pythefnos yn syth i gyfrif banc y myfyriwr.
- Mae Grant Dysgu’r Cynulliad ar gael i ddysgwyr oed 19 neu’n hŷn sydd mewn Addysg Bellach.
- Mae Llywodraeth Cymru’n darparu cymorth hefyd i’r myfyrwyr hynny sy’n wynebu caledi, sef y Gronfa Ariannol wrth Gefn a ddosberthir i sefydliadau addysg bellach ac uwch yng Nghymru.
- **Gall y Lwfans Cynhaliaeth, Grant Dysgu’r Cynulliad a Chronfa Ariannol y Cynulliad gael eu defnyddio, ymysg pethau eraill, i dalu am gostau trafnidiaeth neu i gyfrannu atynt.**
- Mae sefyllfaoedd lle y bydd colegau lleol a’r awdurdodau lleol perthnasol yn darparu cymorth ariannol ar gyfer teithio i’r rhai sydd mewn addysg ôl-16.
- Bydd gan bob awdurdod lleol ei bolisi trafnidiaeth ôl-16 ei hun a chyfrifoldeb y dysgwr neu riant/rieni’r dysgwr fydd gwirio gwefannau awdurdodau lleol unigol am y manylion penodol.

## 5. Cymariaethau gydag Awdurdodau Cymru

5.1 Mae ffigyrau Cymariaethau Lefel Cyllideb Cludiant Colegau 2013/14 Cenedlaethol yn dangos bod cyllideb cludiant coleg Cyngor Gwynedd yn £893,000 a'r gyllideb fesul uned cymharu yn £394.26 (**Atodiad 1)**. Mae'r ffigyrau yma yn rancio Cyngor Gwynedd yn 3ydd allan o'r teulu o gynghorau tebyg ac yn 4ydd yng Nghymru o ran cyllideb (Cyngor Sir Fôn yn ail).

5.2 Defnyddiwyd data o ffurflenni Cyfrif Refeniw awdurdodau ar gyfer 2013/14. Ffigyrau ar sail net o grantiau penodol a ddim yn cynnwys costau cyfalaf. Data anariannol a ddefnyddiwyd oedd 'Nifer Dysgwyr oed 16-18 mewn Sefydliadau Addysg Bellach'. Ystadegau Addysg Bellach, Dysgu Seiliedig ar waith a Dysgu Cymunedol yng Nghymru.

5.3 Mae nifer o awdurdodau Cymru yn adolygu eu polisi cludiant ôl-16 eleni, e.e. Ceredigion, Penfro a Chaerfyrddin.

5.4 Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn codi £60 y flwyddyn, mae cludiant am ddim gan Gyngor Sir Conwy a Chyngor Sir Powys.

5.5 Mae rhai awdurdodau yng Nghymru yn codi mwy o bris na Chyngor Gwynedd. Er enghraifft, ar hyn o bryd, mae Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Castell-nedd yn codi £270 y flwyddyn ac mae Cyngor Casnewydd yn rhoi grant o £150 tuag at gost tocyn teithio myfyriwr o £576 y flwyddyn.

## 6. Gweinyddiaeth

6.1 Mae'r Adran Addysg yn rhoi arian i'r Uned Cludiant Integredig i baratoi'r contractau ac adolygu'r niferoedd ar y bysus yn dymhorol.

6.2 Galw Gwynedd [2]sydd yn gwerthu'r tocynnau teithio i'r dysgwyr ôl-16 ar ran yr Adran Addysg. Mae Galw Gwynedd yn delio gydag ymholiadau a gwerthu'r tocynnau teithio yn cynnwys gweinyddu ceisiadau sydd yn cael eu derbyn dros y we a cheisiadau am newid manylion/colli tocyn. Targed Galw Gwynedd ar gyfer rhoi tocyn allan ydi 3 diwrnod ond mae yna drefniant o roi pythefnos o 'grace' yn ystod tymor yr Hydref. Yn ystod y ddau dymor arall bydd y tocynnau yn cael eu prosesu'r diwrnod canlynol. Mae Galw Gwynedd hefyd yn derbyn cwynion/sylwadau ac yn cofnodi ar system gyfrifiadurol. Mae Galw Gwynedd yn bilio'r Adran Addysg am y gwasanaeth yma.

6.3 Mae trefn wahanol ar gyfer dysgwyr yn Ysgolion Arbennig. Mae'r Adran Addysg yn ysgrifennu yn uniongyrchol at ddysgwyr yn Ysgolion Arbennig. Nid yw dysgwyr yr Ysgolion Arbennig yn prynu tocyn teithio drwy Galw Gwynedd - yr Uned Cludiant Integredig sydd yn bilio'r unigolion yn uniongyrchol.

[2] Galw Gwynedd yw Canolfan Gyswllt Ffôn Cyngor Gwynedd

6.4 Yr oedd Coleg Menai yn arfer gweinyddu'r tocynnau ar ran Cyngor Gwynedd pan yr oeddent yn rhad ac am ddim i fyny at fis Medi 2011.

6.5 Mantais trefn gyfredol Cyngor Gwynedd i'r myfyriwr ydi

- Cael gostyngiad pe penderfynir mynd i addysg bellach yn eu dalgylch.

Mantais i'r Cyngor ydi

- Galw Gwynedd yn gweinyddu a delio gydag ymholiadau dros yr Adran Addysg.
- Diogelu dalgylch
- Cofnod o sylwadau a chwynion
- Adolygu niferoedd sy'n teithio bob tymor.

6.6 Dywedwyd wrthym fod Coleg Menai (Grŵp Colegau Llandrillo Menai) yn gweithio fel asiant i Gyngor Sir Fôn. Deallwyd gan yr Adran Addysg, Cyngor Sir Fôn eu bod yn gofyn am £60 y flwyddyn i Goleg Menai, gyda'r Coleg wedyn yn codi ffi weinyddol o 7.5% o'r gwerthiant ar y Cyngor. Mae'r gwaith yn cynnwys casglu'r arian a thalu'r Adran Addysg yn uniongyrchol. Mae Coleg Menai yn anfon anfoneb i Gyngor Ynys Môn am 7.5% o'r gwerthiant llai £60.

6.6.1 Mae tocynnau ar gyfer plant ysgol Cyngor Sir Fôn yn cael ei weinyddu gan y Cyngor ac adroddwyd bod y drefn ar gyfer ysgolion yn drafferthus. Tocyn plaen iawn ar gyfer plant ysgol.

6.7 Manteision trefn Cyngor Sir Ynys Môn i'r myfyriwr ydi

- cael tocyn ar y diwrnod
- trafod efo un sefydliad yn hytrach na dau neu dri.
- mae'r tocyn yn nodi'r bysus mae'r myfyriwr yn cael teithio arnynt.

Mantais i'r awdurdod ydi

- Bod y trefniant yn llai o drafferth gan fod angen lot o adnoddau i wneud y gwaith.

Mantais i'r Coleg ydi

- cael record gadarn o bwy sydd yn teithio ar y bysus i gefnogi'r ochr iechyd a diogelwch ar y bysus.

6.8 **Argymhelliad i'r Aelod Cabinet**

**Er gwella manteision i'r dysgwyr/myfyrwyr a'u teuluoedd, lleihau prosesau ac yn ysbryd Ffordd Gwynedd, dylid cydweithio'n agosach ac i negodi efo Grŵp Colegau Llandrillo Menai i fod yn asiant i Gyngor Gwynedd.**

## 7. Effaith Gweithredu'r Polisi Cludiant ôl16 ar Ddarparwyr Addysg – Ysgolion Uwchradd

7.1 Dywedwyd wrthym fod angen diffinio daearyddiaeth y dalgylchoedd yn glir.

7.2 Clywyd bod rhai dysgwyr/myfyrwyr yn teithio pellteroedd mawr a oedd yn golygu diwrnodau gwaith hir diflas iddynt. Er bod diwrnodau gwaith hir diflas i rai'n sy'n teithio pellter mawr nid oedd yr Ysgolion Uwchradd yn clywed cwynion.

7.3 Adroddwyd bod rhieni yn gwneud trefniadau eu hunain yn hytrach na dibynnu ar drefniant y Cyngor Sir. Os yn ddibynnol ar ewyllys da rhieni, yna nid yw yn gyfle cyfartal.

7.4 Clywyd bod yr Ysgolion Uwchradd yn pwyso ar ddysgwyr i wneud cais am Lwfans Cynhaliaeth Addysg a bod angen adnabod carfan o ddisgyblion sydd i dalu llai. Awgrymwyd y dylai'r disgyblion hynny sydd yn cael cinio am ddim/Lwfans Cynhaliaeth Addysg a/neu grant gael cludiant am ddim.

7.5 Awgrymwyd y dylai'r polisi fod yn fwy hyblyg gan fod oriau ysgol wedi newid dros y blynyddoedd gyda gweithgareddau ychwanegol yn cael eu trefnu ac fel bod myfyrwyr yn cael mynd adref amser cinio.

7.6 Mae'r arian mae'r Ysgolion Uwchradd Arfon yn cael fel grant Rhwydwaith 14-19 ar gyfer hyrwyddo cydweithio i sicrhau dosbarthiadau hyfyw o dan fygythiad gan Lywodraeth Cymru. Mae'r arian yma yn mynd tuag at dalu costau teithio dysgwyr i gwrs ar safle addysgol arall yn ystod y dydd. Mae tocyn cludiant £60 neu £100 ar gael i ddysgwyr i deithio i'r ysgol yn y bore ac yn ôl gartref yn y prynhawn yn unig. Gyda chyrsiau sy'n gorffen am 5 o'r gloch y trefniant yng Ngwynedd yw bod y tacsi yn dychwelyd y dysgwr i'r fam ysgol a'i fod o'r fan honno yn gwneud ei drefniadau ei hun adref.

7.7 **Argymhelliad:**

**a) Dylid adolygu'r Polisi Cludiant Ôl-16 i**

- **sicrhau Polisi addas a phwrpasol**
- **sicrhau gwasanaeth hyblyg i gyfarch anghenion newydd addysg a rhoi cyfle cyfartal i ddysgwyr.**
- **sicrhau nad ydi dysgwyr/myfyrwyr yn teithio pellteroedd mawr i addysg bellach**

**b) Dylid adeiladu ar y sylfaen o weithio mewn partneriaeth gyda'r amrywiol sefydliadau i drefnu gwasanaeth pwrpasol**

## 8. Effaith Gweithredu'r Polisi Cludiant Ôl-16 ar Ddarparwyr Addysg - Grŵp Colegau Llandrillo Menai

8.1 Dywedwyd wrthym fod 16 bws yn cyrraedd y colegau bob dydd. Trwy Wynedd, Môn a Chonwy gyda 12 cwmni bws gwahanol dan gontract. Mae yna 40 llwybr teithio i gyd. Mae Grŵp Colegau Llandrillo Menai yn ymdrin â thri pholisi gwahanol.

8.2 Mae pob myfyriwr sydd yn cael ei dderbyn ar gwrs yn cael ei gyfeirio at y Gwasanaeth Myfyrwyr ac yn derbyn gwybodaeth briodol.

8.3 Mae'r ffaith bod cost cludiant ôl-16 a threfniadau Cyngor Gwynedd yn wahanol i Gyngor Sir Fôn a Chyngor Conwy yn creu teimlad o annhegwch yng ngholegau'r Grŵp Colegau Menai Llandrillo.

8.4 Mae'r Coleg yn clywed gan y myfyrwyr am y trafferthion i dalu'r costau ar ddechrau Tymor yr Hydref oherwydd nad ydynt yn derbyn y Lwfans Cynhaliaeth Addysg tan o leiaf chwe wythnos i mewn i'r cwrs.

8.5 Mae'r Coleg yn gorfod targedu myfyrwyr sy'n cael trafferth ac adroddwyd bod mwy o Wynedd yn mynegi problemau i'r Coleg ond nid oes modd dadansoddi'r problemau ar hyn o bryd.

8.6 Weithiau mae teithio yn ffactor, ond nid oes tystiolaeth gadarn mai dyma'r prif reswm. Mae'r Colegau yn cofnodi rhesymau dros ymadawiad y myfyriwr, ond mae cludiant yn debygol o gael ei gofnodi o dan bennawd / opsiwn 'rhesymau ariannol'.

8.7 Adroddwyd bod nifer y di-waith rhwng 18 - 25 yn cynyddu yng Ngwynedd.

8.8 Mae pob un Coleg trwy Gymru yn derbyn swm o arian bob blwyddyn yn seiliedig ar ddemograffig a sefyllfa economaidd, sef Y Gronfa Ariannol Wrth Gefn. Mae'r arian yn benodol i gategori ar gyfer helpu efo costau teithio, deunyddiau, gofal plant a.y.b. sydd yn galluogi'r colegau roi traean o gost cludiant y flwyddyn (£60) i'r rhai sydd wedi eu hasesu fel rhai sy'n cael trafferthion. Mae'r coleg yn rhoi'r taliad cyntaf i oresgyn problemau i'r rhai sydd yn cael trafferthion ariannol.

8.9 Nid oes gan Grŵp Colegau Llandrillo fynediad at wybodaeth o bwy sydd yn teithio o Wynedd.

8.10 Mae'r anhyblygrwydd amser teithio (ar ddechrau a diwedd diwrnod) yn creu trafferthion a diwrnod hir i fyfyrwyr. Mae amserlen a diwrnod hir yn sicr o effeithio lefel cyrhaeddiad / canlyniadau a gallai absenoldebau fod o ganlyniad i ddyddiau hir.

8.11 Mae'r Coleg wedi derbyn cais am help gan riant i ddatrys y broblem o anhyblygrwydd y gwasanaeth am bod eu plentyn yn ofalwr i'r rhiant.

8.12 Adroddwyd y byddai'n haws i Grŵp Colegau Llandrillo Menai weithio fel asiant i

Wynedd gan y bydd hyn yn sicrhau gwell rôl i'r colegau a bod y myfyrwyr yn derbyn eu tocynnau ar y diwrnod maent yn talu.

8.13 Nid ydyw tocynnau Gwynedd yn nodi'r bysus mae'r myfyrwyr yn cael teithio arnynt ac mae hyn yn creu problemau.

8.14 Mae yna lai o hyblygrwydd yng Ngwynedd o ran dalgylchoedd i gymharu efo Cyngor Sir Fôn.

8.15 Mae yna ymwybyddiaeth rhwng y myfyrwyr am y gwahaniaethau rhwng y siroedd.

8.16 Mae gan Grŵp Coleg Menai berthynas dda gydag Adran Trafnidiaeth y Cyngor.

8.17 Mae ymroddiad myfyrwyr De Meirionnydd tuag at addysg i'w ganmol.

8.18 Mae Partneriaeth Arfon yn ymarfer da ond does dim cyfle cyfartal. Mae angen cysondeb.

8.19 Mae angen sicrhau bod gwybodaeth berthnasol a phwrpasol yn cael ei rannu gyda myfyrwyr a'r rhieni.

8.20 **Argymhelliad:**

**a) Dylid cael Polisi Cludiant Ôl-16 pwrpasol a mwy hyblyg sydd yn**

- **ystyried modd y dysgwyr/myfyrwyr a'u teuluoedd i dalu am gostau cludiant**
- **rhoi ystyriaeth i amseroedd teithio, y dalgylchoedd naturiol a'r pellteroedd mae dysgwyr/myfyrwyr yn teithio**
- **rhoi cyfle cyfartal ac yn deg i bawb**

**b) Dylid negodi efo Grŵp Colegau Llandrillo Menai i fod yn asiant i Gyngor Gwynedd er symleiddio'r drefn prosesu a gweinyddu'r tocynnau teithio.**

**c) Mae angen cysondeb yn y ddarpariaeth a'r trefniadau ar draws Gwynedd.**

**ch) Mae angen rhannu gwybodaeth berthnasol a phwrpasol gyda'r dysgwyr/myfyrwyr a'u teuluoedd.**

## 9. Effaith Gweithredu'r Polisi Cludiant Ôl-16 ar Ddarparwyr Addysg – Gyrfa Cymru

9.1 Mae Gyrfa Cymru yn cyfathrebu a gweithio gyda phobl ifanc ar draws y chwe awdurdod yng Ngogledd Cymru i'w helpu i wneud penderfyniadau. Gyrfa Cymru ydi'r pwynt cyswllt cyntaf sydd yn clywed am drafferthion y rhai sydd yn disgyn allan o addysg.

9.2 Mae Gyrfa Cymru yn rhannu gwybodaeth gyda myfyrwyr os yw cludiant yn ffactor yn eu dewis o gwrs.

9.3 Mae Gyrfa Cymru wedi clywed nifer o sylwadau gan ddysgwyr ym Mhorthmadog**.** Dyma rhai enghreifftiau:-

- Mae coleg 'lleol' Dwyfor yn Nolgellau er bod Caernarfon a Bangor yn nes iddynt ond yn gorfod talu £100 os ydynt yn dymuno mynd tu allan i'r dalgylch.

- Mae'r dyddiau'n hir iawn gyda rhai myfyrwyr yn dweud nad ydynt yn cyrraedd adref tan ar ôl 7pm.

- Nodir nad ydi'n bosibl i'r mwyafrif o ddysgwyr/myfyrwyr gael mynediad i chwarter y cyrsiau sydd ar gael yng Ngwynedd a Môn oherwydd nad ydi'r gwasanaeth cludiant yn ei gwneud yn bosibl.

9.4 Mynegwyd pryder nad ydi costau cludiant Cyngor Gwynedd na Chyngor Môn yn cydnabod y gallu i dalu.

9.5 Nodwyd hefyd nad ydi'r Polisi yn gyson, er enghraifft mae trefn Ysgolion Uwchradd Arfon yn gweithio'n dda gan fod yr ysgolion yn talu costau cludiant drwy'r drefn partneriaeth ond nid yw hyn yn digwydd yn ardaloedd eraill. Mae rhai Ysgolion Uwchradd Arfon yn talu costau teithio dros y disgyblion ac eraill ddim. Mae angen cyfle cyfartal i ddysgwyr.

9.6 Adroddodd Rheolydd Gyrfa Cymru y buasai'n haws ganddynt weithio gydag un sefydliad sydd yn dosbarthu'r tocyn cludiant.

9.7 Derbyniwyd y sylwadau canlynol gan ymgynghorwyr Gyrfa Cymru:-

i. Mae un o'r ymgynghorwyr yn bryderus bod cleientiaid ym Mhen Llŷn yn cael eu gorfodi i deithio i Ddolgellau (40 milltir) am gyrsiau galwedigaethol pan mae, mewn rhai achosion megis Trefor, yn agosach i deithio i Goleg Menai (22 milltir), ond mae dal angen iddynt dalu £100. Mae'r un peth yn wir am Nefyn ac ardaloedd tebyg. Fodd bynnag, mae dychwelyd adref o Fangor/Llangefni/Caernarfon yn llawer cynt gan nad yw bws rhif 12 yn gadael Caernarfon tan 17:21 ac nid yw cleientiaid yn cael defnyddio llwybrau teithio na bysiau eraill i deithio adref. Mae rhai cleientiaid yn adrodd nad ydynt yn cyrraedd adref tan ar ôl 7pm. Mae hyn yn golygu bod diwrnod cyfartalog yn

llawer hirach iddynt hwy nag ydyw diwrnod gwaith cyfartalog y rhan fwyaf o weithwyr. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd iddynt lynu at amser teithio olaf y tocyn teithio (18:00).

ii. Enghraifft arall o hyn yw cleientiaid yn teithio o Harlech ers i'r bont gau. Mae rhieni wedi mynegi pryder bod myfyrwyr yn hollol flinedig ac wedi colli dyddiau yn sgil yr amser teithio eithafol y mae'n rhaid i fyfyrwyr ei ddioddef. Rwyf wedi cael gwybod bod y bws sy'n teithio i Borthmadog yn gallu cymryd awr i gyrraedd yno ar rai dyddiau. Mae rhai cleientiaid yn methu eu cysylltiad ac ni allant ddychwelyd adref yn sgil yr amseroedd a ganiateir ar y tocyn. Fel y gwyddoch, ni allwch ddefnyddio'r tocyn cyn 13:00. Mae'r un broblem yn wir wrth iddynt deithio adref.

iii. Nid yw Gwynedd yn talu am gludiant y tu allan i Wynedd ar hyn o bryd. Beth sy'n digwydd dan yr amgylchiadau hyn i fyfyrwyr sy'n byw yn y Bala ac sy'n dymuno astudio cyrsiau Astudiaethau Tir yn Llysfasi, y coleg agosaf? Ar hyn o bryd, maent yn gorfod gobeithio bod lle ar gael iddynt ar y bws neu mae'n rhaid iddynt dalu i aros yn y coleg gan ei bod bron yn amhosib iddynt deithio i'r coleg bob dydd.

iv. O ran Glynllifon, ydych chi'n ymwybodol bod myfyrwyr o Feirionnydd, er enghraifft o Harlech, yn gorfod teithio o Harlech i'r Oakley Arms, newid ym Mhorthmadog, newid ym Mhenygroes ac yna teithio i'r Coleg. Mae'n rhaid iddynt wneud yr un fath wrth deithio adref. O'r blaen, roedd bws mini ar gael ond mae'r gwasanaeth hwn wedi'i dorri erbyn hyn ac mae hynny yn ychwanegu llawer o amser at daith y myfyrwyr.

v. Mae'n rhaid i fyfyriwr sydd yn byw yn Nhywyn neu Ddolgellau sy'n dymuno astudio Peirianneg Cerbydau Modur deithio naill ai i Langefni neu'r Drenewydd, ac nid oes unrhyw fodd gwneud hynny wrth ddefnyddio'r gwasanaeth bws. Ond, pe byddai myfyriwr yn dewis yr opsiwn hawsaf, sef y Drenewydd, nid yw Gwynedd yn eu cefnogi o ran teithio.

vi. Nid yw'n bosib i'r mwyafrif o fyfyrwyr Meirionnydd gael mynediad at chwarter y cyrsiau sydd ar gael yng Ngwynedd a Môn gan nad yw'r bysiau yn caniatáu hynny ac mae'n golygu cyfnod maith o deithio. Hyd yn oed yn yr enghreifftiau hyn, nid yw Gwynedd wedi bod yn ddigon hyblyg o ran caniatáu i bobl ifanc gael mynediad at gyrsiau y tu allan i Wynedd a rhoi cymorth ariannol iddynt tuag at y teithio. Enghreifftiau o'r cyrsiau na all myfyrwyr o bellafoedd de Gwynedd gael mynediad atynt yn yr ardal hon yw Peirianneg Drydanol, Peirianneg Forol, Weldio, Peirianneg Cerbydau Modur, Crefft Saer Maen, y rhan fwyaf o gyrsiau sy'n seiliedig ar y tir (oni bai y gallant fforddio lletya yno neu fodloni'r meini prawf am grant), Datblygu Gemau, Ymarferwr TG, Cerddoriaeth, Celfyddydau Perfformio, Teithio a Thwristiaeth, Y Cyfryngau Creadigol, dim Chwaraeon lefel 2, ac ati. Mae hyn yn cyfyngu ar y dewis ac yn culhau gorwelion.

vii. Mae'r pryder olaf a fynegwyd yn sgil y cyfyngiadau o ran pa fysiau a ellir eu defnyddio a pha bryd yn golygu nad oes modd i fyfyrwyr sy'n penderfynu aros ymlaen i weithio wneud hynny.

**9.8 Argymhelliad:**

**a) Dylid cael Polisi Cludiant Ôl-16 pwrpasol a mwy hyblyg sydd yn ystyried modd y dysgwyr/myfyrwyr a'u teuluoedd i dalu am gostau cludiant**

**b) Mae angen Polisi Cludiant Ôl-16 sydd yn gyson ar draws Gwynedd.**

**c) Mae angen adolygu'r dalgylchoedd i leihau amseroedd a phellteroedd teithio dysgwyr/myfyrwyr yn unol â'r Canllaw Statudol Teithio gan Ddysgwyr**

- **rhaid i awdurdodau lleol ystyried y ffaith na ddylai'r trefniadau teithio a wnânt, yn sgil asesiad, achosi unrhyw lefelau afresymol o straen, ac na ddylai'r daith gymryd cyfnod afresymol o amser a rhaid i'r daith honno fod yn ddiogel.**

**ch) Dylid sicrhau cyfle cyfartal i ddysgwyr/myfyrwyr.**

**d) Mae angen i'r darparwyr addysg Ôl-16 gydweithio i roi systemau yn eu lle i gasglu data er darganfod os ydi costau teithio yn arwain i fyfyrwyr ddisgyn allan o addysg bellach.**

## 10. Effaith Gweithredu'r Polisi Cludiant Ôl-16 ar Ddysgwyr a'u Teuluoedd

### 10.1 Canlyniadau Holiaduron Mis Mai a Mehefin 2014

i. Mae canlyniadau'r holiaduron yn dangos bod anhyblygrwydd y gwasanaeth yn creu trafferthion i ddysgwyr/myfyrwyr a'u teuluoedd.

ii. Cwblhawyd 21 holiadur gan ddysgwyr/myfyrwyr **(Atodiad 4)** a 32 gan deuluoedd dysgwyr/myfyrwyr **(Atodiad 5)** yn ystod mis Mai a Mehefin 2014.

iii. Mewn ymateb i'r cwestiwn 'A wnaeth costau teithio ddylanwadu ar ddewis ysgol/coleg/cwrs?' fe wnaeth 17 ateb 'Do/Do i raddau' a 28 yn dweud 'Na' gyda 8 heb ateb y cwestiwn.

iv. Mae 26 yn talu mwy ar ben cost y tocyn teithio bob wythnos gyda 2 yn gwneud hynny bob dydd, gyda'r gost ychwanegol yn amrywio o lai na £2.50 y dydd i fwy na £10 y dydd.

v. Gwelwyd bod rhan helaeth o'r rhai wnaeth gwblhau'r holiadur yn dweud eu bod yn teithio gyda bws neu fws gyda thocyn teithio cludiant ac yn gwneud hynny oherwydd mai dyna'r unig ddewis oedd ganddynt.

vi. Wrth holi am yr wybodaeth a dderbyniwyd cyn gadael yr ysgol a chan bwy, mae'r canlyniadau yn dangos bod ychydig dros hanner yn dweud na wnaethant dderbyn gwybodaeth.

vii. Mae'r canlyniadau yn dangos hefyd bod rhan fwyaf wedi derbyn gwybodaeth bod posib gwneud cais am gymorth ariannol drwy'r coleg, gyda 16 yn dweud na chawsant wybodaeth gan neb.

viii. Mewn ymateb i'r cwestiwn 'Pa mor hwylus ydi'r ddarpariaeth?, atebodd 9 bod y ddarpariaeth yn hwylus iawn/hwylus. Atebodd 13 bod y ddarpariaeth yn weddol hwylus/dim yn hwylus a 4 yn dweud nad ydi'r ddarpariaeth yn hwylus o gwbl gydag 1 heb ateb.

ix. Dyma rai o'r rhesymau dros nodi nad ydi'r ddarpariaeth yn hwylus:-

a) "Mae hi wedi gorfod symud i Nefyn (gan aros â ffrindiau a theulu) gan fod cyrraedd Porthmadog i ddal y bws mor anodd. Nid yw cerdded i Benrhyn yn opsiwn gan y byddai'n rhaid iddi adael mor gynnar, ac mae'r ffordd yn beryglus iawn."

b) "Y tocyn teithio ond yn ddilys ar rai adegau - mae fy mhlentyn wedi gorfod talu pris oedolyn am deithio ar achlysuron e.e. ar ôl ymarfer côr, darlithoedd yn newid neu gael eu canslo! Ar un achlysur cafodd fy merch

ei gyrru oddi ar fws oherwydd nad oedd ei thocyn yn ddilys ac nid oedd ganddi arian a bu'n rhaid iddi aros ym Mhwllheli am dair awr!!"

c) "Coleg yn cau am hanner dydd ar ddydd Mercher ond ni chânt ddefnyddio eu tocyn teithio tan 4.30pm (y bws arferol)"

ch) "Mae'n rhaid talu os wyf i eisiau mynd adref yn gynnar. Dim ond bws 8.07am neu 9.07am gaf i ei ddal yn y bore ac yna 16.40 a 17.40 yn y prynhawn os fydda i'n defnyddio'r tocyn teithio."

d) "Nid yw'r tocyn teithio yn ddilys ar fysus eraill dim ond ar yr un yn y bore a'r pnawn, ac ar rai diwrnodiau nid oes gennyf wersi ac felly yn gorfod aros o gwmpas yn gwneud dim er mwyn disgwyl am y bws pnawn, neu dalu £3.50 am fws arall, sy'n ddrud iawn os ydw i'n gwneud hyn yn wythnosol!"

dd) "Mae £60 yn ddrud iawn".

x. Deallwyd bod teulu dysgwr Ysgol Arbennig wedi derbyn bil hwyr am Dymor 1 (yn ystod Tymor 2) llynedd ac wedi gwrthod talu gan ddweud y byddai wedi cludo ei phlentyn ei hun os byddai yn gwybod cost y cludiant ar ddechrau'r flwyddyn addysgol.

**10.2 Canlyniadau Holiaduron 'Clywed'**

i. Daeth grŵp o 8 o bobl i drafod efo Clywed - 7 rhiant ac 1 dysgwr o ardal Arfon. Yr oedd 6 yn teithio efo bws a 2 efo rhiant neu oedolyn arall.

ii. Mewn ymateb i'r cwestiwn: 'A wnaeth costau teithio ddylanwadu ar ddewis cwrs/coleg/ysgol', fe wnaeth 3 ymateb 'do/do i raddau'. Un yn unig oedd wedi prynu tocyn cludiant - tocyn £60.

iii. O ran derbyn gwybodaeth cyn gadael yr ysgol, fe wnaeth 5 ddweud na wnaethant dderbyn unrhyw wybodaeth am gludiant, y gost nac sut i geisio am gymorth ariannol. Fe wnaeth un ddweud ei f/bod wedi derbyn gwybodaeth am y cludiant ond heb dderbyn gwybodaeth am y gost na'r cymorth ariannol sydd ar gael. Fe wnaeth un arall nodi nad oedd yn gwybod. Fe wnaeth dau dderbyn gwybodaeth gan yr ysgol, un gan riant ac un arall wedi darganfod gwybodaeth ar wefan 'Cyllid Myfyrwyr Cymru'.

**10.3 Canlyniadau Holiaduron Gyrfa Cymru Porthmadog**

i. Cwblhawyd 14 holiadur yn Swyddfa Gyrfa Cymru Porthmadog. 8 o ardal Dwyfor, 4 o ardal Meirionnydd a 2 o ardal Arfon.

ii. Mae canlyniadau'r holiaduron gwblhawyd yn dangos bod 4 wedi bod yn teithio rhwng 10 a 20 milltir gyda 2 wedi bod yn teithio rhwng 30 a 50milltir.

iii. Bu i 6 deithio ar y bws efo tocyn teithio cludiant y Cyngor oherwydd hwn oedd yr unig ddewis ganddynt.

iv. Mae canlyniadau'r holiaduron yn dangos bod 12 allan o'r 14 wedi mynd ymlaen i addysg bellach gyda 6 wedi cwblhau eu cwrs, 4 heb gwblhau gyda 2 heb ateb y cwestiwn.

v. Mae 8 wedi nodi nad oedd costau teithio wedi dylanwadu ar eu dewis cwrs / ysgol / coleg.

vi. Fe wnaeth 5 ateb y cwestiwn 'Pa mor hwylus oedd y ddarpariaeth i chi?', gyda 3 yn nodi bod y ddarpariaeth yn hwylus iawn/hwylus. Dyma'r rhesymau dros nodi nad oedd y ddarpariaeth yn hwylus:

   a. "It was fairly convenient but once Padarn buses left, there was no college bus which made me at least 30 minutes late which affected my EMA."

   b. "Distance – Connections. I am in Llangefni travelling from Morfa Nefyn. Not getting to college until after 11am due to bus leaving early. Pay more than £10 a day due to connections."

vii. Gwelwyd bod 4 yn talu mwy ar ben cost y tocyn teithio bob dydd gyda un person yn talu £10.

viii. Mae 3 allan o 6 a wnaeth ateb, yn dweud bod yna gwrs coleg oeddent yn dymuno gwneud ond nid oedd ar gael yn lleol.

ix. Wrth holi am yr wybodaeth a dderbyniwyd cyn gadael yr ysgol a chan bwy, mae'r canlyniadau yn dangos bod dros hanner yn dweud na wnaethant dderbyn gwybodaeth.

x. Mae'r canlyniadau yn dangos bod 6 wedi derbyn gwybodaeth bod posib gwneud cais am gymorth ariannol drwy'r coleg, 3 gan Swyddfa Gyrfa, 2 gan yr ysgol, gyda 2 yn dweud na chawsant wybodaeth gan neb.

**10.4 Grŵp Colegau Llandrillo Menai**

A. <u>Coleg Menai, Bangor</u>

i. Gwahoddwyd 12 o fyfyrwyr i Grŵp Ffocws ar safle Ffordd Ffriddoedd Bangor ar 2 Hydref 2014. Fe wnaeth 5 o fyfyrwyr o Goleg Menai Llangefni ddod i'r Grŵp Ffocws. Yr oedd un yn gynrychiolydd Undeb y Myfyrwyr, tri yn fyfyrwyr o Arfon ac 1 myfyriwr o Lanfairfechan.

ii. Mae'r daith i rai myfyrwyr sydd yn byw yng Ngwynedd i fynychu Coleg Menai Llangefni yn hir iawn ac yn golygu newid bws ar y ffordd. Yr oedd y mwyafrif o'r farn bod y gyrwyr bysus yn hoffus a chyfeillgar. Mae bysus hwyr yn creu trafferthion mawr i'r myfyrwyr.

iii. Gwnaed y sylw bod y gwasanaeth yn gostus o gymharu â £60 y flwyddyn yn Sir Fôn ac nad ydi'r tocyn teithio yn caniatáu hyblygrwydd i fyfyrwyr deithio ar unrhyw amser o'r dydd.

iv. Yr oedd un o'r myfyrwyr yn fam i blentyn ifanc yn talu £100 y tymor am ei bod dros 19oed. Gwnaed y sylw hefyd nad oedd pris gostyngol i fyfyrwyr dros 21oed.

v. Gofynnwyd i'r myfyrwyr flaenoriaethu'r prif faterion sydd angen sylw er gwella'r gwasanaeth a nodwyd y canlynol yn ôl blaenoriaeth:-

   a. Mae angen torri'r costau er creu system deg i bawb.
   b. Adolygu'r gwasanaeth pas bws - oedran a'r gost
   c. Adolygu'r amser y gallwn ddefnyddio'r pas bws yn ôl a blaen o'r coleg
   ch. Adolygu'r ffordd o dalu am y pas bws.

vi. Sylwadau gan y myfyrwyr:

vii. "Yr wyf yn talu £5.80 yn ychwanegol ar gyfer mynychu lleoliad gwaith un waith yr wythnos."

viii. "Cychwyn o'r cartref am 8.10am a chyrraedd y Coleg am 9.10am gyda hanner awr o'r amser hwn yn mynd yn codi myfyrwyr o Fangor."

ix. "Ers i Buses Padarn stopio mae llai o fysus ac i gyd ar amseroedd anghyfleus (sylw'r cynrychiolydd undeb myfyrwyr)"

x. "Yr wyf yn gorfod codi'r plentyn i fyny am 5.30pm. Os ydw i'n methu'r bws neu fod y bws yn hwyr - mae'r gofalwr y plentyn yn mynd dros ei hamser."

xi. "Nid yw Cyngor Gwynedd yn darparu buses ar gyfer rhywun nad ydynt yn byw yng Ngwynedd."

B. <u>Coleg Meirion Dwyfor Pwllheli</u>

i. Gwahoddwyd 12 o fyfyrwyr i'r Grwp Ffocws ar safle Pwllheli. Yr oedd naw myfyriwr yn bresennol. Yr oedd y myfyrwyr yn defnyddio'r trên a bws i fynd yn ôl a blaen i'r Coleg. Yr oedd saith o'r myfyrwyr yn weddol hapus efo'r gwasanaeth gyda dau ddim yn hapus o gwbl. Mae y mwyafrif o'r myfyrwyr yn teithio rhwng 10 a 20 milltiroedd gydag un yn teithio 29 milltir o Dyffryn Ardudwy.

ii. Yr oedd y myfyrwyr i gyd yn gwneud y sylw nad oeddent yn cael defnyddio eu pas bws ar bob bws ac yn gorfod talu pris oedolyn i fynd adref yn gynt pan ar hanner diwrnodau yn y coleg. Mae'r gost yma ar ben cost y tocyn cludiant. Mae'r myfyrwyr angen hyblygrwydd fel eu bod yn gallu defnyddio'r tocyn ar amseroedd sydd yn gyfleus iddynt hwy.

iii. Mae'r coleg yn cau am hanner diwrnod bob dydd Mercher. Rhai myfyrwyr ar gyrsiau hanner diwrnod dwywaith yr wythnos. Agwedd gyrwyr y bysus eraill yn gas a bygythiol.

iv. Cwmni Arriva yn rhedeg y bws a'r trên ond nid ydynt yn caniatáu i'r myfyrwyr ddefnyddio'r tocyn cludiant ar y bws a'r trên - un neu'r llall ydi'r dewis. Nid ydyw amseroedd y trên yn rhedeg ar yr amser cywir ac nid ydyw bob amser yn gyfleus. Agwedd y stiward trên yn wael iawn ac yr oedd wedi gwrthod cymryd y pas trên yr wythnos gyntaf i'r coleg.

v. Mae myfyrwyr yn gorfod disgwyl o gwmpas am oriau ym mhob tywydd.

vi. Gofynnwyd i'r myfyrwyr flaenoriaethu'r prif faterion sydd angen sylw er gwella'r gwasanaeth a nodwyd y canlynol yn ôl blaenoriaeth:-

  a. Angen cael defnyddio'r pas bws ar unrhyw fws ac ar unrhyw amser i fynd yn ôl a blaen i'r coleg.
  b. Angen cael defnyddio'r un pas i deithio ar y trên a'r bws.
  c. Newid agwedd y gyrwyr bysus cyhoeddus a'r stiward trên.

vii. Sylwadau gan y myfyrwyr :

viii. "Gorffen coleg 4.30pm ond nid yw'r trên yn gadael tan 5.45pm"

ix. "Bws rhif 8 i'r coleg yn rhy fuan – cyrraedd Pwllheli awr a chwarter cyn i'r coleg gychwyn. Bws rhif 9 fel rheol yn hwyr ac felly yr wyf yn cyrraedd y coleg yn hwyr"

x. "Ddim yn gwybod faint i'w dalu pan fyddaf ar hanner diwrnod gan fod rhai gyrwyr yn codi £2.20 ac eraill yn codi £3.50 am yr un daith. Pam bod rhaid talu am bob cysylltiad? Nid yw'r drefiars i weld yn deall y polisïau ."

xi. "Gyrwyr bysus eraill yn afiach eu hagwedd - heblaw am y bws coleg."

xii. “Dim ond un bws coleg i Ddolgellau - nid oes bysus cyhoeddus ar yr amser priodol.”

xiii. “Dim pob bws yn mynd i fy mhentref – Tremadog ac nid oes safle bws efo to yno”.

xiv. “Yr oedd y gwasanaeth bws y llynedd yn lle’r gwasanaeth trên yn wael. Wedi talu am bas bws ond yr oedd y gwasanaeth ar gael am ddim!”

xv. “Angen ystyried cael bws pwrpasol sydd ond yn cludo myfyrwyr i’r coleg yn y bore.”

xvi. Dywedodd y myfyrwyr eu bod wedi derbyn g wybodaeth am drafnidiaeth ar yr amser cofrestru yn y Coleg.

C. <u>Coleg Meirion Dwyfor Dolgellau</u>

i. Gwahoddwyd 12 myfyriwr i’r Grŵp Ffocws ar safle Dolgellau. Yr oedd deg myfyriwr yn bresennol gyda’r mwyafrif yn defnyddio bws i fynd yn ôl a blaen i’r Coleg ac yn teithio rhwng 10 a 25 milltiroedd gydag un yn teithio 47 milltir o Forfa Nefyn.

ii. Yr oedd dosbarth y myfyrwyr oedd yn astudio ‘Harddwch a Gwallt’ wedi paratoi nifer o sylwadau o flaen llaw. Mae myfyrwyr lefel 3 yn cychwyn am 1pm a gorffen am 7pm ac felly nid ydynt yn cael defnyddio’r pas bws.

iii. Gwnaed nifer o sylwadau bod y gost yn ddrud ac nad oedd pawb yn gallu fforddio’r gost gan nad oedd rhai yn derbyn lwfans cynnal addysg a dim pob rhiant oedd yn gallu fforddio cynnal eu plant drwy goleg. Gwnaed sylw am anhegwch y ffaith bod rhai yn talu £60 ac eraill yn gorfod talu £100. Gwnaed sylwadau hefyd am y ffaith nad oes gostyngiad pris i’r myfyrwyr dros 21oed.

iv. Mae’r tymor cyntaf yn anodd gan nad ydi’r lwfans cynhaliaeth addysg yn cyrraedd tan ar ôl y mis cyntaf ac nid oes cyfnod gras ar gyfer y rhai sydd yn hwyr yn cofrestru.

v. Yr oedd y myfyrwyr yn bryderus iawn am eu diogelwch ar bws Blaenau Ffestiniog oherwydd bysus gorlawn. Nodwyd hefyd bod bwlio ar y bws.

vi. Er bod y pas yn nodi’r hawl i deithio yn ôl a blaen i’r Coleg, nid yw'r pas bws yn caniatáu i’r myfyrwyr deithio ar amseroedd mae eu cyrsiau yn gorffen.

vii. Yr oedd y myfyrwyr oedd yn y coleg am bloc o 14 wythnos yn flin iawn eu bod yn gorfod talu am bas bws bob tymor er nad oeddent yn mynd i’r coleg bob dydd. Yr oedd rhai myfyrwyr yn awgrymu cynllun talu fesul diwrnod yn hytrach na bob tymor.

viii. Gofynwyd i’r myfyrwyr flaenoriaethu y prif faterion sydd angen sylw er gwella’r gwasanaeth a nodwyd y canlynol yn ôl blaenoriaeth:-

a. Mae’r gost yn ormod.
b. Angen dau fws ar gyfer Blaenau Ffestiniog.
c. Need to be able to use the bus pass for travelling to and from College.

ix. Sylwadau gan y myfyrwyr

x. Mae cost y pas bws yn ddrud ac mae £100 yn ormod.

xi. Y gwasanaeth ddim yn hyblyg - "Costio £1 i fynd adref ar ôl 1pm yn y prynhawn er bod gennym bas bws. Rydym wedi talu am bas bws i'w ddefnyddio ar gyfer mynd yn ôl ac ymlaen i'r Coleg fel y nodir ar y pas bws ond nid ydi hyn yn bosibl." "Nid yw'r pas bws yn gwneud beth mae yn ddweud ar y cerdyn." "Nid yw'r gwasanaeth yn ddigon hyblyg pan yr ydym ar hanner diwrnod." " Methu defnyddio'r pas bws ar rai o'r bysus."

xii. "Dim yn cael talu i fynd ar fws coleg 502." " Nid ydym bellach yn cael talu yn ddyddiol ar y bws sydd yn gorfodi rhai myfyrwyr i wario mwy na sydd angen."

xiii. "Dim digon o le ar y bws, angen dau fws, dim llawer of fysus, ac mae tua 10 yn gorfod sefyll am 15 milltir a ninnau wedi talu am sedd." "Trafnidiaeth ychwanegol wedi ei drefnu weithiau pan oedd y bws yn llawn ond anaml iawn." "Myfyrwyr wedi cael ei bwlio ar y bws."

xiv. "Buasai myfyrwyr dros 19 ar fy nghwrs yn gorfod talu o leiaf £20 yn fwy wrth brynu pas bws."

xv. "Y cwrs yn y lleoliad anghywir. Gorfod teithio i Dolgellau ar gyfer cwrs adeiladwaith sydd ddim ar gael ym Mhwllheli."

xvi. "Teithio o Blaenau i Glynllifon i wneud cwrs Gofal Anifeiliad. Oriau teithio yn rhy hir gan nad oedd bws uniongyrchol. Wedi newid cwrs a mynychu safle Dolgellau ar ol tair wythnos."

xvii. "Ffordd hawdd i deithio." "Mae yn ffordd gyson o deithio i'r coleg." "Hapus efo'r gwasanaeth a ddarperir." "Bysus yn mynd yn ddigon aml."

xviii. Gwybodaeth teithio wedi ei rannu yn y pecyn derbyn gan y Coleg.

**Argymhellion:**

**a) Dylid darparu gwasanaeth addas, pwrpasol a hwylus i addysg bellach gan sicrhau na fydd yn achosi lefelau afresymol o straen na chymryd cyfnod afresymol o amser yn unol â'r Canllaw Statudol Teithio gan Ddysgwyr.**

**b) Dylid gosod mesuryddion gofal cwsmer pwrpasol ar gyfer y gwasanaeth.**

## 11. Cofnod Cwynion / Sylwadau

11.1 Fel y nodwyd eisoes ym mhwynt 7 o dan y pennawd 'Gweinyddiaeth', mae Galw Gwynedd yn cadw cofnod o gwynion / sylwadau ar system Seibel.

11.2 Fe wnaethom ddadansoddi'r 142 cwyn/sylw yng nghofnodion Galw Gwynedd o Ionawr 2013 hyd at Ragfyr 2013 i nifer o benawdau. Yr oedd y penawdau canlynol yn dod yn amlwg:

i. Anhyblygrwydd gwasanaeth (36)
ii. Cwestiynu os oedd y gost yn gywir (24)
iii. Ymholiadau cyffredinol (22)
iv. Yr oedd niferoedd y sylwadau/cwynion rhwng 1-5 yng ngweddill y penawdau

11.3 Dadansoddwyd 100 cwyn/sylw a dderbyniwyd o **fis Mai hyd at Ragfyr 2013** yn yr un modd. Gwelwyd yr un penawdau yn dod yn amlwg yn ystod yr amseroedd prysuraf o ran prynu tocyn:

i. Anhyblygrwydd gwasanaeth (17)
ii. Cwestiynu os oedd y gost yn gywir (21)
iii. Ymholiad cyffredinol (17)

11.4 Mae'r sylwadau hefyd yn dangos bod Galw Gwynedd angen mwy o wybodaeth os ydynt i allu ateb ar yr alwad gyntaf.

11.5 Mae'n ymddangos nad ydi'r dysgwyr yn ymwybodol

- o'r gost bob tro,
- o'r drefn,
- y bysus maent yn cael teithio arnynt a'r
- amseroedd maent yn cael teithio efo'r tocyn.

11.6 Mae 35 cwyn/sylw o Ionawr 2014 hyd at 6 Mai 2014 gyda 6 cwyn/sylw am amserlenni bws, bysus hwyr a chysylltiadau bysus yn creu problemau i ddysgwyr.

11.7 Deallwyd bod yr Adran Addysg yn delio efo'r sylwadau/cwynion ac yn nodi hynny wedyn ar y system Seibel i gau'r cofnod.

11.8 Mae'r enghreifftiau isod yn cynnwys dadansoddiad Galw Gwynedd wrth gofnodi'r materion.

11.9 Enghreifftiau o'n dadansoddiad ni o anhyblygrwydd gwasanaeth:-

i. "Rhaid i ***** adael yn gynnar gynnar ar ddydd Mercher a gweithio'n hwyr ar ddydd Iau – cael problemau gyda'r gyrrwr bws yn gwrthod eu gadael i ddefnyddio'r pas, hyd yn oed gyda llythyr gan y tiwtor yn egluro pam. Arriva –

Llandrillo Dolgellau – Blaenau Ffestiniog ar ddydd Mercher 13.30 ar fws sy'n gadael ar ôl 7 ar ddydd Iau." Mae Galw Gwynedd wedi cofnodi'r mater o dan 'Materion ymddygiad gyrwyr'.

ii. "Myfyriwr yn trafeilio o Borthmadog i Benygroes ar fws ac yna yn dal tacsi o Benygroes i Goleg Glynllifon. Ar y ffordd adra mae yna awr o aros ym Mhenygroes i aros am y bws coleg. ******* o'r coleg wedi bod ar y lein yn gofyn a oes modd iddi ddefnyddio'r bws gwasanaeth. Mae yna o leiaf 10 myfyriwr yn yr un sefyllfa. Porthmadog i Benygroes yna tacsi o Benygroes i Lynllifon.
Mae Galw Gwynedd wedi cofnodi'r mater o dan 'Cludiant Tacsi'.

iii. "Fe wnaeth ****, ***** geisio mynd ar bws rhif 12 Express Motors o Bwllheli ddoe am 2pm, dywedwyd wrtho na chai ddefnyddio ei bas tan 4.30pm. Aeth ***** yn ôl i'r coleg a chyrraedd adref am 6pm ar ôl talu £1 i'r gyrrwr bws y tro hwn. Bws Express Motors rhif 12 o Bwllheli."
Mae Galw Gwynedd wedi cofnodi'r mater o dan 'Materion ymddygiad gyrwyr'.

11.10 Enghreifftiau o'n dadansoddiad ni o gwestiynu os yw'r gost yn gywir:-

i. "Wyres i ***** angen gwybod pam ei bod wedi gorfod talu £100 am ei thocyn yn hytrach na £60. Nid yw'r cwrs ar gael ym Mhwllheli ac mae myfyrwyr eraill wedi talu £60. Gall rhywun ffonio ********* yn nol i egluro plîs? Diolch."
Mae Galw Gwynedd wedi cofnodi'r mater o dan 'Costau Tocyn'

ii. "Mae'r galwr yn dad i *****. Roedd **** yn mynychu Coleg Glynllifon y tymor diwethaf a nawr wedi newid i Barc Menai. Talodd £60 y tymor diwethaf i deithio o Borthmadog. Mae'r system nawr yn dangos taliad o £100 i deithio i Barc Menai. Allech chi ffonio'r galwr os gwelwch yn dda i gadarnhau faint y dylai ei dalu? Astudio celf."
Mae Galw Gwynedd wedi cofnodi'r mater dan 'Costau Tocyn'.

iii. "Cwsmer wedi talu £60 i Galw Gwynedd 18/9/13. System Siebel yn deud mae £100 ddyla' tocyn fod ond cwsmer yn dweud mai dim ond ym Mangor mae cwrs hair and beauty ar gael. Wedi dweud wrth y cwsmer efallai y bydd rhaid iddo dalu'r £40 ychwanegol."
Mae Galw Gwynedd wedi cofnodi'r mater dan 'Costau Tocyn'.

iv. "Galwr wedi ffonio ddoe ynglŷn â'i merch *****, wedi cael gostyngiad mewn pris o £100 i lawr i £60, felly eisiau sicrhau fod ei mab yn talu'r pris iawn hefyd (£100). Wedi esbonio wrth Mrs **** gan fod ei mab yn 20 hwn yw'r pris iawn ond mae hi eisiau sicrhad."
Mae Galw Gwynedd wedi cofnodi'r mater o dan 'Costau Tocyn'.

11.11 **Argymhelliad:**

a. **Dylid darparu gwasanaeth addas, pwrpasol a hwylus i addysg bellach gan sicrhau na fydd yn achosi lefelau afresymol o straen na chymryd cyfnod afresymol o amser yn unol â'r Canllaw Statudol Teithio gan Ddysgwyr.**

b. **Mae angen sicrhau cyd-ddealltwriaeth y darparwyr addysg bellach a Galw Gwynedd o Bolisi Cludiant Ôl-16 Cyngor Gwynedd.**

c. **Mae angen darparu gwybodaeth berthnasol a phwrpasol i ddysgwyr/myfyrwyr a'u teuluoedd gan ddefnyddio dulliau amrywiol ac addas.**

ch) **Dylid, yn ysbryd Ffordd Gwynedd, sicrhau bod cwestiynau defnyddwyr yn cael eu hateb gan eu cyswllt cyntaf.**

## 12. Cyfathrebu a Chydweithio

12.1 Mae'r Mesur newydd yn nodi'r canlynol o ran 'Cyhoeddi Gwybodaeth':-

'Mae'r ddarpariaeth statudol ynglŷn â Chyhoeddi Gwybodaeth a Pholisïau Trafnidiaeth Ysgol i Rieni yn nodi bod rhaid i'r wybodaeth fod ar gael erbyn 1 Hydref cyn y flwyddyn academaidd sy'n berthnasol i'r wybodaeth.'

'Dylai rhieni fedru deall pa ddewisiadau sydd ar gael iddynt ac unrhyw oblygiadau cost wrth ddewis ysgol ar gyfer eu plentyn. Yn unol â hyn argymhellir y dylai awdurdodau lleol roi gwybodaeth i rieni ynglŷn â threfniadau trafnidiaeth ynghyd â, neu fel rhan o'r wybodaeth sydd ar gael ynglŷn â derbyn plant i'r ysgol.'

**12.2 Trefn Cyfathrebu Cyngor Gwynedd efo dysgwyr a'u teuluoedd.**

12.3 Mae dysgwyr/myfyrwyr Gwynedd yn derbyn gwybodaeth gan nifer o wahanol sefydliadau ar hyn o bryd gyda'r disgwyl iddynt gysylltu â Galw Gwynedd i brynu tocyn teithio ac eithrio'r rhai sydd yn Ysgolion Arbennig.

12.4 Cyn i ddysgwyr adael yr Ysgol, mae'r Adran Addysg yn anfon llythyr safonol at benaethiaid yr ysgolion uwchradd a'r colegau a bydd y penaethiaid yn rhannu'r llythyr efo'r dysgwyr.

12.5 Mae'r llythyr yn cyfeirio at sut i wneud cais a thalu am docyn ac yn cyfeirio at wefan y Cyngor am fwy o wybodaeth. Nid yw'r llythyr yn cyfeirio at gymorth ariannol y gellir gwneud cais amdano drwy Cyllid Myfyrwyr Cymru.

12.6 Mae gwefan yr Adran Addysg yn cynnwys pennawd ysgolion a myfyrwyr gydag is-bennawd a linc i fanylion am y Tocyn Teithio 16+. O dan y pennawd Tocyn Teithio 16+ nodir 'Gall myfyrwyr wneud cais i adnewyddu eu Tocyn Teithio 16+ ar gyfer tymor yr Hydref 2014 o 11 Awst ymlaen' ond does dim cyfeiriad at brynu tocyn o'r newydd. Mae gwybodaeth berthnasol bellach i ddysgwyr ôl-16 ar wefan yr Adran Addysg gyda linc i wefan 'Cyllid Myfyrwyr Cymru'.

12.7 Fel y nodwyd eisoes o dan y pennawd Effaith Gweithredu'r Polisi Cludiant ôl-16 ar Ddysgwyr a'u Teuluoedd mae dros hanner y rhai wnaeth gwblhau holiadur ym mis Mai/Mehefin yn dweud na wnaethant dderbyn gwybodaeth cyn gadael yr ysgol.

12.8 Mae canlyniadau'r holiaduron yn dangos hefyd bod rhan fwyaf wedi derbyn gwybodaeth bod posib gwneud cais am gymorth ariannol drwy'r coleg, gyda 16 yn dweud na chawsant wybodaeth gan neb.

**12.9 Trefn Cyfathrebu Grŵp Colegau Llandrillo Menai efo dysgwyr a'u teuluoedd**

12.10 Mae'r Colegau yn rhannu gwybodaeth ar nosweithiau agored ac yn cysylltu yn uniongyrchol gyda'r ysgolion. Maent yn hysbysu myfyrwyr o'r drefn cludiant gan ddosbarthu amserlen a'r tocyn teithio ar ddechrau pob tymor.

12.11 Dywedwyd wrthym fod pob myfyriwr sydd yn cael ei dderbyn ar gwrs yn cael ei gyfeirio at y Gwasanaeth Myfyrwyr ac yn derbyn gwybodaeth briodol.

**12.12 Argymhelliad:**

**a) Mae angen i Gyngor Gwynedd a'r darparwyr addysg ôl-16 gydweithio'n agos i gryfhau a chysoni'r wybodaeth a ddarperir ar gyfer dysgwyr a'u teuluoedd.**

**b) Mae angen darparu gwybodaeth berthnasol a phwrpasol i ddysgwyr/myfyrwyr a'u teuluoedd gan ddefnyddio dulliau amrywiol ac addas sydd yn sicrhau cyfle cyfartal i bawb.**

## 13. Dealltwriaeth o effaith unrhyw newid i'r Polisi Cludiant Addysg Ôl-16 i'r Awdurdod, ysgolion uwchradd a cholegau addysg bellach, dysgwyr a darpar ddysgwyr a'u teuluoedd mewn gwahanol ardaloedd o'r sir.

13.1 Pe bai'r awdurdod yn penderfynu newid Polisi Cludiant Ôl-16 a chodi pris tocyn teithio byddai angen ymgymryd ag asesiadau effaith y newidiadau er sicrhau bod y penderfyniadau terfynol ar ddarpariaeth y gwasanaeth wedi'u seilio ar hynny yn unol â llythyr Edwina Hart MBE CStJ AC / AM, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.

13.2 Bydd angen ystyried

- yr effaith ar y bobl ifanc a'u teuluoedd
- eu gallu i dalu
- yr effaith ar y mesurydd perfformiad, sef '% y bobl ifanc 16-18oed nad ydynt mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant'. Mae perfformiad Gwynedd yn well na chyfartaledd perfformiad Cymru yn 2013/14 gyda'r tueddiad yn dangos gwelliant.
- yr effaith ar y sefydliadau addysg bellach

13.3 Nodir isod rhai opsiynau a'u heffaith:

I. Tocyn Crwydro Coch - Pe bai'r dysgwyr/myfyrwyr yn prynu tocyn crwydro coch byddai'r gost yn £6.80 y diwrnod sydd yn golygu cost o £32.50 yr wythnos i fynd i'r Coleg/Ysgol.
Byddai'r gost am y tri thymor i'r dysgwyr **ysgol** yn 41 wythnos x £32.50 = £1,332.50.
Byddai'r gost am y tri thymor i'r myfyrwyr **coleg** yn 37 wythnos x £32.50 = £1,202.50

II. Codi'r Un Pris i Bawb - Byddai newid pris/codi'r un pris i bawb am docyn teithio yn arwain at incwm ychwanegol i'r Awdurdod gydag effaith posib ar rai sefydliadau addysg.
   a. Yn 2012/13 gwerthwyd 2098 tocyn £60 a 429 tocyn £100 oedd yn incwm o £168,780 i'r Cygnor
   b. Yn 2013/14 gwerthwyd 2185 tocyn £60 a 409 tocyn £100 oedd yn incwm o £172,000 i'r Cyngor.

- Drwy godi'r pris i £80 i bawb ar sail ffigyrau 2012/13 byddai incwm ychwanegol o £33,380.00 i'r Cyngor. Drwy godi'r pris i £80 i bawb ar sail ffigyrau 2013/14 byddai incwm ychwanegol o £35,520 i'r Cyngor.

- Drwy godi'r pris i £100 i bawb ar sail ffigyrau 2012/13 byddai'r Cyngor yn cael incwm ychwanegol o £83,920.00. Drwy godi'r pris i bawb ar sail ffigyrau 2013/14 byddai incwm ychwanegol o £87,400

- Drwy godi’r pris £20 (£80 a £120) ar sail ffigyrau 2012/13 byddai’r Cyngor yn cael incwm ychwanegol o £50,540. Drwy godi’r pris yn yr un modd ar sail ffigyrau 2013/14 byddai’r Cyngor yn cael incwm ychwanegol o £51,880.

- Drwy godi’r pris 50% ar sail ffigyrau 2012/13 byddai’r Cyngor yn cael incwm ychwanegol o £83,390. Ar sail ffigyaru 2103/14 byddai’r Cyngor yn cael incwm ychwanegol o £73,730.

- Pe penderfynir codi’r un pris i bawb, gall gael effaith ar niferoedd yn mynychu Coleg Dolgellau.

III. Adolygu’r Dalgylchoedd - Pe bai’r Awdurdod yn adolygu’r dalgylchoedd, mae’n bosib y byddai’n cael effaith ar rai o’r Colegau.

IV. Tocyn cludiant am ddim i’r rhai sydd yn derbyn Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) - nid yw’r systemau sydd gan y Cyngor yn ein galluogi i gysylltu’r niferoedd sydd yn derbyn LCA efo’r niferoedd sydd yn defnyddio’r LCA i brynu tocyn bws ar hyn o bryd. Mae’r Cynulliad wedi anfon at y Cyngor yn gofyn am yr wybodaeth yma hefyd a byddir yn edrych ar sut i wneud hyn erbyn y flwyddyn addysgol nesaf.

Ar sail y ffigyrau a ddarparwyd gan yr Adran Addysg: Yr oedd nifer y tocynnau 16+ yn 1230 gyda 470 wedi derbyn LCA. Mae’r ffigyrau yn dangos bod 38.2% o fyfyrwyr/dysgwyr i addysg bellach yn derbyn LCA.

- Ar senario blwyddyn 2012/13:

  Bu i 964 dysgwr/myfyriwr aeth i addysg bellach brynu tocyn ar gyfer Tymor 1 sydd yn cynnwys 36 dros 19 oed. Yn 2012/13 fe gymeradwywyd LCA i 1,028 dysgwr/myfyriwr yng Ngwynedd.

  Ar y dybiaeth bod hanner y 964 dysgwr/myfyriwr mewn addysg bellach yn derbyn LCA byddai angen i’r hanner arall dalu (482 ÷ £168,780.00 = £350.17 y flwyddyn).

  Pe bai ¾ y 964 yn derbyn LCA (723) byddai 240 myfyriwr yn talu £703.25 y flwyddyn.

## 14. Ymestyn y Briff – Opsiynau pellach mwy creadigol

14.1 Derbyniwyd cais yr Aelod Cabinet i ymestyn briff yr ymchwiliad craffu i ystyried opsiynau pellach gan nad yw'r gwasanaeth cludiant ôl-16 yn gallu parhau fel y mae ar hyn o bryd oherwydd y sefyllfa ariannol sydd yn wynebu'r Cyngor. Golyga hyn bod angen i Aelodau'r ymchwiliad craffu ystyried opsiynau / argymhellion mwy creadigol er darparu'r gwasanaeth. Edrychwyd ar y cais fel cyfle i ychwanegu gwerth i'r ymchwiliad gyda phwyslais ar roi'r cwsmer yn ganolog i'r gwasanaeth.

14.2 Yr oedd angen adnabod arbedion yn y gwasanaeth drwy:

- Ystyried hyblygrwydd i'r drefn gyda llai o gyllid
- Trawsnewid y drefn cludiant presennol
- Y broses yn ei lle erbyn tymor ysgol 2015/16

14.3 Bu i'r grŵp ymchwilio i ymarferion awdurdodau eraill a lluniwyd rhestr hir o opsiynau.

14.4 Gyda chymorth hwylusydd annibynnol, trafodwyd y rhestr hir o opsiynau gan ystyried dulliau amgen o ddarparu cludiant yn erbyn yr egwyddorion canlynol a gytunwyd gan y grŵp ymchwiliad craffu:

- Tegwch i bawb
- Agored i bawb
- Hyblygrwydd
- Cost resymol / fforddiadwy
- Amser teithio hyblyg

14.5 Y prif opsiynau a ystyriwyd oedd:

- Cwmni Hyd Braich
- Partneriaeth Trafnidiaeth Leol
- Bysus y Cyngor
- Sgwter – benthyciad
- Benthyciad i brynu Beic Modur / Car
- Bysus Sector Wirfoddol
- Newid dalgylchoedd
- Athrawon/darlithwyr peripatetig
- Rhannu adnoddau ar draws adrannau'r Cyngor
- Trosglwyddo gweinyddiaeth i'r Colegau
- Math o docyn
- Trosglwyddo'r gwasanaeth cyfan i'r Colegau

14.6 Blaenoriaethwyd yr opsiynau i'r drefn ganlynol:

1. Cwmni Hyd Braich
2. Athrawon/darlithwyr peripatetig
3. Math o docyn
4. Benthyciadau
5. Bysus y Cyngor

14.7 Aseswyd yr opsiynau uchod ynghyd a'r opsiwn o Drosglwyddo Gweinyddiaeth i'r Colegau a'r opsiwn o Drosglwyddo'r Gwasanaeth Cyfan i'r Colegau. Aseswyd hyfywedd yr opsiynau, yr arbedion posib, a'r rhagdybiaethau/risgiau gan y Rheolwr Polisi Strategol Adnoddau a'r Uwch Swyddog Ymchwil a Dadansoddeg **(Atodiad 6)**

14.8 Pe penderfynir gweithredu unrhyw newid ym mis Medi 2015, bydd angen i'r drefn fod mewn lle erbyn y Pasg.

14.9 Ystyriwyd yr asesiadau a'r arbedion posib a gwelwyd bod yr opsiynau yn disgyn i rai hir dymor, ac i rai realistic y gellir eu rhoi ar waith yn gynt. Mae'r opsiwn o gael Athrawon / Darlithwyr Peripatetig wedi ei ddatblygu'n barod. Byddai angen gwneud llawer mwy o waith ar Opsiwn 1 ac Opsiwn 5 - Cwmni Hyd Braich a Bysus y Cyngor a gwelir hwy fel opsiynau ar gyfer y dyfodol. Gwelir yr opsiwn o Drosglwyddo'r Gwasanaeth Cyfan i'r Colegau yn opsiwn fyddai yn cymryd amser hir i'w roi mewn lle a byddai maint yr arbediad yn ddibynnol ar faint y cyfraniad fyddai angen ei wneud i Grŵp Colegau Llandrillo Menai.

14.10 O ran Opsiwn 4 – Benthyciadau, yn ddamcaniaethol fe fyddai peth arbedion yn bosibl, ond hyn yn ddibynnol ar delerau'r benthyciadau (byddai graddfa llog is fel 'abwyd' yn golygu cost ychwanegol yn erbyn yr arbedion) a faint fyddai'n cymryd benthyciad. Heb fod yna nifer sylweddol o fyfyrwyr yn cymryd benthyciad, fe fyddai'n annhebygol o arbed costau gan y byddai rhaid parhau i ddarparu'r un cludiant.

14.11 Yr opsiynau realistig a fydd yn sicr o roi arbedion i'r Cyngor ac yn cyfarch anghenion y defnyddwyr fyddai cyfuniad o'r opsiynau canlynol:

<u>Opsiwn 3 - Math o Docyn</u>
Gan fod y Cyngor yn talu'r cwmnïau bysus ar y rhagdybiaeth fod pawb sydd wedi prynu tocyn yn eu defnyddio 2 waith y dydd, 5 dydd yr wythnos ar hyn o bryd, gellid tybio byddai arbediad posibl i'r Cyngor. Gan nad oes gan y Cyngor wybodaeth am ddefnydd y tocynnau mae'n anodd cael ffigwr pendant ar gyfer yr arbediad posibl. O ragdybio byddai 5% o'r tocynnau ddim yn cael eu defnyddio o gwbl byddai arbediad o tua £38k mewn blwyddyn addysgol lawn.

Byddai'r opsiwn yma yn cynnig manteision o safbwynt y myfyrwyr drwy hyblygrwydd y tocyn. Byddai yn gwneud prynu tocyn yn fwy deniadol i fyfyrwyr, gan o bosib gwneud codi tâl uwch yn haws i'w gyfiawnhau. Efallai y dylid ei ystyried felly fel rhan o becyn o welliannau i'r drefn fyddai ynghlwm â chodi'r tâl, yn hytrach nag fel opsiwn ynddo'i hun.

<u>Opsiwn 6 - Trosglwyddo Gweinyddiaeth Tocynnau Cludiant i'r Colegau</u>
Pe byddai'r Awdurdod yn llwyddiannus i gael cytundeb y Grŵp Colegau Llandrillo Menai i weithio fel asiant fel ag y maent yn gwneud i Gyngor Sir Fôn byddai'n bosib y bydd manteision anariannol ac arbediad bychan ariannol – tua £3,912.

Byddai manteision i'r dysgwyr/myfyrwyr a'u teuluoedd a rhyddhad amser swyddogion Galw Gwynedd a Swyddog Adran Addysg sydd yn delio â sylwadau a chwynion.

Opsiwn 7 - Trosglwyddo Gwasanaeth Cludiant i'r Coleg i Grŵp Colegau Llandrillo Menai

Bydd arbedion yn bosibl, ond bydd angen negodi cytundeb cadarn efo Grŵp Llandrillo Menai. Byddai maint yr arbediad yn ddibynnol ar faint y cyfraniad fyddai angen ei wneud i Grŵp Llandrillo Menai.

Yn ogystal, mae'r opsiwn yma yn cynnig yr un manteision a manteision opsiwn rhif 6 – Trosglwyddo Gweinyddiaeth Tocynnau Cludiant Coleg o safbwynt y myfyrwyr a rhyddhad amser swyddogion.

**14.12 Argymhelliad**

**a. Bydd angen i'r drefn fod mewn lle erbyn y Pasg pe penderfynir gweithredu unrhyw newid ym mis Medi 2015. Dylid cofio mai arbedion o fis Medi 2015 - 31 Mawrth 2016 fydd arbediad y flwyddyn gyntaf i'r Cyngor.**

**b. Ar sail y dystiolaeth a ganfuwyd yn ystod yr ymchwiliad craffu argymhellir y dylid ystyried cyfuniad o opsiynau. Opsiynau 3, 6 a 7 - newid i system tocynnau, trosglwyddo gwasanaeth cludiant i'r coleg a gweinyddiaeth tocynnau cludiant coleg i Grŵp Colegau Llandrillo Menai.**

**c. Dylid, ar sail y dystiolaeth a ganfuwyd yn ystod yr ymchwiliad craffu, gosod un pris i bawb.**

**ch. Dylid sicrhau bod y gwasanaeth yn cynnig cyfle cyfartal i fyfyrwyr coleg a dysgwyr ysgolion uwchradd.**

**d. Dylid darparu benthyciadau ariannol i brynu cerbyd / beic modur yn ogystal er hwyluso mynediad at addysg bellach a hyfforddiant.**

**dd. Dylid parhau gyda'r ymarfer da o'r ddarpariaeth athrawon / darlithwyr peripatetig ac adeiladu ar y sylfaen o weithio mewn partneriaeth a'i adolygu'n rheolaidd.**

**e. Dylid cynnal asesiad effaith unrhyw gynnig i newid y ddarpariaeth cludiant a sicrhau bod y penderfyniad terfynol ar sail yr asesiadau hynny.**

## 15. Materion Eraill er Ystyriaeth yr Aelod Cabinet

Mae Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16 yn cynnwys:

- Cytundeb dwy flynedd gyda Democratiaid Rhyddfrydol Cymru er mwyn codi'r Grant Amddifadedd Ysgolion (PDG) o £918 i £1,050 yn 2015-16, ac yna'n codi eto i £1,150 yn 2016-17, ac ymestyn y PDG i blant oed meithrin yn y ddwy flynedd
- Cynllun Tocynnau Teithio Rhatach i Bobl Ifanc ar gyfer pobl ifanc 16-17 oed yn dechrau ym mis Medi 2015

Mae angen i'r Cyngor a'i bartneriaid ddeall proffiliau gwahanol y dysgwyr yn y blynyddoedd cyn y trawsnewid o'r ysgol i addysg bellach. Argymhellir bod y Cyngor, y sefydliadau Addysg a Gyrfa Cymru yn gwella'r gefnogaeth i bobl ifanc cyn ac yn ystod y trawsnewid o'r ysgol i addysg bellach.

Mae angen i'r Cyngor, y sefydliadau addysg a Gyrfa Cymru gydweithio i osgoi dyblygu gwaith a sicrhau bod cefnogaeth i'r dysgwyr/myfyrwyr gan y sefydliad pwrpasol.

## 16. Adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau

**Mae aelodau'r ymchwiliad craffu yn gwerthfawrogi mai mater i'r Aelod Cabinet fydd gweithredu ond maent yn awyddus i'r Pwyllgor Craffu dderbyn adroddiad ar ei ymateb i'r argymhellion yn ei gyfarfod nesaf gydag adroddiad cynnydd ymhen 6 mis.**

**Cydnabyddiaeth**

Dymunwn ddiolch i’r bobl ganlynol am roi tystiolaeth, gwybodaeth werthfawr a’u cydweithrediad parod:

<u>Grŵp Colegau Llandrillo Menai</u>
Mr Phillip Roberts, Rheolwr  Gwasanaethau Dysgwyr
Mr John Elfyn Gruffydd, Rheolwr Gwasanaethau Dysgwyr
Y myfyrwyr wnaeth gymryd rhan yn y Grwpiau Ffocws yng Ngholeg Menai Bangor, Coleg Meirion Dwyfor Pwllheli a Dolgellau.

<u>Ysgolion Uwchradd</u>
Mr Dewi Lake (Ysgol Y Moelwyn ac Ysgol Y Berwyn),
Mr Gareth Morris Jones (Ysgol Botwnnog)
Mr Arwyn Williams (Ysgol Brynrefail)

<u>Gyrfa Cymru</u>
Mrs Sharon Williams, Gyrfa Cymru - Rheolydd Ardal Gwynedd a Môn
Helen Roberts, Gyrfa Cymru, Porthmadog

<u>Clywed</u>
Val Owen, Clywed, Cartref Bontnewydd

<u>Cyngor Gwynedd</u>
Y Cynghorydd Siân Gwenllian, yr Aelod Cabinet oedd â chyfrifoldeb dros y gwasanaeth ar gychwyn yr ymchwiliad.
Y Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet sydd â chyfrifoldeb dros y gwasanaeth.
Owen Owens, Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau (Addysg)
Eluned Williams, Uwch Swyddog Gwasanaethau Ategol (Addysg)
Rhian Wyn Williams, Cydlynydd Cludiant (Adran Rheoleiddio)
Sion Gwynfryn Williams, Rheolwr Cyfathrebu
Jennifer Rao, Cydlynydd Panel Trigolion
Iwan Wyn Jones, Rheolwr Gwybodaeth ac Ymchwil
Nia Morris, Rheolwr Gwasanaeth Ieuenctid
Martin Andrew Roberts, Cydlynydd Gwynedd Ni
Aled Humphreys, Rheolwr Prosiect Arbedion Cludiant Ôl16
Alison Owen, Cydlynydd Hyfforddiant a Swyddog Cyswllt, Canolfan Cyswllt Cwsmer, Penrhyndeudraeth.
Erica Wyn Roberts, Rheolwr Polisi a Chomisiynu Corfforaethol
Emyr Edwards, Rheolwr Polisi Strategol Adnoddau
Nia Wyn Jones, Uwch Swyddog Ymchwil a Dadansoddeg
Elfed Morris, Rheolwr Consortiwm Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 Gwynedd a Môn
Diane Jones, Rheolwr Data, Systemau a Gwybodaeth Strategol Rhan Amser, Swyddfa Consortiwm Addysg.

<u>Eraill</u>
Brian Cotter, Operations Director, EDGE public solutions

# ATODIAD 1

**Cymariaethau Lefel Cyllideb 2013-14**

**Maes Gwasanaeth:** Cludiant Colegau

**Uned Cymharu:** Nifer dysgwyr oed 16-18 mewn sefydliadau Addysg Bellach

| Awdurdod | Cyllideb £'000 | Nifer dysgwyr oed 16-18 mewn sefydliadau Addysg Bellach | Cyllideb fesul uned cymharu £ | Ranc (1=uchaf) | Indecs (canolrif=100) |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 461 | 1,015 | 454.19 | 3 | 228.0 |
| Gwynedd | 893 | 2,265 | 394.26 | 4 | 197.9 |
| Conwy | 369 | 1,885 | 195.76 | 14 | 98.3 |
| Sir Ddinbych | 390 | 1,965 | 198.47 | 12 | 99.6 |
| Sir y Fflint | 664 | 2,565 | 258.87 | 8 | 129.9 |
| Wrecsam | 215 | 2,565 | 83.82 | 20 | 42.1 |
| Powys | 662 | 1,295 | 511.20 | 2 | 256.6 |
| Ceredigion | 357 | 670 | 532.84 | 1 | 267.4 |
| Sir Benfro | 402 | 1,935 | 207.75 | 10 | 104.3 |
| Sir Gaerfyrddin | 770 | 3,050 | 252.46 | 9 | 126.7 |
| Abertawe | 372 | 4,240 | 87.74 | 19 | 44.0 |
| Castell-nedd Port Talbot | 5 | 3,260 | 1.53 | 22 | 0.8 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 367 | 1,835 | 200.00 | 11 | 100.4 |
| Bro Morgannwg | 302 | 1,525 | 198.03 | 13 | 99.4 |
| Rhondda Cynon Taf | 742 | 2,760 | 268.84 | 6 | 134.9 |
| Merthyr Tudful | 99 | 540 | 183.33 | 15 | 92.0 |
| Caerffili | 895 | 2,985 | 299.83 | 5 | 150.5 |
| Blaenau Gwent | 199 | 1,315 | 151.33 | 17 | 76.0 |
| Torfaen | 321 | 1,195 | 268.62 | 7 | 134.8 |
| Sir Fynwy | 109 | 645 | 168.99 | 16 | 84.8 |
| Casnewydd | 196 | 1,700 | 115.29 | 18 | 57.9 |
| Caerdydd | 70 | 4,150 | 16.87 | 21 | 8.5 |

**Cyllideb fesul uned cymharu – ystadegau cryno**

| | |
|---|---|
| Fy awdurdod:  Gwynedd | £394.26 |
| Ranc fy awdurodd ymysg y 'teulu' a ddewiswyd (1+uchaf): | 4 |
| Canolrif y 'teulu' | £199.24 |
| Chwartil uchaf y 'teulu' | £268.79 |
| Chwartil isaf y 'teulu' | £155.75 |
| Y cyfanswm fyddai angen i fy awdurdod ei dynnu o'i gyllideb (os ffigwr –if) neu adio i'w gyllideb (os ffigwr +if) pe bai eisiau cyrraedd lefel:<br><br>Canolrif y 'teulu'<br><br>Chwartil isaf y 'teulu' | <br><br><br><br>- £441.700<br><br>- £540.200 |

**ATODIAD 2**

## 2012-13 Ceisiadau am Lwfansau Cynhaliaeth Addysg a gymeradwywyd

| Awdurdod Addysg Leol – (Pob Canolfan Ddysgu) | | | | Holl Ddyfarniadiau LCA | | | Holl Ddyfarniadau LCA |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | £30 | £20 | £10 | |
| Ynys Môn | . | . | . | 647 | * | * | 652 |
| Gwynedd | . | . | . | 1,003 | 17 | 8 | 1,028 |
| Conwy | . | . | . | 1,248 | 16 | * | 1,268 |
| Dinbych | . | . | . | 992 | 17 | 14 | 1,023 |
| Flint | . | . | . | 1,465 | 21 | 13 | 1,499 |
| Wrecsam | . | . | . | 1,172 | 17 | 9 | 1,198 |
| Powys | . | . | . | 1,176 | 13 | 9 | 1,198 |
| Ceredigion | . | . | . | 602 | 9 | * | 615 |
| Penfro | . | . | . | 1,164 | 19 | 9 | 1,192 |
| Caerfyrddin | . | . | . | 1,763 | 19 | 11 | 1,793 |
| Abertawe | . | . | . | 2,257 | 23 | 13 | 2,293 |
| Castellnedd Port Talbot | . | . | . | 1,506 | 14 | 7 | 1,527 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | . | . | . | 1,310 | 12 | 7 | 1,329 |
| Bro Morgannwg | . | . | . | 1,213 | 6 | 5 | 1,224 |
| Caerdydd | . | . | . | 3,187 | 31 | 14 | 3,232 |
| Rhondda Cynon Taf | . | . | . | 2,432 | 25 | 12 | 2,469 |
| Merthyr Tydfil | . | . | . | 649 | 6 | * | 656 |
| Caerffili | . | . | . | 1,874 | 22 | 12 | 1,908 |
| Blaenau Gwent | . | . | . | 929 | 5 | * | 938 |
| Torfaen | . | . | . | 874 | 12 | * | 887 |
| Sir Fynwy | . | . | . | 681 | 11 | * | 694 |
| Casnewydd | . | . | . | 1,571 | 17 | 9 | 1,597 |
| Tu allan i Gymru | . | . | . | 40 | * | * | 45 |
| Anadnabyddus | . | . | . | 6 | . | . | 6 |
| Yr Holl Geisiadau | . | . | . | 29,761 | 336 | 174 | 30,271 |

Diweddarwyd ddiwethaf: 25 Medi 2013
Ychwanegwyd at Stats Cymru: 25 Medi 2013.
Diweddariad nesaf: Medi 2014.
Ychwanegir at Stats Cymru erbyn: Medi 2014.
Ffynhonnell: *Student Loans Company*
Cysylltwch â: Post16ed.stats@wales.gsi.gov.uk

Mae'r tabl hwn yn cyflwyno gwybodaeth ynghylch nifer y ceisiadau am Lwfansau Cynhaliaeth Addysg (EMA) gan fyfyrwyr mewn ysgolion neu sefydliadau addysg bellach yng Nghymru sydd wedi'u cymeradwyo. Cyflwynwyd cynllun EMA Cymru i bobl ifanc 16 mlwydd oed yn 2004/05, ac fe'i ymestynnwyd i gynnwys pobl ifanc 17 mlwydd oed yn 2005/06 a phobl ifanc 18 mlwydd oed yn 2006/07.

Mae data o 2007/08 ymlaen yn cynnwys rhai pobl ifanc 19 mlwydd oed oedd yn gymwys i dderbyn cymorth.

Mae data 2011/12 yn seiliedig ar geisiadau a dderbyniwyd erbyn 31 Awst 2012 ac a gymerwyd gan y *Student Loans Company* ar 3 Medi 2012.

Mae'r cynllun wedi'i ddylunio fel cymhelliant i fyfyrwyr o deuluoedd gydag incwm is i barhau mewn addysg llawn amser wedi iddynt basio'r oedran addysg statudol. Mae'r EMA yn lwfans wythnosol a delir bob pythefnos i fyfyrwyr mewn sefydliadau yng Nghymru.

O flwyddyn academaidd 2011/12, mae'r meini prawf am yr EMA newydd i fyfyriwr sy'n derbyn dyfarniad o £30 wedi newid, ac nid yw'r dyfarniadau £10 ac £20 ar gael mwyach. Gallai myfyrwyr sy'n newydd i'r cynllun EMA fod yn gymwys am ddyfarniad o £30 yr wythnos, yn ddibynnol ar incwm yr aelwyd ac amgylchiadau'r teulu. Bydd myfyrwyr a dderbyniai EMA yn 2010/11 sy'n dychwelyd i addysg ac sy'n bodloni'r un meini prawf cymhwyster â 2010/11 yn parhau i dderbyn eu EMA, boed hynny'n ddyfarniad o £10, £20 neu £30 yr wythnos. Nid oes unrhyw daliadau bonws pellach (a dalwyd yn flaenorol ym mis Medi, mis Ionawr a mis Gorffennaf), wedi'u gwneud i unrhyw fyfyrwyr.

Mae ffigyrau Stats Cymru ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol yn cael eu diweddaru'n fisol ac roeddynt yn gywir ar adeg cyhoeddi'r ddogfen. Gallant gael eu haddasu yn dilyn prosesu pellach gan y *SLC* , er enghraifft, wedi i geisiadau gael eu hailddosbarthu o EMA i Lwybrau Prentisiaeth neu i'r gwrthwyneb.

Mae'r rhan fwyaf o'r ffigyrau wedi'u talgrynu i'r 5 agosaf. Yn sgil hynny, efallai na fydd symiau rhai llinellau neu golofnau yn adio i'r cyfanswm a nodir.

## 2012-13 Ceisiadau am Lwfansau Cynhaliaeth Addysg a gymeradwywyd

### Cymariaethau efo'r Teulu o Gynghorau yn unig


| Awdurdod Addysg Leol - (Pob Canolfan Ddysgu) | | | | Holl Ddyfarniadiau LCA | | | Holl Ddyfarniadau LCA |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | £30 | £20 | £10 | |
| Ynys Môn | . | . | . | 647 | * | * | 652 |
| Gwynedd | . | . | . | 1,003 | 17 | 8 | 1,028 |
| Conwy | . | . | . | 1,248 | 16 | * | 1,268 |
| Dinbych | . | . | . | 992 | 17 | 14 | 1,023 |
| Ceredigion | . | . | . | 602 | 9 | * | 615 |
| Penfro | . | . | . | 1,164 | 19 | 9 | 1,192 |
| Caerfyrddin | . | . | . | 1,763 | 19 | 11 | 1,793 |

| Awdurdodau Addysg Leol - Ysgolion Uwchradd | | | | Holl Ddyfarniadau LCA | | | Holl ddyfarniadau LCA |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | £30 | £20 | £10 | |
| Ynys Môn | . | . | . | 231 | . | . | 231 |
| Gwynedd | . | . | . | 198 | . | . | 198 |
| Conwy | . | . | . | 497 | * | * | 502 |
| Dinbych | . | . | . | 266 | * | * | 271 |
| Ceredigion | . | . | . | 284 | * | * | 286 |
| Penfro | . | . | . | 491 | * | * | 499 |
| Caerfyrddin | . | . | . | 529 | * | * | 532 |

| Awdurdodau Addysg Leol – (Coleg Addysg Bellach) | | | | Holl ddyfarniadau LCA | | | Holl ddyfarniadau LCA |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | £30 | £20 | £10 | |
| Ynys Môn | . | . | . | 402 | * | * | 407 |
| Gwynedd | . | . | . | 789 | 17 | 8 | 814 |
| Conwy | . | . | . | 731 | 13 | * | 746 |
| Dinbych | . | . | . | 715 | 13 | 12 | 740 |
| Ceredigion | . | . | . | 318 | 8 | * | 329 |
| Penfro | . | . | . | 654 | 15 | 5 | 674 |
| Caerfyrddin | . | . | . | 1,199 | 15 | 10 | 1,224 |

| Awdurdodau Addysg Leol – Canolfan Ddysgu Arall | | | | Holl ddyfarniadau LCA | | | Holl ddyfarniadau LCA |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | £30 | £20 | £10 | |
| Ynys Môn | . | . | . | 14 | . | . | 14 |
| Gwynedd | . | . | . | 16 | . | . | 16 |
| Conwy | . | . | . | 20 | . | . | 20 |
| Dinbych | . | . | . | 11 | * | . | 12 |
| Ceredigion | . | . | . | . | . | . | . |
| Penfro | . | . | . | 19 | . | . | 19 |
| Caerfyrddin | . | . | . | 35 | * | . | 37 |

## AMSER TEITHIO I YSGOL UWCHRADD / TRAVEL TIME TO SECONDARY SCHOOL




Diffiniad amser teithio / Definition of Travel Time :


"Amser cymedrig teithio cerdded (hyd at 800medr) ac mewn bws. Cyfartaledd y 10 trip byrraf".

"Mean journey time walking (up to 800 metres) and by bus. Average of 10 shortest trips."

ATODIAD 4

DADANSODDIAD HOLIADUR - MYFYRWYR


| | | |
|---|---|---|
| **Nifer o holiaduron llawn - Myfyrwyr** | **21** | |
| | | |
| **Pa bentref ydych chi'n byw?** | | |
| Ateb | 20 | 95.24% |
| Dim ateb | 1 | 4.76% |
| | 21 | 100.00% |
| | | |
| | | |
| **Pa ysgol /coleg /addysg bellach ydych chi'n mynychu?** | | |
| Ateb | 20 | 95.24% |
| Dim ateb | 1 | 4.76% |
| | 21 | 100.00% |
| | | |
| **Pa mor bell ydych chi'n teithio i'r ysgol /coleg /addysg bellach?** | | |
| **Ateb** | **Nifer** | **Canran** |
| Llai na 3 milltir | 0 | 0.00% |
| Rhwng 3 milltir a 10 milltir | 6 | 28.57% |
| Rhwng 10 milltir a 20 milltir | 8 | 38.10% |
| Rhwng 20 milltir a 30 milltir | 3 | 14.29% |
| Rhwng 30 millltir a 50 milltir | 2 | 9.52% |
| Dros 50 milltir | 0 | 0.00% |
| Dim ateb | 2 | 9.52% |
| | 21 | 100.00% |




ATODIAD 4

DADANSODDIAD HOLIADUR - MYFYRWYR

| **Sut yr ydych chi'n teithio i'r ysgol /coleg /addysg bellach ran amlaf?** | | |
|---|---|---|
| **Ateb** | **Nifer** | **Canran** |
| Trên | 0 | 0.00% |
| Bws | 11 | 52.38% |
| Bws gyda thocyn teithio cludiant | 6 | 28.57% |
| Rhannu lifft gyda myfyriwr arall | 0 | 0.00% |
| Teithio gyda fy rhiant neu oedolyn a | 0 | 0.00% |
| Cerbyd / beic modur fy hun | 2 | 9.52% |
| Cerdded | 0 | 0.00% |
| Beicio | 0 | 0.00% |
| Arall | 0 | 0.00% |
| Dim ateb | 2 | 9.52% |
| | 21 | 99.99% |





| **Pam ydych chi yn teithio fel hyn?** | | |
|---|---|---|
| **Ateb** | **Nifer** | **Canran** |
| Mae'n haws | 4 | 16.67% |
| Mae'n saff | 1 | 4.16% |
| Mae'n rhatach | 3 | 12.50% |
| Mae'n gyflymach | 2 | 8.33% |
| Yr unig ddewis sydd gen i | 14 | 58.33% |
| Mae fy ffrindiau yn teithio efo fi | 0 | 0.00% |
| Fy rhieni wnaeth benderfynu | 0 | 0.00% |
| Arall | 0 | 0.00% |
| | 24 | 99.99% |




**ATODIAD 4**

**DADANSODDIAD HOLIADUR - MYFYRWYR**


| **A wnaeth costau teithio ddylanwadu ar eich dewis ysgol /coleg /cwrs?** | | |
|---|---|---|
| **Ateb** | **Nifer** | **Canran** |
| Do | 5 | 23.81% |
| Do, i raddau | 6 | 28.57% |
| Naddo | 8 | 38.10% |
| Dim ateb | 2 | 9.52% |
| | 21 | 100.00% |




| **Ydych chi wedi prynu tocyn cludiant am y pris gostyngol o £60 y tymor?** | | |
|---|---|---|
| **Ateb** | **Nifer** | **Canran** |
| Do | 9 | 42.86% |
| Naddo | 10 | 47.62% |
| Dim ateb | 2 | 9.52% |
| | 21 | 100.00% |




| **Pa mor hwylus ydi'r ddarpariaeth bysus i chi?** | | |
|---|---|---|
| **Ateb** | **Nifer** | **Canran** |
| Hwylus iawn | 0 | 0.00% |
| Hwylus | 2 | 22.22% |
| Gweddol hwylus | 3 | 33.33% |
| Dim yn hwylus | 3 | 33.33% |
| Dim yn hwylus o gwbl | 0 | 0.00% |
| Dim ateb | 1 | 11.11% |
| | 9 | 99.99% |




ATODIAD 4


DADANSODDIAD HOLIADUR - MYFYRWYR

| Nodwch beth sydd yn gwneud teithio yn ôl a blaen i'r ysgol /coleg /addysg bellach yn anhwylus. | | |
|---|---|---|
| Ateb | 3 | 100.00% |
| Dim ateb | 0 | 0.00% |

| Faint ydych chi'n gwario ar gostau teithio bob dydd ar ben pris y tocyn cludiant o £60 y tymor? | | |
|---|---|---|
| Ateb | Nifer | Canran |
| Llai na £2.50 | 3 | 33.33% |
| £2.51 - £5.00 | 3 | 33.33% |
| £5.01 - £10.00 | 1 | 11.11% |
| Mwy na £10.00 | 1 | 11.11% |
| Dim ateb | 1 | 11.11% |
| | 9 | 99.99% |





| Faint o ddiwrnodau'r wythnos byddwch yn gwario'r swm yma? | | |
|---|---|---|
| Ateb | Nifer | Canran |
| 1 | 0 | 0.00% |
| 2 | 3 | 33.33% |
| 3 | 3 | 33.33% |
| 4 | 2 | 22.22% |
| 5 | 0 | 0.00% |
| Dim ateb | 1 | 11.11% |
| | 9 | 99.99% |



**ATODIAD 4**


**DADANSODDIAD HOLIADUR - MYFYRWYR**

| **Oedd yna gwrs coleg oeddech yn dymuno gwneud ond nid oedd ar gael yn lleol?** | | |
|---|---|---|
| **Ateb** | **Nifer** | **Canran** |
| Oedd | 1 | 11.11% |
| Nac oedd | 8 | 88.89% |
| Dim ateb | 0 | 0.00% |
| | 9 | 100.00% |




| **Nodwch y manylion:** | | |
|---|---|---|
| Ateb | 1 | 100% |
| Dim ateb | 0 | 0.00% |


| **A gawsoch wybodaeth am y canlynol cyn gadael yr ysgol? [Y math o drafnidiaeth sydd ar gael?]** | | |
|---|---|---|
| **Ateb** | **Nifer** | **Canran** |
| Do | 9 | 42.86% |
| Naddo | 10 | 47.62% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0.00% |
| Dim ateb | 2 | 9.52% |
| | 21 | 100.00% |




ATODIAD 4

DADANSODDIAD HOLIADUR - MYFYRWYR

| A gawsoch wybodaeth am y canlynol cyn gadael yr ysgol? [Y gost?] | | |
|---|---|---|
| **Ateb** | **Nifer** | **Canran** |
| Do | 7 | 33.33% |
| Naddo | 12 | 57% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0.00% |
| Dim ateb | 2 | 9.52% |
| | 21 | 99.99% |





| A gawsoch wybodaeth am y canlynol cyn gadael yr ysgol? [Sut i geisio am gymorth ariannol a phwy sydd yn gymwys?] | | |
|---|---|---|
| **Ateb** | **Nifer** | **Canran** |
| Do | 7 | 33.33% |
| Naddo | 11 | 52.38% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0.00% |
| Dim ateb | 3 | 14.29% |
| | 21 | 100.00% |



**ATODIAD 4**

**DADANSODDIAD HOLIADUR - MYFYRWYR**


| **Sut gawsoch chi wybod bod posib gwneud cais am gymorth ariannol (Lwfans Cynhaliaeth Addysg) gan Cyllid Myfyrwyr Cymru ar gyfer mynd i'r coleg /addysg bellach?** | | |
|---|---|---|
| **Ateb** | **Nifer** | **Canran** |
| Ysgol | 6 | 28.57% |
| Coleg | 10 | 47.62% |
| Gyrfaoedd Cymru | 2 | 9.52% |
| Safle we Cyllid Myfyrwyr Cymru | 1 | 4.76% |
| Canolfan Gwaith | 0 | 0.00% |
| Cyngor Gwynedd | 0 | 0.00% |
| Ni chefais wybodaeth gan neb | 4 | 19.05% |
| Arall | 0 | 0.00% |
| | | 109.52% |
| | 23 | |




# ATODIAD 5
## DADANSODDIAD HOLIADUR - TEULUOEDD

| | | |
|---|---|---|
| **Nifer o holiaduron llawn - Teuluoedd** | 32 | |
| **Pa bentref ydych chi'n byw?** | | |
| Ateb | 29 | 90.63% |
| Dim ateb | 3 | 9.38% |
| | 32 | |
| **Pa ysgol /coleg /addysg bellach mae eich plentyn yn mynychu?** | | |
| Ateb | 28 | 87.50% |
| Dim ateb | 4 | 12.50% |
| | 32 | 100.00% |

| **Pa mor bell mae eich plentyn yn teithio i'r ysgol/coleg/addysg bellach?** | | |
|---|---|---|
| **Ateb** | **Nifer** | **Canran** |
| Llai na 3 milltir | 0 | 0.00% |
| Rhwng 3 milltir a 10 milltir | 12 | 37.50% |
| Rhwng 10 milltir a 20 milltir | 7 | 21.88% |
| Rhwng 20 milltir a 30 milltir | 6 | 18.75% |
| Rhwng 30 milltir a 50 milltir | 3 | 9.38% |
| Dros 50 milltir | 0 | 0.00% |
| Dim ateb | 4 | 12.50% |
| | 32 | 100.01% |





| **Sut mae eich plentyn yn teithio i'r ysgol /coleg /addysg bellach ran amlaf?** | | |
|---|---|---|
| **Ateb** | **Nifer** | **Canran** |
| Trên | 1 | 3.13% |
| Bws | 14 | 43.75% |
| Bws gyda thocyn teithio cludiant | 11 | 34.38% |
| Rhannu lifft gyda myfyriwr arall | 0 | 0.00% |
| Teithio gyda rhiant neu oedolyn arall | 0 | 0.00% |
| Cerbyd / beic modur eu hun | 1 | 3.13% |
| Cerdded | 0 | 0.00% |
| Beicio | 0 | 0.00% |
| Arall | 1 | 3.13% |
| Dim ateb | 4 | 12.50% |
| | 32 | 100.02% |




# ATODIAD 5
## DADANSODDIAD HOLIADUR - TEULUOEDD

| Pam mae eich plentyn yn teithio fel hyn? | | |
|---|---|---|
| **Ateb** | **Nifer** | **Canran** |
| Mae'n haws | 4 | 12.90% |
| Mae'n saff | 2 | 6.45% |
| Mae'n rhatach | 1 | 3.22% |
| Mae'n gyflymach | 1 | 3.22% |
| Yr unig ddewis sydd gen fy mhlentyn | 21 | 67.74% |
| Mae fy mhlentyn yn teithio gyda ffrin | 2 | 6.45% |
| | 31 | 99.98% |





| A wnaeth costau teithio ddylanwadu ar ddewis ysgol /coleg /cwrs eich plentyn? | | |
|---|---|---|
| **Ateb** | **Nifer** | **Canran** |
| Do | 2 | 6.25% |
| Do, i raddau | 4 | 12.50% |
| Naddo | 20 | 62.50% |
| Dim ateb | 6 | 18.75% |
| | 32 | 100.00% |




# ATODIAD 5
## DADANSODDIAD HOLIADUR - TEULUOEDD

| Ydi eich plentyn wedi prynu tocyn cludiant am y pris gostyngol o £60 y tymor? | | |
|---|---|---|
| **Ateb** | **Nifer** | **Canran** |
| Do | 18 | 56.25% |
| Naddo | 9 | 28.13% |
| Dim ateb | 5 | 15.63% |
| | 32 | 100.01% |





| Pa mor hwylus ydi'r ddarpariaeth bysus i'ch plentyn? | | |
|---|---|---|
| **Ateb** | **Nifer** | **Canran** |
| Hwylus iawn | 3 | 16.67% |
| Hwylus | 4 | 22.22% |
| Gweddol hwylus | 5 | 27.78% |
| Dim yn hwylus | 2 | 11.11% |
| Dim yn hwylus o gwbl | 4 | 22.22% |
| Dim ateb | 0 | 0.00% |
| | 18 | 100.00% |





| Nodwch beth sydd yn gwneud teithio yn ôl a blaen i'r ysgol /coleg /addysg bellach yn anhwylus. | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ateb | 5 | 83.33% |
| Dim ateb | 1 | 16.67% |
| | 6 | 100.00% |

# ATODIAD 5
## DADANSODDIAD HOLIADUR - TEULUOEDD


| Faint mae eich plentyn yn gwario ar gostau teithio bob dydd ar ben pris y tocyn cludiant o £60 y tymor? | | |
|---|---|---|
| **Ateb** | **Nifer** | **Canran** |
| Llai na £2.50 | 9 | 50.00% |
| £2.51 - £5.00 | 7 | 38.89% |
| £5.01 - £10.00 | 2 | 11.11% |
| Mwy na £10.00 | 0 | 0.00% |
| Dim ateb | 0 | 0.00% |
| | 18 | 100.00% |




| Faint o ddiwrnodau'r wythnos mae eich plentyn yn gwario'r swm yma? | | |
|---|---|---|
| **Ateb** | **Nifer** | **Canran** |
| 1 | 3 | 16.67% |
| 2 | 6 | 33.33% |
| 3 | 3 | 16.67% |
| 4 | 2 | 11.11% |
| 5 | 2 | 11.11% |
| Dim ateb | 2 | 11.11% |
| | 18 | 100.00% |





| Oedd yna gwrs coleg oedd eich plentyn yn dymuno gwneud ond nid oedd ar gael yn lleol? | | |
|---|---|---|
| **Ateb** | **Nifer** | **Canran** |
| Oedd | 3 | 16.67% |
| Nac oedd | 15 | 83.33% |
| Dim ateb | 0 | 0.00% |
| | 17 | 100.00% |





| **Nodwch y manylion:** | | |
|---|---|---|
| Ateb | 3 | 100.00% |
| Dim ateb | 0 | 0.00% |
| | 3 | |

# ATODIAD 5
## DADANSODDIAD HOLIADUR - TEULUOEDD


| A gawsoch chi neu eich plentyn wybodaeth am y canlynol cyn gadael yr ysgol? [Y math o drafnidiaeth sydd ar gael?] | | |
|---|---|---|
| **Ateb** | **Nifer** | **Canran** |
| Do | 12 | 37.50% |
| Naddo | 14 | 43.75% |
| Ddim yn gwybod | 1 | 3.13% |
| Dim ateb | 5 | 15.63% |
| | 32 | 100.01% |





| A gawsoch chi neu eich plentyn wybodaeth am y canlynol cyn gadael yr ysgol? [Y gost?] | | |
|---|---|---|
| **Ateb** | **Nifer** | **Canran** |
| Do | 11 | 34.38% |
| Naddo | 14 | 43.75% |
| Ddim yn gwybod | 2 | 6.25% |
| Dim ateb | 5 | 15.63% |
| | 32 | 100.01% |



| **A gawsoch chi neu eich plentyn wybodaeth am y canlynol cyn gadael yr ysgol? [Sut i geisio am gymorth ariannol a phwy sydd yn gymwys?]** | | |
|---|---|---|
| **Ateb** | **Nifer** | **Canran** |
| Do | 7 | 21.88% |
| Naddo | 15 | 46.88% |
| Ddim yn gwybod | 3 | 9.38% |
| Dim ateb | 7 | 21.88% |
| | 32 | 100.02% |




| **Sut gawsoch chi neu eich plentyn wybod bod posib gwneud cais am gymorth ariannol (Lwfans Cynhaliaeth Addysg) gan Cyllid Myfyrwyr Cymru ar gyfer mynd i'r coleg /addysg bellach?** | | |
|---|---|---|
| **Ateb** | **Nifer** | **Canran** |
| Ysgol | 5 | 17.85% |
| Coleg | 9 | 32% |
| Gyrfaoedd Cymru | 0 | 0.00% |
| Safle we Cyllid Myfyrwyr Cymru | 1 | 3.57% |
| Canolfan Gwaith | 1 | 3.57% |
| Cyngor Gwynedd | 0 | 0.00% |
| Ni chefais wybodaeth gan neb | 12 | 42.86% |
| Arall | 0 | 0.00% |
| | | 99.99% |
| | 28 | |




**Nodwch beth sydd yn gwneud teithio yn ôl a blaen i'r ysgol /coleg /addysg bellach yn anhwylus.**

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae hi wedi gorfod symud i Nefyn (gan aros â ffrindiau a theulu) gan fod cyrraedd Porthmadog i ddal y bws mor anodd. Nid yw cerdded i Benrhyn yn opsiwn gan y byddai'n rhaid iddi adael mor gynnar ac mae'r ffordd yn beryglus iawn. | | | | | | |
| Dim ond yn gallu defnyddio un math o gludiant gyhoeddus efo'r tocyn gostyngol h.y. y trên. Mae'n gorfod talu ei hun os does na ddim trên gyfleus. Hefyd, ar hyn o bryd nid yw'r trenau'n rhedeg oherwydd ail adeiladu Pont Briwet. | | | | | | |
| Y tocyn teithio ond yn ddilys ar rai adegau- mae fy mhlentyn wedi gorfod talu pris oedolyn am deithio ar achlysuron e.e. ar ol ymarfer côr, darlithoedd yn newid neu gael eu canslo! Ar un achlysur cafodd fy merch ei gyrru oddi ar fws oherwydd nad oedd ei thocyn yn ddilys ac nid oedd ganddi arian a bu'n rhaid iddi aros ym Mhwllheli am dair awr!! | | | | | | |
| Coleg yn cau am hanner dydd ar ddydd Mercher ond ni chânt ddefnyddio eu tocyn teithio tan 4.30pm (y bws arferol) | | | | | | |
| | | | | | | |
| **Oedd yna gwrs coleg oedd eich plentyn yn dymuno gwneud ond nid oedd ar gael yn lleol? Nodwch y manylion:** | | | | | | |
| Dolgellau yw'r coleg lleol, er ein bod yn byw yn Arfon. Roedd y Cyngor yn mynnu bod rhaid iddynt fynd i Ddolgellau. Mae'r coleg oddeutu 54 milltir i ffwrdd ac nid oes siawns o gyrraedd yno cyn 9am oni bai bod y Cyngor yn darparu tacsi i Feddgelert, siwrne'n cymryd 2 awr o gymharu â 30 milltir i Fangor a thaith un ffordd mewn bws am 45 munud. Dim synnwyr yn y peth ac yn wastraff arian llwyr. Dim modd apelio os nad yw'ch coleg lleol yn darparu'r cwrs. | | | | | | |
| Cwrs celfyddydau perfformio ar gael yng Ngholeg Menai yn unig | | | | | | |

**ATODIAD 6**

**Asesiad o'r Opsiynau**

| **Rhif a Theitl yr opsiwn** | **1. Cwmni Hyd Braich y Cyngor** |
|---|---|
| **Cefndir / rheswm dros flaenoriaethu'r opsiwn** | Roedd y ddogfen "rhestr hir syniadau" yn amlinellu datblygiadau diweddar yn Nwyrain Sir Gaer, lle mae'r cyngor yno wedi sefydlu cwmni llwyr-berchnogaeth i fod yn gyfrifol am wasanaethau cludiant. |
| **Asesiad o hyfywedd yr opsiwn** | Mae'n bwysig nodi fod yr hyn wnaed yn Nwyrain Sir Gaer yn llawer ehangach na, ac yn wahanol i, sgôp yr Ymchwiliad Craffu yma.<br><br>Mae'r gweithgareddau allanolwyd yno yn cynnwys croeswyr ffyrdd plant ysgol yn ogystal â chydlynu holl gludiant yr ardal (cludiant cyhoeddus, ysgolion, a gofal cymdeithasol). Nid yw'n cynnwys cludiant ôl-16 o gwbl gan fod yr awdurdod eisoes wedi peidio â darparu hyn, a'r cyfrifoldeb wedi'i drosglwyddo i ysgolion a cholegau.<br><br>Dylid nodi hefyd nad oes bwriad i'r cwmni hyd-braich redeg ei gerbydau ei hunan yn uniongyrchol. Fel yng Ngwynedd, yr hyn wnaed gan y cyngor (a'r cwmni wedyn) ydi trefnu cludiant sy'n cael ei ddarparu yn bennaf gan dendrwyr preifat. Y gwaith <u>cydlynu</u> sydd wedi'i drosglwyddo i gwmni.<br><br>Mae achos busnes Dwyrain Sir Gaer yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd allanoli'r gwasanaeth yn galluogi:<br>• Gwell gwasanaeth i ddefnyddwyr, drwy fod staff yn fwy rhydd i ymateb i'w hanghenion yn hytrach na gofynion cyfundrefn yr awdurdod<br>• Mwy o ddychymyg / "entrepreneuriaeth" er mwyn ehangu gwasanaethau<br>• Ennill incwm drwy gynnig y gwasanaeth i awdurdodau lleol cyfagos, gweithfeydd neu golegau (gan mai colegau sy'n gyfrifol am gludiant yno)<br>• Gwarchod enw da'r awdurdod, gan mai'r cwmni fyddai'n cael eu gweld yn gyfrifol am ddamweiniau neu broblemau yn y gwasanaeth.<br><br>Mae'n deg dweud hefyd fod hyn yn rhan o symudiad gwleidyddol ehangach yno tuag at sefydlu trefniadau o'r fath: *"the desire of the council is for service delivery to migrate to external delivery vehicles wherever possible"*.<br><br>Mae cwestiwn felly pa mor berthnasol yw'r syniad i'r Ymchwiliad yma; yn sicr nid yw i weld yn ymarferol sefydlu cwmni i gydlynu cludiant ôl-16 tra'n dal i weinyddu gweddill cludiant yn uniongyrchol. Byddai hynny'n mynd yn erbyn holl gyfeiriad diweddar y Cyngor i gyfuno gweithgareddau cludiant mewn un Uned, ac yn golygu dyblygu a cholli |

<table>
<tr><td></td><td>cydlynedd.<br><br>Gan hynny, mae’r ffigyrau isod yn rhagdybio y byddai’r Cygnor yn allanoli <u>holl</u> weithgaredd cludiant y Cyngor mewn cwmni hyd-braich, ac y byddai cyfran o unrhyw arbediad yn gallu cael ei briodoli wedyn i’r maes ôl-16.</td></tr>
<tr><td>Asesiad o’r arbedion posibl</td><td>Mae achos busnes Dwyrain Sir Gaer yn rhagweld arbediad net o £884k wedi 5 mlynedd, fel a ganlyn:<br><br>
<table>
<tr><td></td><td>Arbediad £’000</td></tr>
<tr><td>Gwerthu’r gwasanaeth i awdurdodau lleol eraill</td><td>400</td></tr>
<tr><td>Cynnig gwasanaeth i weithfeydd a cholegau lleol</td><td>195</td></tr>
<tr><td>Gwasanaeth ymgynghorol i gynghorau eraill</td><td>9</td></tr>
<tr><td>Cost tendrau cludiant is, o ganlyniad i fwy o ryddid ac agwedd fasnachol</td><td>188</td></tr>
<tr><td>Prynu llai o wasanaethau cefnogol gan yr awdurdod</td><td>45</td></tr>
<tr><td>Costau gweithwyr is – aneglur sut –llai o gyfraniad pensiwn ar gyfer gweithwyr newydd?</td><td>47</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm</td><td>884</td></tr>
</table>
<br>Ar y sail fod gwariant Dwyrain Sir Gaer ar gytundebau cludiant oddeutu £10.8m, o’i gymharu â £6.7m yng Ngwynedd, gellid amcangyfrif yn fras felly y byddai arbediad cyfatebol o oddeutu £550k yng Ngwynedd.<br><br>Ar y sail fod cludiant ôl-16 oddeutu 11% o gyfanswm cost cludiant Gwynedd, gellir felly amcangyfrif arbediad “notional” o £60k ar gyfer cludiant ôl-16.</td></tr>
<tr><td>Rhagdybiaethau / risgiau</td><td>Mae maint yr arbediad uchod – yn wir, gallu gwneud arbediad o gwbl – yn dibynnu ar nifer o ragdybiaethau allweddol :<br>• Awydd gan gynghorau eraill cyfagos i brynu’r gwasanaeth – mae bron hanner y ffigwr arbediad yn ddibynnol ar hyn<br>• Y gallu i gynnig gwasanaeth i gyrff eraill. Ni fyddai modd ei gynnig i golegau ôl-16 yng Ngwynedd gan mai’r Cyngor sy’n darparu’r cludiant p’run bynnag, ac mae cwestiwn faint o botensial fyddai i werthu i’r sector breifat mewn ardal fel Gwynedd.<br>• Y byddai cost cludiant yn gostwng o ganlyniad i agwedd fwy masnachol wrth dendro. Tra bod rhywfaint o resymeg ‘synnwyr-cyffredin’ yn hyn, mae’n anodd rhoi ffigwr arno; gellid cwestiynu hefyd a oes rhaid mynd yr holl ffordd i fod yn gwmni i fod ag agwedd fasnachol. Mae’n anodd gwybod hefyd a oes yr un sgôp i ganfod arbedion yng nghytundebau’r ddau awdurdod.<br><br>Dylid nodi hefyd fod amcangyfrifon Dwyrain Sir Gaer yn dangos sefyllfa</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | mwy pesimistig ("achos gwaethaf") sy'n dangos arbediad o £233k wedi 5 mlynedd. Hyn yn cyfieithu i tua £145k yng Ngwynedd neu tua £10k ym maes ôl-16.<br><br>Fel nodwyd uchod byddai hyn yn golygu bod holl faes Cludiant yr awdurdod yn trosglwyddo i gwmni. Mae hyn yn llawer ehangach felly nag Ôl-16, ac fe fyddai nifer o ystyriaethau'n codi o ran dylanwad y Cyngor dros weithgaredd y cwmni a'r ewyllys gwleidyddol i fynd i lawr y llwybr yma. |
| **Casgliadau** | **Mae'r opsiwn hwn yn llawer ehangach na Chludiant Ôl-16 gan y byddai angen cynnwys holl weithgaredd cludiant y Cyngor.**<br><br>**Yn ddamcaniaethol byddai arbedion yn bosibl (£145k - £550k; ond hyn ar draws holl feysydd cludiant y Cyngor). Ond mae hyn yn ddibynnol ar nifer o ragdybiaethau na fyddent o reidrwydd mor berthnasol yng Ngwynedd (yn enwedig y gallu i werthu'r gwasanaeth i gynghorau cyfagos a chyrff eraill).** |

**ATODIAD 6**

| | |
|---|---|
| **Rhif a Theitl yr opsiwn** | **2. Athrawon / Darlithwyr Peripatetig** |
| **Cefndir / rheswm dros flaenoriaethu'r opsiwn** | Roedd y ddogfen "rhestr hir syniadau" yn amlinellu syniad o athrawon/darlithwyr yn symud yn ôl ac ymlaen at y myfyrwyr yn hytrach na myfyrwyr yn teithio atynt hwy. |
| **Asesiad o hyfywedd yr opsiwn** | Mae'n debyg fod angen ystyried y ddau wahanol fath o ddarpariaeth ôl-16 ar wahân, h.y. colegau addysg bellach / trydyddol, a darpariaeth 6ed dosbarth yn yr ysgolion (Arfon + Berwyn).<br><br>O ran y **colegau**, mae cwestiwn faint o ddylanwad fyddai gan y Cyngor i'w cael i newid eu trefniadau er mwyn lleihau'r costau arnom ni. Yn sicr mae darlithwyr yn teithio rhywfaint rhwng safleoedd y colegau eisoes; byddai rhywun yn disgwyl fod ystyriaethau cost eisoes yn elfen bwysig yn hyn (er, nid cost cludiant yn benodol efallai).<br><br>O ran darpariaeth yn yr **ysgolion**, byddai gan y Cyngor fwy o ddylanwad dros y sefyllfa ac mae'r opsiwn yn sicr yn ymddangos yn bosibl. |
| **Asesiad o'r arbedion posibl** | O ran y **colegau**, mae'n anodd iawn asesu a fyddai unrhyw arbedion yn bosibl; rydym wedi methu cael yr wybodaeth fanwl am ddarpariaeth cyrsiau / niferoedd / safleoedd ayb, fyddai ei angen ar gyfer amcangyfrif hyn. Mae'n bosib' fod sefyllfaoedd unigol yn bodoli o dro i dro lle byddai'r Cyngor a'r colegau yn gallu trafod newid y ddarpariaeth er mwyn gostwng costau cludiant. Yn gyffredinol fodd bynnag, gellid tybio y byddai dyblygu'r un cyrsiau ar draws nifer o safleoedd, gyda nifer llai o fyfyrwyr felly ym mhob un, yn golygu costau sylweddol uwch i'r colegau ac mae'n amheus pa mor barod fyddent felly i gydweithredu.<br><br>O ran yr **ysgolion**, mae eto'n anodd asesu arbedion (os byddai rhai o gwbl) heb wybodaeth fanwl iawn am leoliadau cyrsiau / niferoedd disgyblion / trefniadau cludiant ayb. Nid ydym wedi gallu cael gafael ar yr holl wybodaeth yma eto, a byddai angen llawer o waith dadansoddi manwl arno fyddai yn cymryd tipyn o amser.<br><br>O ran egwyddor fodd bynnag, mae'n anodd gweld y byddai arbedion yn deillio ohono. Gellid tybio fod y drefn gyfredol wedi'i datblygu (yn rhannol o leiaf) er mwyn gwneud gwell defnydd o amser athrawon a bod yn fwy cost-effeithiol; mae'n debyg y byddai dyblygu'r ddarpariaeth ar draws mwy o safleoedd yn gwneud rhai cyrsiau yn aneconomaidd i'w darparu.<br><br>*<u>Enghraifft</u>*<br>*Cymerer sefyllfa lle mae disgyblion ôl-16 tair ysgol yn dod at ei gilydd ar gyfer pwnc penodol (h.y. disgyblion dwy o'r ysgolion yn teithio i'r* |

| | |
|---|---|
| | *ysgol arall). Dyweder fod oriau dysgu'r pwnc yn 4 awr yr wythnos (2 awr ddwywaith).*<br><br>*Byddai cael yr athro i ddysgu'r pwnc 3 gwaith, yn y 3 gwahanol safle, yn golygu y byddai angen talu am o leiaf 12 awr yr wythnos ychwanegol o amser athro (8 awr dysgu + dyweder 4 awr teithio (½ awr yno ac yn ôl 4 gwaith)).*<br><br>*Tra byddai cost hyn yn amrywio yn ôl graddfa tâl yr athro, hawdd gweld y gallai fod o leiaf £25,000 y flwyddyn os cymerir costau teithio'r athro i ystyriaeth (nid yw hyn yn cynnwys chwaith unrhyw gostau eiddo uwch).*<br><br>*A fyddai'n werth talu £25k y flwyddyn er mwyn osgoi costau cludiant? Byddai hynny'n dibynnu ar faint o ddisgyblion sydd dan sylw a faint mae'r cludiant yn ei gostio, ond <u>ar gyfartaledd</u> mae cost net cludiant disgybl ôl-16 i'r Cyngor rhwng tua £1,000 - £1,200 y flwyddyn. Felly byddai angen i o leiaf 20 disgybl (rhwng y 2 ysgol arall) fod yn osgoi teithio er mwyn dim ond adennill y costau dysgu ychwanegol; hyn yn annhebygol efallai o ystyried y niferoedd sy'n dilyn cyrsiau o'r fath.*<br><br>Unwaith eto mae'n bosibl fod sefyllfaoedd unigol yn bodoli lle byddai arbediad o gael athrawon yn rhannu'u hamser rhwng safleoedd – mae'n amhosibl dweud o'r wybodaeth sydd gennym. Ond mae'n anodd gweld y byddai'n hyfyw fel polisi cyffredinol. |
| **Rhagdybiaethau / risgiau** | Fel nodwyd uchod mae diffyg gwybodaeth fanwl am niferoedd a natur y ddarpariaeth bresennol yn ei gwneud yn anodd dod at gasgliadau pendant. Mae'n anodd gwybod hefyd a fyddai'r ddarpariaeth yr un fath yn union pe bai athrawon a darlithwyr yn teithio – mae'n bosib na fyddai niferoedd rhai pynciau / cyrsiau yn eu gwneud yn hyfyw o gwbl wedyn. |
| **Casgliadau** | **Er fod diffyg gwybodaeth fanwl yn ein rhwystro rhag dadansoddi'n fanwl, mae'n ymddangos y byddai'r opsiwn hwn yn arwain at ddyblygu amser athrawon a cholli manteision maint o ran ysgolion ac adnodd dysgu; mae'n anodd gweld sut gallai arbedion o sylwedd ddeillio ohono. Mae amheuaeth hefyd faint o ddylanwad fyddai gan y Cyngor i geisio newid darpariaeth y colegau.**<br><br>**Mae'n bosibl fod yna achosion unigol lle gellid gwneud hyn o dro i dro, ac efallai fod yna le i sefydlu ymhellach i ba raddau mae isafu cyfanswm cost (addysgu + cludo) yn cael ystyriaeth wrth benderfynu ar fanylder darpariaeth cyrsiau.** |

| | |
|---|---|
| **Rhif a Theitl yr opsiwn** | **3. Math o docyn** |
| **Cefndir / rheswm dros flaenoriaethu'r opsiwn** | Wedi deillio o drafodaeth yn y gweithdy; y syniad y gellid cael trefn docynnau / 'passes' mwy soffistigedig nag sydd gennym ar hyn o bryd, y gellid eu defnyddio ar unrhyw fws ar unrhyw adeg. Hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i fyfyrwyr ac yn golygu (gan na fyddai rhaid talu am dymor ar y tro) na fyddai "gollwng" cyrsiau yn golygu eu bod wedi gwastraffu'u harian. |
| **Asesiad o hyfywedd yr opsiwn** | Dim rheswm pam na fyddai hyn yn opsiwn hyfyw, er fe fyddai yna gost cyfalaf ynghlwm ag unrhyw dechnoleg newydd (peiriannau 'sganio' tocynnau ayb) fyddai eu hangen i weithredu'r opsiwn. Os byddai modd addasu'r dechnoleg 'tocynnau oed 60+' sydd eisoes yn bodoli yna byddai'r gost cyfalaf yn llawer iawn is (dim rheswm amlwg pam na ellid gwneud hyn). |
| **Asesiad o'r arbedion posibl** | Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn talu'r cwmnïau bysus ar y rhagdybiaeth fod pawb sydd wedi prynu tocyn yn eu defnyddio 2 waith y dydd, 5 dydd yr wythnos.<br><br>Drwy newid i system fwy soffistigedig byddai potensial i dalu llai i gwmnïau bysiau drwy eu bod yn cael eu talu ar sail defnydd go-iawn yn hytrach na'n rhagdybio bod y tocynnau'n cael eu defnyddio bob dydd. Ar hyn o bryd nid oes modd adnabod os ydy pob unigolyn yn gwneud defnydd llawn o'u tocynnau (nac ychwaith pa gwmni bws maent yn defnyddio).<br><br>Amcangyfrifir, ar sail y nifer tocynnau brynwyd yn 2013/14, pe bai dyweder 5% o'r siwrneiau ddim yn cael eu gwneud "go iawn", byddai'r Cyngor yn arbed **tua £38k** pe byddem yn talu'r cwmnïau ar sail gwir ddefnydd**.** Byddai rhagdybio 10% yn arwain at arbediad o **tua £76k.**<br><br>Fel nodwyd uchod mae'n amhosibl gwybod faint yn union o "dan-ddefnydd" sydd yna ar hyn o bryd ac felly faint yn union o arbediad fyddai yna.<br><br>Mae'n bosibl y byddai'r hyblygrwydd ychwanegol a gynigid, yn golygu y byddai myfyrwyr yn fwy parod i dalu tâl uwch am y gwasanaeth, ac y byddai incwm ychwanegol yn gallu deillio felly yn ogystal â'r arbedion uchod.<br><br>Yn erbyn hynny fodd bynnag fe fyddem yn colli rhywfaint o incwm, gan na fyddai raid i fyfyrwyr wedyn dalu ar sail tymor ar y tro ac fe fyddem felly'n colli incwm unrhyw rai sy'n "disgyn allan".<br><br>I grynhoi, mae'n ymddangos felly fod yna arbediad posibl yma ond byddai angen llawer o waith manwl i asesu maint hynny yn gywir. |
| **Rhagdybiaethau / risgiau** | Fel nodwyd fe allai'r opsiwn yma olygu ei bod yn haws codi tâl uwch am y gwasanaeth ond byddai yna nifer o elfennau eraill (anariannol) i'w hystyried cyn gwneud hynny.<br><br>Byddai unrhyw botensial i addasu'r taliadau i gwmnïau bysiau ar gyfer gwir ddefnydd, yn dibynnu ar fanylder sut mae'r drefn yn gweithredu ar hyn o bryd. Fel nodwyd eisoes nid oes modd, ar hyn o bryd, i adnabod os ydi'r tocynnau yn cael eu defnyddio yn llawn, nac ar ba fws mae'r tocynnau yn |

| | |
|---|---|
| | cael eu defnyddio.<br><br>Wrth gyflwyno peiriannau sganio tocynnau dylid nodi bod risg o dwyll yn bosibl fel gyda thocynnau oed 60+. |
| **Casgliadau** | **Gan fod y Cyngor yn talu'r cwmnïau bysus ar y rhagdybiaeth fod pawb sydd wedi prynu tocyn yn eu defnyddio 2 waith y dydd, 5 dydd yr wythnos ar hyn o bryd, gellid tybio byddai arbediad posibl i'r Cyngor. Gan nad oes gan y Cyngor wybodaeth am ddefnydd y tocynnau mae'n anodd cael ffigwr pendant ar gyfer yr arbediad posibl. O ragdybio byddai 5% o'r tocynnau ddim yn cael eu defnyddio o gwbl byddai arbediad o tua £38k.**<br><br>**Byddai'r opsiwn yma yn cynnig manteision o safbwynt y myfyrwyr drwy hyblygrwydd y tocyn. Byddai yn gwneud prynu tocyn yn fwy deniadol i fyfyrwyr, gan o bosib gwneud codi tâl uwch yn haws i'w gyfiawnhau. Efallai y dylid ei ystyried felly fel rhan o becyn o welliannau i'r drefn fyddai ynghlwm â chodi'r tâl, yn hytrach nag fel opsiwn ynddo'i hun.** |

| | |
|---|---|
| **Rhif a Theitl yr opsiwn** | **4. Benthyciad ariannol i brynu cerbydau neu feic modur** |
| **Cefndir / rheswm dros flaenoriaethu'r opsiwn** | Cyflwynwyd syniad o ddarparu benthyciad ariannol i fyfyrwyr i brynu cerbyd/beic modur er mwyn i bobl ifanc gael mynediad i addysg a hyfforddiant. |
| **Asesiad o hyfywedd yr opsiwn** | Byddai'r opsiwn yn ymarferol er y byddai costau gweinyddu ynghlwm. |
| **Asesiad o'r arbedion posibl** | Gan mai benthyciad fyddai'n cael eu gynnig ni fyddai cost yn hyn ar wahan i gostau gweinyddu'r cynllun. (oni bai fod y raddfa llog yn cael ei osod yn is na lefel y farchnad er mwyn ceisio cael mwy i gymryd yr opsiwn).<br><br>Arbediad yn ddibynol ar y nifer fyddai yn cymryd benthyciad ac yn sgil hynny arbed y costau o ddarparu cludiant iddynt (ni fyddai arbediad yn deillio o reidrwydd – e.e. pe bai un neu ddau yn stopio mynd ar fws byddai rhaid dal i ddarparu'r bws).<br><br>Yn <u>ddamcaniaethol</u> gan fod cost net cludiant pob myfyriwr i'r Cyngor oddeutu £1,000 – £1,200 fe fyddai yna arbedion yn deillio; e.e. dyweder pe bai dim ond 10% o fyfyrwyr yn cymryd yr opsiwn fe allai'r arbediad fod yn £80k neu fwy, ond hyn yn gwbl ddibynnol ar allu ail-gyflunio'r ddarpariaeth trafnidiaeth i gyfateb i'r gostyngiad mewn niferoedd – hyn ymhell o fod yn sicr. |
| **Rhagdybiaethau / risgiau** | Rhieni yn fodlon talu? Trwydded, yswiriant, helmed, car ddim yn opsiwn i rai 16 oed. |
| **Casgliadau** | **Yn ddamcaniaethol fe fyddai peth arbedion yn bosibl, ond hyn yn ddibynnol ar delerau'r benthyciadau (byddai graddfa llog is fel 'abwyd' yn golygu cost ychwanegol yn erbyn yr arbedion) a faint fyddai'n cymryd benthyciad. Heb fod yna nifer sylweddol o fyfyrwyr yn cymryd benthyciad, fe fyddai'n annhebygol o arbed costau gan y byddai rhaid parhau i ddarparu yr un cludiant.** |

| **Rhif a Theitl yr opsiwn** | **5. Bysus y Cyngor** |
|---|---|
| **Cefndir / rheswm dros flaenoriaethu'r opsiwn** | Roedd y ddogfen "rhestr hir syniadau" yn amlinellu fod Cyngor Dorset wedi pwrcasu 19 bws (gyda 6 o'r bysiau efo system Teledu Cylch Cyfyng a gwregys diogelwch); 7 bws ysgol 70 sedd a 12 bws gyda mynediad llawr isel fel rhan o fflyd y cyngor. Roeddynt wedi dewis y trywydd yma oherwydd bod diffyg cystadleuaeth rhwng y cwmnïau bysiau wedi golygu costau uwch. Mae'r bysus yma yn cael eu tendro allan i'w defnyddio ar wasanaethau lle nad yw cludiant cyhoeddus yn diwallu'r anghenion. |
| **Asesiad o hyfywedd yr opsiwn** | Ni chafodd y penderfyniad ei wneud yn benodol ar gyfer cludiant ol-16; roedd hefyd ar gyfer cludiant gwasanaethau cymdeithasol a chludiant cyhoeddus. Yn ogystal ,ar y llwybrau gwledig lle nad ydi cludiant cyhoeddus yn diwallu'r anghenion yn unig mae bysus y cyngor yn gweithredu. Bu i Gyngor Dorset bwrcasu'r bysus nol yn 2007, ac o'r herwydd nid oes modd gweld achos busnes y cyngor dros wneud hyn, na'r buddion ddaeth yn sgil y penderfyniad. |
| **Asesiad o'r arbedion posibl** | Dibynnu ar:- Sawl bws fyddai angen, Costau rhedeg a prynu, Cost cyfredol y cwmniau bysus.<br><br>Os yw'n proses dendro yn effeithiol ar hyn o bryd mae'n anodd rhagweld arbdion sylweddol gan y byddai cost rhedeg bysiau yn debyg, p'run ai gan gwmnïau allanol neu'r Cyngor ei hun. |
| **Rhagdybiaethau / risgiau** | Byddai angen i'r Cyngor fod â'r capasiti i gynnal a chadw'r fflyd o fysus, a'u parcio ayb. |
| **Casgliadau** | **Mae'n anodd gweld sut byddai rhedeg cwmni bysus ein hunain yn creu arbedion, ac os y byddai mae'n awgrymu nad yw ein proses tendro ar gyfer cludiant ôl-16 yn effeithiol ar hyn o bryd.** |

| **Rhif a Theitl yr opsiwn** | **6. Trosglwyddo Gweinyddiaeth Tocynnau Cludiant Coleg** |
|---|---|
| **Cefndir / rheswm dros flaenoriaethu'r opsiwn** | Roedd yr opsiwn wedi ei gynnwys ar y "rhestr hir syniadau" oherwydd y darganfuwyd bod Grŵp Llandrillo Menai yn gweithio fel asiant i Gyngor Sir Fôn. |
| **Asesiad o hyfywedd yr opsiwn** | Yr oedd Coleg Menai yn arfer gweinyddu'r tocynnau ar ran Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Fôn cyn i'r ddau Gyngor godi tâl am deithio i sefydliadau addysg bellach. Fe wnaeth Cyngor Sir Fôn barhau efo'r un trefniant drwy i Goleg Menai gytuno bod yn asiant iddynt.<br><br>Deallwyd gan Adran Addysg, Cyngor Sir Fôn eu bod yn gofyn am £60 y flwyddyn i Goleg Menai, gyda'r Coleg wedyn yn codi ffi weinyddol o 7.5% o'r gwerthiant ar y Cyngor. Mae'r gwaith yn cynnwys casglu'r arian a thalu'r Adran Addysg yn uniongyrchol. Mae Coleg Menai yn anfon anfoneb i Gyngor Ynys Môn am 7.5% o'r gwerthiant llai'r £60.<br><br>Mae tocynnau ar gyfer plant ysgol Cyngor Sir Fôn yn cael eu gweinyddu gan y Cyngor ac adroddwyd bod y drefn ar gyfer ysgolion yn drafferthus gan fod y tocyn yn un plaen ar gyfer plant ysgol.<br><br>Manteision trefn Cyngor Sir Ynys Môn i'r myfyriwr ydi<br>- cael tocyn ar y diwrnod,<br>- trafod efo un sefydliad yn hytrach na dau neu dri,<br>- mae'r tocyn yn nodi'r bysus mae'r myfyriwr yn cael teithio arnynt.<br><br>Mantais i'r awdurdod ydi<br>- Bod y trefniant yn llai o drafferth gan fod angen llawer o adnoddau i wneud y gwaith.<br><br>Mantais i'r Coleg ydi<br>- cael record gadarn o bwy sydd yn teithio ar y bysus i gefnogi'r ochr iechyd a diogelwch ar y bysus. |
| **Asesiad o'r arbedion posibl** | Pe byddai'r Awdurdod yn llwyddiannus i gael y Grŵp Coleg Llandrillo Menai i weithio fel asiant fel ag y maent yn gwneud i Gyngor Sir Fôn byddai'n bosib gwireddu arbediad ariannol bychan a manteision anariannol.<br><br>Pe baem yn defnyddio ffigyrau gwerthiant tocynnau cludiant i'r coleg 2013/14 - £166,220 ac y byddem wedi gofyn i Goleg Menai weinyddu ar yr un sail a gweithredu fel asiant i Ynys Môn byddai'r arbediad fel a ganlyn:-<br><br><table><tr><td>Ffi Galw Gwynedd i'r Adran Addysg</td><td>£16,319</td></tr><tr><td>Bil i'r awdurdod gan Grŵp Coleg Llandrillo Menai</td><td>£12,407</td></tr><tr><td>Arbediad</td><td>**£ 3,912**</td></tr></table> |

| | |
|---|---|
| | Efallai byddai'r gwir arbediad i Wynedd yn llai yn ddibynnol os oes elfen o ffi Galw Gwynedd yn cynnwys rhan o'u costau gorbenion.<br><br>Byddai trosglwyddo'r weinyddiaeth i Grŵp Llandrillo Menai yn<br><br>• Rhyddhau amser swyddog Galw Gwynedd gan y gwerthwyd 2,515 tocyn i fyfyrwyr coleg yn y flwyddyn academaidd 2013/14. Dim ond 70 tocyn a werthwyd i ddisgyblion ysgol uwchradd a 9 tocyn i fyfyrwyr Prifysgol yn y flwyddyn academaidd 2013/14 allan o 2,594 tocyn a werthwyd.<br><br>• Rhyddhau amser swyddog Galw Gwynedd yn ystod mis Medi i Dachwedd yn benodol, a'r wythnosau cyntaf ar ddechrau tymhorau.<br><br>• Rhyddhau amser Swyddog Adran Addysg sy'n ymateb i'r sylwadau/cwynion (rhan fwyaf yn ystod Medi i Dachwedd ac ar ddechrau tymhorau.<br><br>O bosib byddai modd gwneud arbediad bychan yn dilyn rhyddhau amser y swyddogion uchod. |
| **Rhagdybiaethau / risgiau** | Methu dod i gytundeb efo Grŵp Llandrillo Menai.<br><br>Efallai byddai risg o golli rhywfaint o incwm, gan na fyddai raid i fyfyrwyr wedyn dalu ar sail tymor ar y tro ac fe fyddem felly'n colli incwm unrhyw rai sy'n "disgyn allan". |
| **Casgliadau** | **Pe byddai'r Awdurdod yn llwyddiannus i gael cytundeb y Grŵp Coleg Llandrillo Menai i weithio fel asiant fel ag y maent yn gwneud i Gyngor Sir Fôn byddai'n bosib y bydd manteision anariannol ac arbediad bychan ariannol.**<br><br>**Byddai manteision i'r dysgwyr/myfyrwyr a'u teuluoedd a rhyddhad amser swyddogion Galw Gwynedd a Swyddog Adran Addysg sydd yn delio â sylwadau a chwynion.** |

| Rhif a Theitl yr opsiwn | 7. Trosglwyddo'r Gwasanaeth Cludiant i'r Coleg i Grŵp Llandrillo Menai |
|---|---|
| **Cefndir / rheswm dros flaenoriaethu'r opsiwn** | Roedd y "rhestr hir syniadau" yn cyflwyno'r syniad o drosglwyddo'r gwasanaeth cludiant i'r Coleg i Grŵp Llandrillo Menai gan gynnwys y gwaith paratoi contractau.<br><br>Mae nifer o awdurdodau lleol wedi cael rhywfaint o lwyddiant drwy allanoli contractau 'darparu a chynllunio' drwy gyflwyno contract yn seiliedig ar ysgol lle gofynnwyd i'r tendrwyr gynllunio'r gwasanaethau yn seiliedig ar wybodaeth am y galw. Dwy enghraifft dda o hyn yn Essex (2009) ac yn fwy diweddar yn Nwyrain Lothian yn 2012/2013 lle mae'r broses o allanoli 'cynllunio a rheoli' wedi arwain at arbedion gan fod hyn wedi annog gwell defnydd o adnoddau. |
| **Asesiad o hyfywedd yr opsiwn** | Mae Grŵp Llandrillo Menai gyda'r profiad o weithio fel asiant i Gyngor Sir Ynys Môn. Yr oedd Coleg Menai yn arfer gweinyddu'r tocynnau ar ran Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Fôn cyn i Gyngor Gwynedd a Chyngor Sir Fôn godi pris am deithio i addysg bellach.<br><br>Byddai angen i Grŵp Llandrillo Menai baratoi contractau gyda chwmnïau cludiant ynghyd â phrosesu a gweinyddu tocynnau cludiant.<br><br>Mae'r Adran Addysg yn comisiynu'r Uned Cludiant Integredig i ddarparu trafnidiaeth i'r colegau ac ysgolion ar hyn o bryd. Pe byddir yn penderfynu trosglwyddo'r gwasanaeth cludiant i'r coleg i Grŵp Llandrillo Menai, yr Adran Addysg fyddai'n comisiynu Grŵp Llandrillo Menai i ddarparu trafnidiaeth i'r colegau. Byddai angen cydweithio'n rheolaidd efo Grŵp Llandrillo Menai fel ag sy'n digwydd gyda'r Uned Cludiant Integredig nawr. |
| **Asesiad o'r arbedion posibl** | Mae cyllideb Gwynedd ar gyfer cludiant i'r colegau (2014/15) yn £170,000. Wrth drosglwyddo'r gwasanaeth i Grŵp Llandrillo Menai mae hyn yn awgrymu byddai arbediad o'r un swm, ond rhaid ystyried a fyddai rhaid gwneud cyfraniad er mwyn cael cytundeb gyda hwy.<br><br>Mae'r tabl isod yn dangos beth fyddai effaith gwahanol lefelau o gyfraniad ar yr arbediad posibl. |

| Cyfraniad | Swm | Arbediad |
|---|---|---|
| 0% | 0 | £170,000 |
| 5% | £8,500 | £161,500 |
| 10% | £17,000 | £153,000 |
| 20% | £34,000 | £136,000 |
| 25% | £42,500 | £127,500 |
| 50% | £85,000 | £85,000 |
| 75% | £127,500 | £42,500 |

| | |
|---|---|
| | Byddai'n rhyddhau amser Swyddog Uned Trafnidiaeth Integredig, swyddog Galw Gwynedd, ac amser y Swyddog Adran Addysg sy'n ymateb i'r sylwadau/cwynion (rhan fwyaf yn ystod Medi i Dachwedd ac ar ddechrau tymhorau. |
| **Rhagdybiaethau / risgiau** | Methu dod i gytundeb efo Grŵp Llandrillo Menai.<br><br>Risg byddai'r cyfraniad sydd ei angen yn uchel ac felly dim mantais o drosglwyddo'r gwasanaeth. |
| **Casgliadau** | **Bydd arbedion yn bosibl, ond bydd angen negodi cytundeb cadarn efo Grŵp Llandrillo Menai. Byddai maint yr arbediad yn ddibynnol ar faint y cyfraniad fyddai angen ei wneud i Grŵp Llandrillo Menai.**<br><br>**Yn ogystal, mae'r opsiwn yma yn cynnig yr un manteision a manteision opsiwn rhif 6 – Trosglwyddo Gweinyddiaeth Tocynnau Cludiant Coleg o safbwynt y myfyrwyr a rhyddhad amser swyddogion.** |

## A. BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 2014/2015 COMMUNITIES SCRUTINY COMMITTEE FORWARD WORK PROGRAMME 2014/15

| **Ymchwiladau Craffu Cyfredol** | **Current Scrutiny Investigations** |
|---|---|
| **Cludiant Ol-16**<br>Ymchwiliad i weithrediad y Polisi Cludiant Addysg Ôl-16 ar lawr gwlad | **Post-16 Transport**<br>Investigation into the implementation of the Post-16 Education Transport Policy on the ground |

| **4 Gorffennaf 2014** | **4 July 2014** |
|---|---|
| **1. Hylendid Bwyd** (Perfformiad)<br>Cadernid y gwasanaeth a ddarperir gan y Cyngor mewn maes allweddol o ran iechyd cyhoeddus ac o ran hyfywdra yr economi leol | **1. Food Hygiene** (Performance)<br>The robustness of the service provided by the Council in a key field of ensuring public health and the viability of the economy |
| **2. Diweddariad Gwasanaethau Bws yn Arfon**<br>Adroddiad yn dilyn trafferthion cytundebol diweddar | **2. Update Bus Services in Arfon**<br>Report following recent contractual difficulties |

| **1 Hydref 2014** | **1 October 2014** |
|---|---|
| **1. Cartrefi Cymunedol Gwynedd**<br>Adroddiad Blynyddol | 1. **Cartrefi Cymunedol Gwynedd**<br>Annual Report |
| **2. Ymchwiliad Craffu Balchder Bangor**<br>Adroddiad Cynnydd gan yr Aelod Cabinet | **2. Bangor Pride Scrutiny Investigation**<br>Progress Report by the Cabinet Member |
| **3. Parcio**<br>Adroddiad terfynol yr adolygiad parcio | **3. Parking Fees**<br>Final report on the parking review |
| **4. Hylenid Bwyd**<br>Adolygiad o gynnydd ar gynllun gweithredu mwn ymateb i Arolwg Asiantaeth Safonau Bwyd | **4. Food Hygiene**<br>Review of progress on action plan in response to a Food Standards Agency Inspection |

| **2 Rhagfyr 2014** | **2 December 2014** |
|---|---|
| **1. Monitro Gorfodaeth Meysydd Carafanau**<br>Adroddiad ar drefniadau monitro meysydd carafanau | **1. Monitoring Enforcement of Caravan Parks**<br>Report on the monitoring arrangements of caravan parks |

| | |
|---|---|
| **2. Trafnidiaeth Gyhoeddus**<br><br>Adroddiad ar y Gweithgor Aelodau - Matrics Cludiant Cyhoeddus | **3. Public Transport**<br>Draft Report on Post-16 Education Transport Scrutiny Investigation<br>Report on the Members Working Group – Public Transport Matrix |
| **3. Cludiant Addysg Ol-16**<br>Adroddiad yr Ymchwiliad Craffu Cludiant Addysg Ôl-16 | **3. Post-16 Transport**<br>Report of the Post-16 Education Transport Scrutiny Investigation |
| **4. Cynllun Gwarchod Arfordir Gwynedd**<br>Craffu'r Cynllun | **4. Gwynedd Coastline Protection Plan**<br>Scrutinising the Plan |
| **5. Pont Briwet**<br>Diweddariad a herio oedi gyda'r cynllun | **5. Pont Briwet**<br>Update and scrutinising the delays on the scheme |

| **24 Chwefror 2015**<br>(Pwyllgor Trosedd ac Anhrefn) | **24 February 2015**<br>(Crime and Disorder Committee) |
|---|---|
| **1. Gwastraff Gweddilliol**<br>Adroddiad ar ddysgu gwersi o'r casgliadau sbwriel pob 3 wythnos yn Nwyfor | **1. Residual Waste**<br>Report on lessons learnt from collecting rubbish every 3 weeks in Dwyfor |
| **2. Cadw'r Budd yn Lleol**<br>Craffu'r adolygiad – prosiect strategol | **2. Retaining Economic Growth Locally**<br>Scrutinize the review – strategic project |
| **3. Canolfannau Hamdden**<br>Diweddariad ar Adolygiad Hamdden gan *Just Solutions*<br>Adroddiad ar broffil defnyddwyr y Canolfannau Hamdden | **3. Leisure Centres**<br>Update on the Leisure Review by Just Solutions<br>Report on profile of Leisure Centre service users |
| **4. Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd**<br>Adroddiad ar waith y bartneriaeth (yn amodol ar ddatblygiad gwaith yr Ymchwiliad Craffu Addysg Gymraeg gan y Pwyllgor Gwasanaethau) | **4. Gwynedd Primary Schools' Welsh Language Charter**<br>Report on the work of the partnership (subject to the development of the Welsh Language Scrutiny Investigation by the Services Committee) |
| **5. Partneriaeth Diogelwch Cymunedol**<br>Adroddiad ar waith partneriaethol | **5. Community Safety Partnership**<br>Report on partnership work |

| **Eitemau Ychwanegol Posib** | **Possible Additional Items** |
|---|---|
| **1. Cymunedau Cryf** (Perfformiad / Cynllun Strategol) | **1. Strong Communities** (Performance / Strategic Plan) |
| **2. Digartrefedd**<br>Ymchwiliad Craffu posib | **2. Homelessness**<br>Possible Scrutiny Investigation |
| **3. Strategaeth Lletya Pobl Hŷn** (Perfformiad) | **3.Older Peoples Accommodation Strategy** (Performance) |